Utrecht University Library
Partner in Science
Universiteit Utrecht

# Gwaith barddonol

https://hdl.handle.net/1874/380157

# GWAITH BARDDONOL DYFED.

VAN HAMEL
487

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS
ORDINARII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946

T: H. Parry-Williams

Ion. 16eg 1908

Anrhegir y llyfr hwn mewn dyledus
barch a chlod i
Mr A. G. Van Hamel,
Amsterdam.
am ei ymroddiad diflino yn
dysgu yr iaith Gymraeg, a'i
wasanaeth ddiledryw i'w llenyddiaeth
hi.
Gan ei hen athraw,
H. Parry-Williams
Rhyd-ddu
Arfon.

Mai 25ain 1908.

Van Hamel 487

# Gwaith Barddonol Dyfed.

CYF. II.

CAERDYDD.

CYHOEDDEDIG GAN YR AWDWR, 6, LLANDOUGH STREET.
ARGRAFFWYD GAN EVANS A WILLIAMS, CYF., FREDERICK STREET.

1907.

UNIVERSITEITS BIBLIOTHEEK
UTRECHT

# NODIAD.

WRTH ddwyn allan yr Ail Gyfrol hon, gweddus i mi gydnabod yn ddiolchgar y derbyniad siriol a roddwyd i'r gyntaf. Gwelir mai detholiad o delynegion yw y rhan fwyaf o'r gyfrol hon—rhai hen, ac eraill diweddarach. Cyhoeddir awdl "Gwilym Hiraethog," a chywydd "Yr Aelwyd," drwy ganiatad caredig awdurdodau Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol. Daw y Drydedd Gyfrol allan pan geir hamdden gasglu pethau at eu gilydd.

*Gorffenaf 22ain, 1907.*

# CYNWYSIAD.


| | TUDAL. |
|---|---|
| Gwilym Hiraethog .. .. .. .. | 9 |
| I Ble mae'r Byd yn Mynd? .. .. .. | 34 |
| Liw Nos ar y Traeth .. .. .. .. | 40 |
| Yr Amser Gynt .. .. .. .. | 41 |
| Duw Gyda Ni .. .. .. .. | 43 |
| Mae'r Gwynt yn Oer .. .. .. .. | 44 |
| Bugeilio'n Mysg y Lili.. .. .. .. | 45 |
| Fy Hoff Aderyn .. .. .. .. | 46 |
| Fendigaid Ysguboriau .. .. .. | 48 |
| Hen Femrwn fy Nhad .. .. .. | 49 |
| Y Pererin .. .. .. .. .. | 50 |
| Hwian Mam .. .. .. .. | 51 |
| Orig ar y Llyn .. .. .. .. | 52 |
| Murmur y Don .. .. .. .. | 53 |
| Dychwelwch y Delyn .. .. .. .. | 54 |
| Peidiwch Cau'r Goleuni Allan .. .. .. | 55 |
| Hen Yd y Wlad .. .. .. .. | 56 |
| Y Pagan Gwyn' .. .. .. .. | 57 |
| Rhod Nyddu fy Nain .. .. .. .. | 59 |
| Plant y Flwyddyn .. .. .. .. | 60 |
| Afalau Sodom .. .. .. .. | 63 |
| Cenwch Gerddi Cymru.. .. .. .. | 64 |
| Rhagrith y Mynydd .. .. .. .. | 65 |
| Mynachlog Ystrad Fflur .. .. .. | 66 |
| Y Proffwyd Aurenau .. .. .. .. | 72 |
| Briallu .. .. .. .. .. | 75 |
| Darlun fy Mam .. .. .. .. | 77 |
| Saf i Fyny dros dy Wlad .. .. .. | 78 |
| Adduned y Proffwyd .. .. .. .. | 79 |
| Sibrwd yr Awel .. .. .. .. | 80 |
| Haul ar ol y Gawod .. .. .. .. | 82 |

| | TUDAL. |
|---|---|
| A Glywaist Ti? | 84 |
| Cofio'r Lleidr | 85 |
| "Nos Da" | 88 |
| Dysgwch Gymraeg i'ch Plant | 89 |
| Derw Cymru | 90 |
| Crynllys y Mynydd | 91 |
| Tyddyn fy Nhad | 92 |
| Paid Breuddwydio ar Ddihun | 93 |
| Y Tlysau | 94 |
| Talyho | 95 |
| Gwlad y Palmwydd | 96 |
| Tywydd Mynd Adref | 103 |
| Esgyn a Chanu | 104 |
| Uchelgais | 105 |
| Blodeu'r Fynwent | 124 |
| Anelu at Ddim, a'i Daro | 126 |
| Llef o'r Dyfnder | 127 |
| Taro'i Fam | 128 |
| Nid y Wisg sy'n Gwneud y Dyn | 129 |
| Blodeuyn Serch | 131 |
| Gad y Byd yn Well o'th ol | 132 |
| Llygad y Dydd | 134 |
| Llofrudd y Fwyalchen | 135 |
| Y Llong Aeth i Lawr | 136 |
| Paham y Byddi Farw? | 137 |
| Y Deigryn Hwnw | 138 |
| Y Prydydd Siomedig | 139 |
| Esaiah Nid yw Mwy | 142 |
| Hafod y Glyn | 145 |
| "Yr Hen Awelon" | 146 |
| Dan yr Ywen ganol Nos | 147 |
| Yr Hen Bwerau | 148 |
| Pa beth yw Dyn? | 151 |
| Trem yn Ol | 152 |
| Trem yn Mlaen | 153 |
| Eluned | 154 |
| Y Drws Agored | 155 |
| Yn Iach, fy Mrawd! | 157 |

| | TUDAL. |
|---|---|
| Ar y Ffordd i Lybia Bell | 159 |
| Gruddiau Olwen | 160 |
| Ar y Lawnt yn Ugain Oed | 161 |
| Hatling y Weddw | 162 |
| Marwnad Dic Shon Dafydd | 163 |
| Aderyn y To | 166 |
| Llwyd o Wynedd | 167 |
| Gwawr y Dydd | 169 |
| Cysgodau'r Hwyr | 170 |
| Awelon y Mynydd | 171 |
| Dagrau'r Iesu | 172 |
| Carol y Gog | 173 |
| Gofid a Chân | 174 |
| Ymryson am yr Iesu | 175 |
| Pwy all Beidio Canu? | 179 |
| Maldwyn Bach | 180 |
| Llwyn Onn | 182 |
| Croesaw iti, Eira Gwyn | 183 |
| Y Darn Cledd | 184 |
| Noddfa | 185 |
| Y Deugain Mlynedd hyn | 201 |
| Caib a Rhaw | 204 |
| Y Dragoman | 206 |
| Onnen y Mynydd | 207 |
| Genau Glân | 208 |
| Gerddi Hanes | 209 |
| Cusan Brad | 210 |
| Y Gwr Gofidus | 211 |
| Y Diog a'r Diwyd | 215 |
| Dyddiau'r Nefoedd | 216 |
| Y Ddau Niwl | 217 |
| Dysg a Dawn | 218 |
| Y Tegan Llonydd | 219 |
| Awdwr Byw dau Flodeu'r Bedd | 220 |
| Mae Gweddi'n Hollalluog | 221 |
| Pa Ddrwg a Wnaeth Efe? | 222 |
| Cardod y Plwy | 223 |
| Yr Aelwyd | 224 |

EMYNAU :—


| | TUDAL. |
|---|---|
| Ar Ei Ben bo'r Goron .. .. .. | 227 |
| Pa Dduw sydd fel Tydi .. .. .. | 228 |
| "Neb ond Iesu" .. .. .. .. | 229 |
| "Plyg Fi" .. .. .. .. | 230 |
| Y Graig sydd Uwch .. .. .. | 231 |
| Mawl i'r Iesu .. .. .. .. | 232 |
| "Byddant fel Esgyll Colomen" .. .. | 233 |
| Clyw fy llefain .. .. .. .. | 234 |
| Meddyliau o Hedd .. .. .. | 235 |
| Yr Un o hyd yw'r Iesu .. .. .. | 236 |
| Tyr'd yn Nes .. .. .. .. | 237 |
| Molianaf Di .. .. .. .. | 238 |
| Tad yr Amddifad.. .. .. .. | 239 |
| Yr Addewidion .. .. .. .. | 240 |
| Dirion Iesu .. .. .. .. | 241 |
| "O! Deuwch i'r Dyfroedd".. .. .. | 242 |
| Crist a'i Groes .. .. .. .. | 243 |
| Y Bugail Da .. .. .. .. | 244 |
| Daeth y Dydd .. .. .. .. | 245 |
| Arwain Fi .. .. .. .. | 246 |
| "Cofiwch y Gwaed" .. .. .. | 247 |
| Ni Gofiwn y Gwaed .. .. .. | 248 |

# Gwaith Barddonol Dyfed.

## GWILYM HIRAETHOG.

CADAIR LERPWL, 1884.

O! WALIA deg, wyla di,—mud gwympo
　　Mae dy gampus gewri;
Dy awen hardd drwy dy lydain erddi
Gerdda'n ei galar, a'i gruddiau'n gwelwi;
Troi o'th ogoniant Hiraethog heini,
A lanwodd genedl o newydd gyni;
Ar fedd gwerinwr o feiddgar yni,
Wylo sydd felus—hawdd yw ei foli;
Hir yw'r waedd, taer yw'r weddi—am broffwyd,
A dyn a daniwyd i wneud daioni.

Awch hiraeth o'i ol sy'n chwerw,—*hiraeth*
　　Erys yn ei enw;
A thân yr hiraeth hwnw,—gwlad lonydd
Am law ei noddydd ymdeimla'n weddw.

　　Am ei helynt ymholwn,
　　Y mae lles yn hanes hwn;
　　Lles i arall a sieryd
　　I glyw'r oes yn glir o hyd;
Iach wr, fu yn llawen chwedl—idd ei wlad,
Yn drinydd caniad, arweinydd cenedl.

Dyn a'i lond o uniondeb,—a'i enw
　　Anwyl yn ddiareb;
　Dyn o waed na hidiai neb,
　A'i enaid yn ei wyneb.

Yn ei rawd bu'n anrhydedd—i'w genedl,
Yn gwynu i'r diwedd ;
Dylanwadol ei nodwedd,
Ac yn dàl fel cenad hedd.

Ar ei ol fel dwyfol des,—arddunedd
Y gloewa rinwedd ddysgleiria'i hanes ;
Delw Ion yn dal o hyd,—swyn y glân
Amliwiog fwa'n ei amlwg fywyd.

O ! fendigedig garedig rodiad,
Hyd nawn ei henaint o dan eneiniad ;
Diwyd y daliodd hyd y didoliad.
Heb rwyg a'mharus i'w bur gymeriad ;
A'i hyrwyddol ymroddiad,—fel beiddgar
Wyrth a fu lachar, gwerth efelychiad.

Un o'i wanwyn yn enwog,—hyd elor
Fu'n dàl yn gyhyrog,
O dan groesau'n dân gwresog,—dros hawliau
Bro iach ei dadau, a braich odidog.

Ei glau weithredoedd gloewon,—ar ei ol
Yr ânt fel angylion ;
Diw'radwydd emau drudion—gogoniant,
A ddyfal gariant i'w ddwyfol goron.

Swyn ei hanes i ninau,—gyhoedda
Egwyddor pob ffafrau,
Mai'n hollol yn ol ein hau
Y cawn wedyn y cnydau.

Awn i'w swynol Lansanan,—i oror
Garai fel ei hunan ;
Bryniau dilwybrau anian,—a'u hedd pur,
Fu'r hyfryd ragfur i'w fore drigfan.

*Mynydd Hiraethog!* Enwog hudlonaf
Ydyw, a cholofn ei glod uchelaf;
Fry yr ymestyn ei goryn garwaf,
Ucha' Barnasus y "*Chwibren Isaf;*"
Ymylon Aled a'i mawl anwylaf
Fwria hudoliaeth i'w fro dawelaf;
I fin oer yr afon af—dan ddiffyg,
Ac wrth ei helyg o hiraeth wylaf.

Mor eilunol mae'r lanerch
I'w chalon yn sugno'n serch;
Yno'n deg o ddynion da,—yn ei rym,
Y magwyd Gwilym i godi Gwalia.

O linach *Hedd Molwynog*,—diwyro
Caed *arall* dywysog;
Hyd oer nawn yn deyrn enwog,—fe'n loew
Lanwodd yr enw i'w lenydd rhiniog.

Efe wybu o'i febyd,—am riaint
Yn mawrhau y Bywyd;
A chanfu faich o wynfyd
Yn y gras gylchynai'i gryd.

Wresog rieni! gras a gwirionedd
Oleuai'u gwersyll, reolai'u gorsedd;
Hardd fel y bore,—ei ddwyfol buredd
Enynai Duw yn eu hanian duedd;
Hen seintiau rhagora'u gwedd,—ac heb baid
O gysegr enaid yn gwasgar rhinwedd.

Daw o feithriniad y fath rieni
Wellhad i wledydd, a llai o dlodi;
Dymuniad enaid am wneud daioni,
O fewn yr eiddil yn ddwfn fyn roddi;
Yn mhen y brif-ffordd y mae hyfforddi;
A thoriad gwawr yw'r awr i gynghori;
Aelwyd o'i hiawn reoli,—diddanwch
A'i hawddgar heddwch a ddygir iddi.

Dyna nodwedd a da duedd
  Yr hen anedd dirion hono ;
Caru'r dynol, cael y dwyfol,
  A'i hedd mewnol o'i ddymuno.

Dyma ddirgelwch yr harddwch urddol
Dyfai o gryfdwr y gwr gwladgarol ;
Mawreddig fore mor dda gyfeiriol
Roes ei ddwfn addurn ar oes ddefnyddiol ;
Cyn teimlo'i *hunan* anian eneiniol
Dan gyrau Seina, a'i dân gresynol,
Ymarweddiad ymroddol—fam a thad,
Daflai ddylanwad i'w flwyddi olynol.

Gwelwyd gwawr goludog wên—athrylith
  Ar aeliau y bachgen ;
Gloew ragwelai awen
Urddas byd ar ei ddwys ben.

Was gwych o wreiddyn ; heb ddysg uwchraddol,
Nac hael afonydd o ddysg elfenol ;
Daliodd a gafodd, gwenodd drwy ganol
Ei bwnc i ryddid ei ben cyrhaeddol ;
Hunan-ddiwyllydd, yn ddinawdd hollol,
A'i anfanteision yn fintai oesol ;
Er hyny, nerth cyfriniol—ynddo gaid,
Yn fawredd enaid, yn fri haeddianol.

Derwen ddwys, o frwydro'n dda,
Egni corwynt goncwera ;
A chryf lif mewn chwerw floedd
Gafnia eiddig fynyddoedd ;
Felly gwr, mewn cyflwr caeth,—trwy bob tid
Y dyrch o'i ofid i oruchafiaeth.

O hyd mewn ymdrechiadau,—troi yr oedd
Ddalenau bydoedd o lawn wybodau ;
Gwnai cydiol antur gwanc ei dalentau
Gyfri' ehelaeth o'i *brin gyfrolau ;*
Yn ddianwadal am ddal meddyliau,

Anymchweledig ei ymchwiliadau;
Ymroi'n awyddus am wirioneddau;
A'u chwilio'n dirion i'w clir ddyfnderau;
Gwelwn ef yn glanhau—ei alluoedd,
Yn eu haberoedd bob hwyr a borau.

    Dyn gonest yn ei gynydd,
    O hardd ddor ei fore ddydd;
    Ni roes hwn o wersi hedd
    Awr fore i oferedd;
Deallai ef nad yw llwydd—yn ddiddig
Gyda llygredig dwyll a gwaradwydd.

Ceir nad yw elw cywir yn dilyn
I ddirywiedig rodfeydd yr adyn;
Nid oes gyrhaeddol ysgol i esgyn
I dŵr o nod o dŷ yr anhydyn;
Ni fu obaith i febyn—am fawredd,
Heb i wirionedd gloewbur ei enyn;
Gwilym gredodd, ddaliodd hyn,—dringai'n glau
I'w byramidiau heb rwymau wedyn.

Y mynydd sy'n nghlwm â'i enw,—wele,
    Anfarwolodd hwnw;
Drwy law awen dryloew,—ger ein bron,
Mae *newydd goron* i'r mynydd garw;
    Enw *un* ar *ddau* o nod,
    Awen *un* wna'r *ddau'n hynod;*
Yn nhir Llen, *enw'r llall*—dan anrhydedd,
A fynodd orwedd ar *fynydd arall!*

Ni f'ai enw hen fynydd—Hiraethog
Fyw yn oludog o fewn aelwydydd,
Na'i degwch mor fendigaid,—nac mor dâl,
Heb glod dihafal y bugail defaid.

Ei fywyd athrofäol,—hyd y bryn
    Gyda'i braidd oedd fuddiol;
Dilynai adlonol—wersi natur,
A chariai gysur o'i chreigiau oesol.

Ond bu galwad bugeiliol—yn rhy fyr
    I'w fawredd ysbrydol;
'Roedd ei enaid arddunol—am uwch bri,
Yn tremio, tori, trwy y materol.

Ei hyglod fyfyrdodau,—a alwent
    Am ddwyfolach pethau;
Dal perchen talent olau—yn y llaid,
Yw cadw enaid o fewn cadwynau.

O! pa les yw cyplysu—enaid tâl
    Wrth ddarn tir i'w faethu?
Neu gael amod i'w glymu—wrth gorlan,
Yntau a'i anian oddiyno'n tynu?
Myn i dân bob rhwymyn du,—ac fe'u chwal
Yn ddiatal yn llwch o'i ddeutu!

Rhaid i enaid trydanol—fynd yn uwch,
    Fynd yn nes i'r dwyfol;
I gynydd mor ogonol,—elfenau
Meirwon yw nwyddau mor anianyddol.

Rho'wch hëol ymgyrch awen—i undyn
    Fo a "mynd" i'w aden,
I ddal hynt meddyliau hen,—mewn cylchoedd
Goruwch had diroedd a gwrych daearen;
Yr iawn dir i enaid—mor oleubwyll,
Yw llwybrau crebwyll, a bro cerubiaid!

II.

O! 'r pur Wladgarwr parod,—dros ei wlad
    Y rhoes lw cyfamod;
  A'i phenaf, egluraf glod,
  A dyfai ar ei dafod.

Ei holl anian f'ai'n lloni,—mewn hud serch,
    Dim ond sôn am dani;
  A thra 'mhell o'i thrumau hi,
  Nid â'i enaid o honi.

Mynai drem i'w hen drumau,—er ceisio'r
Cusan ar ei gruddiau;
A'i iach estynol freichiau
Am ei gwddf fel yn ymgau.

Cyflawni angen ei wlad ysblenydd
Oedd hyglod benod Hiraethog beunydd,
O wledydd filiwn, gwlad ddihefelydd,
A'i bri anwywol barha yn newydd;
O lethrau gemol ei throiog gymydd,
Wele folianus lif o lawenydd;
Y niwl wnai'i bànau yn lân obenydd
I ddal breuddwydion ger bron wybrenydd;
Mae'n cadw delw'r nef ar ei dolydd;
Mae cnydiau lili'n fin i'w hafonydd;
Hoffai ei huthrol grog-rwygol greigydd,
A chyson antur ei brochus nentydd;
O! hygarol fagwyrydd,—ni chai'i serch
Gymhar i lanerch o'i "Gymru lonydd."

Ynddi gwreiddiai, daliai'n dŷn,
Fel eiddew goreu'r flwyddyn;
Mawrygydd mor agos,—ac mor gydiol
A'r gragen heriol ar graig yn aros.

'Roedd ei afael ar Ddefion—ei genedl,
Dadganai'i chyfrinion;
Daliodd ei neillduolion,—er dwndwr
Y gwydnaf wadwr, a gwawd ynfydion.

Yr hen iaith gywrain, hithau—a welodd
Waelod ei serchiadau;
O sel yn eirias olau,—dirmyg bron
Yrai i dlodion yr edliwiadau.

Difwlch gymeriad ufydd,—o lawnion
Ddalenau ysblenydd;
Ystwythder yr aber rydd,—yn unol
A dymunol gadernid mynydd.

Llariaidd a gwylaidd o galon,—fel oen,
Heb flas ar ddichellion;
Ond i yru blinderon—o'i fro dlawd,
Doi holl anianawd y llew yn union;
Os gwanaidd wrth lais cwynion,—byddai'r gwr
Yn agwedd arwr mewn egwyddorion.

Gwyliwr i'n diogelu,—mewn ystorm
Nos a dydd yn glynu;
Ar ei dwr yn pryderu,—heb seibiant
Na chwsg i'w amrant yn achos Cymru.

Gyda'r wasg i godi'r hil,
O'i bwnc ni wybu encil;
Mewnol rym yn ol y rhaid
Oedd i'w obaith yn ddibaid;
Yn flin wyl o flaen ei hèr—ddiollwng,
Wele, pen ostwng wnai Alp anhawsder.

Grymus wyrodd i greu "*Amserau*"
Da i'w genedl mewn du eigionau;
I fwrw dylif o hyfryd olau
Draws y niwloedd fu'n drysu'n hawliau;
Newyddiadur pur i'n pau,—a sylfon
Ei newyddion ar wirioneddau;
Gwawr hir ar ein gororau,—er lleshad,
Gawn o ddylanwad ei gyn-ddalenau.

"'*Rhen Ffarmwr*," garwr gwerin,—ar ei lef
Codai'r wlad fel byddin;
Gwas bryniau megis brenin,
A'i gryf arf oedd gair ei fin.

Allan wrth ei ewyllys,—cyd-dynem
O'n cadwyni dyrys,
A'i arddeliad mor ddilys
Rwymai bawb ag *awgrym bys*.

Y natur ddynol hollol ddeallai,
I lawr i'w gwaelod yn glir y gwelai;
Ei holl linynon i'w lle unionai—
Gwych nodau rhywiog ei chân darawai;
I'w chalon yn union ai,—a'i greddf lan
I'w ffordd ei hunan yn effro ddenai.

Hyny a ddododd i'r *Newyddiadur*
Roesawiad hyglod, arosiad eglur;
Ffrwd o ffraeth wybodaeth bur,—fel hono
Adwaenwn eto, yn denu natur.

I *ddenu*, pwy mor ddoniol?—pwy o'i sedd
Am rydd arabedd mor ddiarhebol?
Ar adyn uchelfrydig,—pwy eilwaith
Am arllwys gwawdiaeth oedd mor llosgedig?
Erfawr gylch yr *hyf* a'r *gwyl*,—a lanwai
Toreithiog enaid Hiraethog anwyl.

Rhad rodd oedd ei gyngor drud,—balm cyson
Yn lloni'r galon, yn well na'r golud.

Diwyd ymröad o hyd mor ëon
Gariai ei genedl o'i garw gwynion;
Chwiliai, a cheisiai ladd yr achosion
Barai ei gadael dan y bargodion;
Rhoi i gynal ei chalon,—wynfydau,
A chaniadau yn lle och'neidion.

Yr hyf lenor aflonydd,—i'w oror
Wawriodd gyfnod newydd;
Ac i oerion fagwyrydd
Y cariai dân pynciau'r dydd.

Ei lym, wreiddiol ymroddiad,
Newidiodd glir nodwedd gwlad;
Gan ddal, heb gwyn eiddilwch,—i'w fro brid,
Yn darian Rhyddid—arweiniwr heddwch.

Ei hwyl gynhyrfodd Walia,—am arbed
Yr ing agored ar dir *Hungaria ;*
Pan oedd cynddaredd ar waed yn gwledda,
A gweddwon addfwyn, heb gyhoedd noddfa ;
Bloeddiai'r gwr ar ei dwr da,—am droi'n ol
Rwygiad dinystriol ergydion Awstria.

Molai'r estron dros y wendon
Rymus wron yr " Amserau ; "
A chadd glodydd ereill wledydd,
A chawodydd diolchiadau.

Gwelai fyd ; ond Gwalia fwyn
G'ai reddfau y gwr addfwyn ;
Daliodd o blaid ei eilun,
A'i serch yn dibrisio'i hun.

Dyna'r dyn raid ei enwi,—dyna'r dyn
Red i wddf trueni ;
Y dyn sy'n gwneud daioni—parhaol,
Yn galed fuddiol heb glod i'w feddwi.

Dyn a da yn ei duedd,—heb roi pwys
Erioed ar gynwys rhyw der ogonedd ;
Dyn y *rhaid* i anrhydedd --ddyrchafu,
A dyferu arno glodforedd.

Y bywiog awdwr ! mor debyg ydoedd
Yn hyn, i'r Iesu ar ran yr oesoedd ;
Agorai'i enau er lles gwerinoedd,
Heb son am aur, ond am hawliau'r miloedd ;
Eilun iddo'i hun nid oedd,—ond dyben
Ei ddyddiau llawen oedd hedd y lluoedd.

III.

O ! ddewis wr Barddas hen—
Diwyd anwylyd awen ;
Ar dàl drum ysbrydol draw,—bu ganwaith
Yn gwisgo'i dalaith, ac ysgwyd dwylaw.

Mynodd hon â'i mwynaidd hud
Glymu Gwilym â'i golud;
Hwnt yr ai drwy lawnt o ros,—i ymyl
Y gerddi engyl a garai ddangos.

Difyr ddylanwad ei farddol yni
Anadlai hoen ar ei genedl heini;
Cyfrinion anian, glan mewn goleuni
Gyrchodd, gyhoeddodd yn wresog iddi;
Athrylith i reoli—cymdeithas,
O'i ddawn grych wynias oedd yn gwreichioni.

Hwylus, a chlodus mewn ymchwiliadau,
Hedai ei awen i wleddoedd "duwiau";
A'r da ddanteithion roed iddynt hwythau
Hawliodd yn union i'n gwledda ninau;
Huliedig arlwyadau,—dihalog,
Wnaeth ein tywysog yn borthiant oesau.

Yn nodd eangwawr aneddau engyl,
At orwych baentwaith y trochai'i bwyntyl;
Ac yn emog i'n hymyl,—er lles gwlad,
Y mynai'r bwriad mewn aur a beryl.

Gwaith newydd ar lonydd len
Luniai, fel yn fyw o hoen;
Rhyw lawn glir arluniau glan,
A'u trem fel natur ei hun.

Tir hawdd oedd natur iddo,—'roedd natur
Ddiniweitiaf ynddo
Yn ei lawen oleuo,—ac yn bur
Adleisia natur o'i dlysion eto.

Gwnai i wyneb gain *wenu*,—eto'n deg
Tynai dant *galaru*;
Llwyddianus gallai ddenu—o'n henaid,
Dawel ochenaid, wylo, a chanu.

Cân fynodd mewn cwynfanau,—ac enfys
  Gwynfyd dros ein dagrau ;
Nid y gwr o enaid gau—a wna bill,
A'i allu'n enill ein *holl linynau.*

Goludoedd y gweledig,—drwy anian
  Driniai yn ddeheuig ;
Cariai gân o'r creig unig,—ac yn wir
O ffrwyth y frodir yn ffraeth wefredig.

Brydiau ereill ai heibio'r daran,
I bell wyll ai ei grebwyll allan ;
Mŷnai greu mewn gorhoian—fydoedd crog,
Yn gain amliwiog yn ymyl huan.

O lwch anianol i loewach nenau,
Ai ar ei antur mor bur a'r borau ;
Gan wneud ei sedd mewn hedd rhwng mynyddau
Yr awen nerthol a'i chyfrin wyrthiau ;
A gwridog ethol greadigaethau,
Yn troi o'i gwmpas yn eu ter gampau ;
Mae lliw nef i'm llawenhau,—ar gribog
Uchafoedd heulog ei ddrychfeddyliau.

" Bydded " awenydd, yn boddio dynion,
Alwai y teilwng feddyliau talion ;
Boddhad dynoliaeth heb ddudew niwlion,
Yw trem o ganol eu trumau gwynion ;
Heulog fyw olygfäon,—sy'n amlwg,
Yn synu'r golwg, yn swyno'r galon.

Ar ei ol anturio'r y'm,—godidog
  Ei hediadau cyflym ;
Rhodio'n y pellder ydym,—anamlwg,
Ac o'r golwg y gyrai Gwilym.

Rhodiai ef ar dir dwyfol,—a'i awen
  Yn gwneud newydd heol
 I dorf fawr, tra'n dirf o'i ol
 Y trig addurn tragwyddol.

Henffych i'r hen awenau—adawant
        Y duon bydewau!
Awduron yr uchderau,—ac o'u hol
Y llaid daearol yn y pellderau;
O belydron eu doniau,—Barddas wel
Ar eu hwyr dawel Aurora duwiau.

Wrth ei gân Hiraethog hy'
Oedd aflonydd fel hyny;
Ar linell y *pell* a'r *pur*,
Hirwyntiog ar ei autur;
Difyr dôn ei glodfawr dant,
Sobrai drem ysbryd Rhamant.

Awn yn nes i'w geinion haf,
Awn i'w iach fryniau uchaf;
A daw i farddol duedd
O honynt hwy, neint o hedd.

Tir "*Emanuel*" uchel fynychodd,
A hir yn nhangnef ei nef y nofiodd;
Yn nawdd yr Iesu mewn hedd arosodd,
A brwd ofalus fel brawd fe'i holodd;
Ei dyner ddrudion erddi a rodiodd,
A phorthus egni o'u ffrwyth a sugnodd;
Y byd o'i olwg beidiodd,—tra'n mwynhau
Ei wledd o ddiliau, a'i Dduw addolodd.

Golud dihalog y wlad a welodd,
Oddiar y lanerch a fyw ddarluniodd;
A'r gwir feddyliau rhagoraf ddaliodd,
Mewn edau sidan mwynhad osododd;
Y byw dlysineb diail a'i swynodd,
Yn ddystaw foddus a etifeddodd;
O bau cerub y cariodd—rosynau
Yr effro ddolau, a'r ffyrdd a huliodd
Obry, lle yr ymlwybrodd,---a natur
Yr awyr eglur a beraroglodd.

Bardd agored o bur hawddgarwch,
Yn dyferu hoen a difyrwch
Ydoedd hwn, ac ar fryn diddanwch,
Fyny roddodd fanerau "*Heddwch.*"

Beiddgar iawn, buddugwr oedd,—äi tu hwnt
I antur Rhyfeloedd:
A lliwiai a'i alluoedd,—feusydd rhad,
Cyfandir caniad *tu cefn drycinoedd.*

Draw edrychodd drwy drwchus
Gymylau gwae amlwg Us;
O Edom lwyd mae ei lef,—wedi llwydd,
Ac hir ddiwydrwydd yn cyrhaedd adref.

"Job" hael yn wyneb welw!—dan ei gur
Rhoed mwyn lywiawdur ar "domen" ludw,
Tröwyd, a dreiniwyd ei randir hwnw
Yn noeth anialwch, a'i "nyth" yn ulw;
Bu'n Gwilym heibio'n galw,—nes tanodd
Yr ymfaluriodd y storm aflerw;
Hardd liwiodd ei gerdd loew—â phur nodd
Y dydd agorodd o'i dywydd garw.

Ei droed hyf ar "*Dwr Dafydd*"—a roddodd,
Mewn rhyddid ysblenydd;
O'i ben derbyniai beunydd
Ei ddyfal ddawn ddwyfol ddydd.

O'r "*Twr*" serch sy'n gartre swyn,
Enwog oedd ei awen gu;
Ei Dduw i'w fant roddodd fwyn
Ddyfroedd Ei feirdd Ef ei hun.

O! y gras mewn du groesau—at fy rhaid,
Adwaena'm henaid yn ei "*Emynau*";
Yn y rhai'n cawn o'r wiwnef
Ddigon o Dduw ganddo ef.

Drwy ei deimladau rhedai melodion
O fawl yn felus, fel nef awelon;
Wele, mae defni ei salmau dyfnion,
Yn gwlychu brigau pwysïau Seion;
Yn llawn o gariad, yn lloni geirwon
Lwybrau yr anial i bererinion;
Dygant i garedigion—yr Iesu,
Orseddau canu yn rhosydd cwynion.

Pery ei foliant yn ein prif wyliau,
Am fron ddihalog, am farn oedd olau;
Addas glorianydd o ddysglaer riniau,
O bur gydwybod, heb wyrog dybiau;
Rhoes i ereill drysorau,—o ddyfnaf
Fyfyrion doethaf ei feirniadaethau.

Nid ein swydd yw dansoddi—arddunedd
  Ei farddonol deithi;
 Aros, mwynhau, trysori,
 O fewn ei nef a wnawn ni.

IV.

Heibio arddunedd a swyn barddoniaeth,
Esgynwn, gyrwn at uwch rhagoriaeth;
I weld Hiraethog ar bell diriogaeth
Oesol dihalog sylweddau helaeth;
Uchderau Iachawdwriaeth,—lle mae Duw
Yn bwrw diluw o ysbrydoliaeth.

  Dan y gawod yn gywir
  Yn fab y nef y bu'n hir,
  Yn derbyn yr hyn sydd raid,
  O'i boenau, achub enaid;
  Cronai, derbyniai beunydd,
  Fawredd Ion yn for o ddydd.

O wawr galonog! Dyma'r goleuni
Gnydiai ogoniant gweinidog heini;

Y llif naturiol ar wyll fu'n tori
Yn ganaid der drwy ei genadwri;
Tröai anial trueni,—at ofyn
Diraddiol elyn, yn diroedd lili.

*Gwladaidd*, a lluniaidd heb ffug allanol,
Allan y torai'n ei ddull naturiol;
O fwynaf galon, efe'n fugeiliol
Ddibrisiodd wagedd a bri swyddogol;
Ni fynai'i natur fewnol—ymfwynhau
Ar dir sidanau a rhodres dynol.

Cyneuedig genadydd,—o goleg
  Bugeiliaid y mynydd;
 Heb un rhwysg, yn gwibio'n rhydd
 Ar hyd fànau'r difeinydd.

A'i anian hudol yn eneiniedig,
Yn wyn o loewder yr Anweledig,
I'w lwyfan dringai, llonai'r pellenig;
I ddyn bu'n dafod, i Dduw'n bendefig;
O'i wên addawol a'i ddawn ddeheuig
Rhedai hyfrydwch yn ffrwd wefredig;
Hyf roddai yn fawreddig,—gostrelau
Y gloewaf rasau i glwyfau'r ysig.

Gwr Duw o gywir duedd,—yn gryno
  Gronicl o wirionedd;
Ar y dàl briodoledd—feithrinai,
Gwresog hanfodai gras a gwynfydedd.

Yn y gair dwyfol y dengar dyfodd,
Gwrhydri seraph o'r gair drysorodd;
Hen addewidion hwn a ddiododd
Ei wanwyn bore, a'i nawn a burodd;
Am ei lenyrch ymlynodd,—a bythol
Geindeb naturiol ei gnwd bentyrodd.

I'w le, yn naturiol aeth,—yn gadarn
  Geidwad yr Athrawiaeth;
O diroedd Duw, rhydd y daeth—a beichiau
Byw o rosynau i'w bur wasanaeth.

Tyrai adnoddau tir duwinyddiaeth
Fel yn afradus, drwy flin efrydiaeth;
A'i farn yn olau, cyfrinion helaeth
Y rhain fu deilwng ran o'i fodolaeth;
Cyfodai'n arwr ar dwr awduraeth,
O anadl eang i drin dadleuaeth;
Myfyrdod mewn gwybodaeth--ddiwyrgam,
A ddygai William i fuddugoliaeth.

Amlwg feddyliau cymhleth—a roddai
    Yn ei wreiddiol bregeth;
  Rhyw wlad fawr o wawl di feth
  Yw calon y "*Koheleth.*"

Oedd gryf fugeilydd gywiraf galon,
A'i gorlan enwog reolai'n union;
Tröai yn ebrwydd ddystawrwydd tirion
Gableddiad gorwag y bleiddiaid geirwon;
Y dorf a wyliodd, drwy ei ofalon
Brofodd yn felus borfeydd nefolion;
Byw'n deg uwchben eu digon—byddai'i braidd,
Hyd froydd iraidd, ger dyfroedd oerion.

Hawliai deg osteg astud—ei genedl,
    Pan esgynai'r pwlpud;
  Heb un siomiant b'ai'n symud
  Nodau mawl drwy enaid mud.

Am ei hwyliau ymholwn,
'Roedd *enaid* yn *amnaid* hwn;
A difai o dwr deufyd,
*Osgo'i ben* f'ai'n dysgu byd.

Fe lifiai a'i law hefyd—yr awyr,
Mewn chwareuol ysbryd;
Torai fai, tyrai fywyd,
Fel y nef o'i flaen o hyd.

Dyma'i nodau amneidiawl,—o dyner
Drydaniad cyffroawl;
Wedyn gadawai'n hudawl
Yn ol ei fys lif o wawl.

Addas beunydd esboniai,
Goleuo'r nos yn glir wnai;
A'i wên dda fel seren ddydd—o fyd gwell,
Ac ar ei llinell yn creu llawenydd.

O! lednais wron; *aelodau'n siarad*!
A'u hosgo'n hanes gwres ac eneiniad;
Awgrymiad amlwg a rwymai deimlad
I'w gywir ddilyn mewn gwir addoliad;
Naturiol neillduoliad,—heb chwithig
Ranau siomedig i'r un symudiad.

Dygai, o ddwyfol degwch—bröydd nef,
Beraidd nard diddanwch;
I roi blas ar dori'r blwch
Oedd o ryfedd arafwch.

Ymddifyrai, oedai'n wyl,
Heb lychwino'r blwch anwyl;
Ei fwyn drin a fynai dro,
Atal, a'i fygwth eto,
Nes tanio a swyno'r saint
Am ran o swm yr enaint.

Dacw fe'n rhwygo'r trysor tra iesin,
A'i ael yn hafal i heulwen Hefin;
Ysbrydol iechyd, asbri dilychwin
Daenai'i ddadebrol adnoddau dibrin;

Enaint gras, un teg ei rin,—a'i wlybwr
O gylch yr arwr yn gwlychu'r werin.

Ai yn mlaen yn ymlynol,—weithiau'n dân,
    Weithiau'n deg chwareuol;
A'i gu lais yn ogleisiol—drwy'r awyr,
Yn tòni'r difyr, yn tanio'r dwyfol.

Wrth air ei araeth eirian,—dan wawr Duw
    Dyna'r dorf yn hongian;
Hyd ei glir syniadau glan,—dacw'n chwarau
Ireiddiaf liwiau rhyw ddwyfol huan.

Uwch, i'w eithafnod, yr hwyl f'ai'n codi,
Dan wefriad enaid yn frwd o yni;
Yn wyllt enynol un fellten heini
Ni f'ai heb heddwch o'r nef i'w boddi;
Pan fyddai taran o Seina'n tori,
Ai'n syth i awyr y groes i'w thewi;
O anadl hynod! Wylo, dyloni,
Odlau'n y galon yn dilyn gwelwi;
Cymysg ddylanwad yn mad gymodi
Enaid garolion a dagrau heli;
Do'i afradloniaid i frwd oleuni
Eu gwlad oludog, o'u gwael dylodi;
Egwyddor gras a gweddi—yn ei floedd
Wysiai y miloedd i ddawns a moli.

Ei bur lais rhinfawr barlysai'r ynfyd,
Y mwya'i ryfyg lesmeiriai hefyd;
Yntau yn anfon tonau o wynfyd
Ar ei dyrfaoedd yn rhaiadr o fywyd;
Annuwiol o'i farwol fyd,—nofiai rhain
O ddeifiol ochain i ddwyfol iechyd.

Ysbryd Duw sibrydai hedd—tragwyddol,
Ar lu fai'n farwol o fewn oferedd;
Eu henill i wirionedd,—heb allu
I'w garw grynu ar greigiau rhinwedd.

Nid yn wastad doi'r dylanwad,
Rheidiol hwnw;
Fel y corwynt enwog helynt,
*Weithiau'n* galw.

Ond er hyny deuai rhinwedd
Y gwirionedd a'i gywreinion
Oddi fyny o'i ddwyf anedd
Ar ddygasedd yn hardd gyson;
Pan heb allwedd *gwlaw gorfoledd*,
I fyw fawredd ei fyfyrion,
Deuai glanwedd *wlith tangnefedd*
A chysonedd iach o swynion.

O Urdd deg! O fawredd dyn!—cael dwyn drud
Ddymunol olud i ddamniol elyn;
Bri uwch na gwobrau achub,—yn brofiad
Ni hawliodd cariad, ni welodd cerub.

Nid gweinidog y nwydau—oedd William
I ddal ar deimladau,
Ond gweinidog eneidiau—truenus,
Yn deyrn soniarus i drin synwyrau.

Pryder ei gariad fyddai'n wastadol
Am helynt enaid, nid moliant dynol;
Ar lwyfan Duwdod nid yw briodol
Afradu oriau am fri daearol;
Haeddiant y Groes rinweddol,—rhag barn dig
Gyfodai'n unig i fyd anianol.

Lloni, synu Llansanan—fu nodwedd
Ei fynediad allan;
Daeth i'r adwy, a thrydan
Awyr Duw i'n rhoi ar dân.

Troi am wastad dir *Mostyn*—wnai'r golofn
Yn ddirgelaidd wedyn;
Llwyddiant mewn gogoniant gwyn—yn ei waith,
Ofalodd eilwaith â'i fawl ei ddilyn.

Heibio, a'i nerth heb un nych—uwch yr äi,
A chryf oedd ei lewych;
Yn bur sant, gogoniant gwych—ei enaid,
A dorai'n danbaid ar wenau *Dinbych.*

A'i nawn, o dan eneiniad,—o fywiog
Gryfhäol ddylanwad,
O'i wlad hen, y doniol dad
Fu'n llawn llwyfan *Llynlleifiad.*

V.

Ymholwn am ei aelwyd,—ac oedwn
Dan ei gydiol gronglwyd;
Iach haul o'i chylch a welwyd,—a'i chanol
I geinaf garol gwynfa agorwyd.

Gwilym, i'w diogelu,—adwaenid
Yno yn teyrnasu;
A than lawn fendithion lu
Elai'n dàl yn ei deulu.

Addewidion yn ddedwydd,—agorai
A'i feiddgarwch ebrwydd;
O weddi lawn wyddai lwydd,—ffydd fyddai'n
Hydreiddiol adsain drwy y "*ddyledswydd;*"
Yr oedd am gyfarwyddaw—geiriau'i fin,
A mawl ei ddeulin am wylio'i ddwylaw.

Dyma ffynonell, neu gell, y gallu
Wnai i aflonydd rwystrau ddiflanu;
I'r sancteiddiolaf, uchaf, mynychu
A wnai o draserch at droed yr Iesu;
Fel Moses yn nesu—i'r disgleirdeb,
Yntau a'i wyneb o Dduw'n tywynu.

O wydd Duw a'i sanctaidd dân—yn siriol
Y prysurai allan;
A chynyrch purach anian
Barai glod i'w lwybrau glân.

Rho'es yn hyn wers i ninau,—i gadarn
Gydio mewn sylweddau;
Nis ceir hanes coronau,—na moddion
I drin gelynion, ond ar ein gliniau.

Glân ei gylch, heb gulni gaid,—diguro
Frawdgarwch ei lonaid;
Byw'n ein plith heb wenwyn plaid.—yn llydan,
A barn o anian bur yn ei enaid.

Yn ben ar y llwyfan bu,—trylwythog
*"Dad darlithwyr Cymru;"*
Hyawdledd yn cenhedlu
Bywyd hael i bawb o'i du.

Ei ddawn ar ol *Gwyddoniaeth*,—droai'n hyf
Drwy nefoedd *Seryddiaeth;*
Trumau nef, tramwyo wnaeth—yn nwyfol
Awyr feithrinol, a chref, *Athroniaeth.*

Clywai'r sêr yn clir siarad
Am eangach, gloewach gwlad;
Hyd y nen bu Duw yn hau
Dolydd, a'u llon'd o heuliau;
Gyda llaw, a llygad llym,
Heibio'u golud bu Gwilym;
Hawdd yr äi drwy sanctaidd ros—palas Ior,—
Ar y fwyn oror erfyniai aros.
Firain sant! ar fryniau sêr,—fyth nid oedd
Ar hyd y nefoedd yn rhodio'n ofer.

Yn frwd ei dalent, myfyrdod helaeth
Ei ddydd a roddodd i *Ddaearyddiaeth;*
Deallai synwyr a dull wasanaeth
Oesau hunasant yn nos *Hanesiaeth;*

Ar fwrdd ei ddenol awdurol doraeth,
Mwynhawn ei nwyddau mewn *Anianyddiaeth;*
Cofir dan gawod hiraeth,—gyda blas,
Am ei nerth addas mewn *Araethyddiaeth.*

Llu o ddoniau llwyddianus;—llu a'u nod
Oll yn un, a'u grymus
Helynt, yn gydnerth hwylus,—yn rhoi gwedd
O rasol fawredd ar oes lafurus.

Doeth erioed, cydweithredu,—y byddent,
Buddiol, wedi'u clymu
O fewn cain edefyn cu,—byth-gydiol
Y gras arosol o groes yr Iesu.

Yn loew'i goron, yn hawlio'i garu,
Gweld ei wasanaeth wna'n gwlad i synu;
Addfwyn a glanaf gyneddfau'n glynu
Wrth olud dwyfol, wrth haul i'w tyfu;
Cariad oedd yn cordeddu—trwy'u canol,
Y gras arosol o groes yr Iesu.

Y byw arabedd mor bur a wybu
Wnai ysbryd cwynol i sibrwd canu;
Parodd glaf wyneb y pruddglwyf wenu,
A meddai *fawredd* i *ymddifyru;*
*Diddan*, ond heb dueddu—i droi'n ol,
Y gras arosol o groes yr Iesu.

A mewnol anian mewn hwyl awenu,
O dan ei luman y bu'n dylamu;
Mal uniawn gerub, yn mlaen yn gyru;
I arwain cenedl o ser yn canu;
Beiddiodd, heb anwybyddu—cylch dwyfol,
Y gras arosol o groes yr Iesu.

Dyn a'i ddyngarol dân oedd yn gyru
Egwyddor camrwysg o ddaear Cymru;

A mỳnai lawen wên i dywynu,
Ar ddagrau dolur ei hawddgar deulu;
Ymyrodd, heb a'mharu—deddf nefol,
Y gras arosol o groes yr Iesu.

Dyfal, ddiatal ar dwyll o'i ddeutu,
O bwynt yr uniawn y bu'n taranu;
O blaid gwirionedd heb lid i'w grynu,
Tros boenus engyl trais y bu'n sangu;
Ar ei *oll* feiddgar allu,—byddai ol
Y gras arosol o groes yr Iesu.

Dyn agored, dengarol,—dyn yr iawn,
Dyna'i reddf dragwyddol;
Dyn a'i waith ymdaen o'i ol,
Dyn deufyd o dân dwyfol.

Udwch! Udwch! ffynidwydd cysgodol,
Anifyr nodau yn farwnadol;
Hyf allu angau a'i fwyell ingol
Dorodd i waered y cedrwydd heriol;
Hiraethog dywysogol!—cwsg yntau,
A cheir ei eisiau mewn bwlch arosol.

Dydd ei gladdu, O! 'r düwch—ymwelodd,
Yn gymylau tristwch;
Gwawr ddydd, a gruddiau heddwch—yn welw
Ydoedd hwnw, heb wrid diddanwch.

Os bu Cymru yn griddfànu,
A galaru dan glwy hiraeth,
Os bu deigryn mawr yn disgyn
Am anwylyn serch mewn alaeth—
Galarodd, wylodd yn welw,—a niwaid
Yn briwio'i henaid y bore hwnw.

Hawliodd gynhebrwng teilwng o'n talaeth,
O fawrion gryment i'w dalent helaeth;

Myfyrio, son, am ei fawr wasanaeth,
Wnai ael y bore yn wlyb o hiraeth;
Dygwyd i'w gladdedigaeth—barch dibrin
I noddwr gwerin a'i dda ragoriaeth.

Ni raid i feddrod Gwilym wrth flodau,
Erys ei hanes yn llawn rhosynau;
Peraidd ddylanwad eu pur ddalenau
A ddaw a llesiant i weddill oesau;
A'u gloewon emog liwiau—mor ddillyn,
Heb weled gwyfyn—heb lid gauafau.

Huned! O huned! o dan dywynion
Ei eglur riniau, sydd mor glaerwynion;
*Allan o'i Walia*—ei holl anwylion
A dreiddiol garant orweddle'u gwron;
Anedd anwyl gan ddynion,—ac amlwg
Ydyw y'ngolwg Duw a'i angylion.

Trwy y byd tra bo awdwr,—trwy y byd
Tra bardd a phregethwr,
Enw da a saif yn dwr
Hardd, i'n goreu ddyngarwr.

# I BLE MAE'R BYD YN MYND?

AR genllif chwyldroadau,
  A wyddost ti, fy ffrynd,
Yn oes y cynhyrfiadau,
  I ble mae'r byd yn mynd?
Mae'n cwyno ac yn canu
  Wrth groesi llawer maen;
A'i ysbryd yn trywanu
  Y neb a saif o'i flaen.

Dywedir fod wybreni
  Yr oes yn oleu iawn;
A thalent yn dadleni
  Ei chudd feddyliau'n llawn;
Mae heulwen ysgolorion
  Yn glir ar lawer ffos;
Ond wybren egwyddorion,
  Mor ddu a chanol nos.

Mae rhai yn methu cysgu,
  Gan awydd gwella'r oes;
Ac eraill wedi dysgu
  Y gamp o dynu'n groes;
Tra fyddo'r naill yn dringo
  I dŵr athrylith fawr,
Mae arall yn ymwingo,
  Am dynu'r tŵr i lawr.

Mor llawn o hap-chwareuon
  Yw bywyd ar bob llaw;
Mae'n cellwair âg amheuon
  Yn ngoleu'r byd a ddaw;
Fe sarna drugareddau
  Yn greulon dan ei draed;
A chwardd ar wirioneddau
  Yn griddfan yn eu gwaed.

Dadleuir fod efengyl
  Yn fethiant yn y wlad;
A chenadwri engyl,
  Heb rinwedd na lleshad;
A chlywir bloesg fabanod
  O ddirmygedig dras,
Yn dweyd mai dyllhuanod
  Yw colomenod gras.

Daw'r Sabbath heibio'n dawel,
  A'r dwyfol yn ei bryd;
A'r nefoedd yn yr awel
  I loni calon byd;
Prysura'r saint i wrando
  Am falm i wella'u briw;
Tra'u plant yn chware bando,
  Wrth odre mynydd Duw!

Mae pawb yn ymarfogi,
  A'u bryd ar gymhell ffrae;
A phleidiau'n lluosogi,
  Fel bresych yn y cae;
Awgrymir gan daranau
  Cynhyrfwyr mawr y byd,
Mae bresych i grochanau
  Sydd yn eu gwrando i gyd.

Cyhoeddir, gan elynion
  I gyfoeth, a'i fawrhad,
Mai'r ffordd i godi dynion,
  Yw gwastadhau y wlad;
Darostwng aerod gwynfyd,
  A'u troi'n gymynwyr coed,
I borthi'r diog ynfyd
  Na flysiodd waith erioed.

Pa reswm fod digonedd
  Ar fwrdd y diwyd wr,
A charwr afradlonedd
  O hyd o dan y dwr?

Rhy ddiog yw i nofio,
  Ond ni raid colli hwn;
Neu fe ga'r Senedd gofio
  Am "frad y powdwr gwn."

Mae'r egwyddorion salaf
  Yn hawlio'r uchaf sedd;
A llafur a chyfalaf
  Yn ymladd gledd yn nghledd;
Mae'r meistr yn taranu
  Ei hawl i gyfoeth mwy;
A'r gweithiwr yn amcanu
  Rhoi'r meistr ar y plwy.

Pe croesid y cyhydedd
  Gan seraph tanllyd clir,
I gynyg am anrhydedd
  Ar un o Fyrddau'r Sir;
Fe godai rhyw drychfilyn,
  O ffos rhyw newydd blaid;
A chai y byd i'w ddilyn,
  A'r seraph yn y llaid.

Mae sôn am wartheg Pharo,
  Yn ngwersi'r Ysgol Sul;
Nid anhawdd fyddai taro
  Ar ddynion llawn mor gul;
Lledrithion di ewynau,
  Cwerylus, anghytun,
Pe'u llyncid yn filynau,
  Ni thorent angen un.

Cenfigen ar domenau,
  Ymsytha yn ei chefn;
Fe'i magwyd mewn cynhenau,
  I ddwyn y byd i drefn;
Ei ffordd i ddangos corach,
  Yw tori pen y cawr;
Ac ni fu ffordd ragorach
  I wneud y bach yn fawr.

Mae'r dyn yn mynd i fyny,
  A'i enw'n llond y byd;
Nid yw ei glod er hyny
  Yn ddim ond twyll i gyd;
Fe ddylai gael ei dagu,
  A'i daflu gyda'r lli,
Am nad yw wedi ei fagu
  Ar lin ein Henwad ni.

Cynyddu mae pwyllgorau,
  I gadw aflwydd draw;
Ond rhaid i'r dynion gorau
  Fod allan yn y gwlaw;
Os gallant dywys deillion,
  A'u cadw'n ddiystaen,
Cymhwysach yw cyfeillion
  I gario'r byd yn mlaen.

Nid culni annuwioldeb
  Yw cyfeillgarwch drud;
Ond cais am anfarwoldeb
  I feirwon bythol fud;
I weini ar ddynoliaeth
  Yr adgyfodir hwy;
Ac yfant ysbrydoliaeth,
  I beidio marw mwy.

Pan eir i wneud blaenoriaid
  O fewn cynteddau'r saint,
Mae pawb yn troi'n ddoctoriaid,
  Mewn awydd am y fraint;
Ond creulon siomedigaeth
  Fydd tynged llawer un;
A'r unig waredigaeth
  Fydd capel iddo'i hun.

Fe welwyd llanc hunanol,
  Yn gwibio yma thraw;
Ac eisieu cylchu'i ganol,
  A'i goryn gyda llaw;

Cyhoeddwyd yn ddihoced
  Ei glod yn benaf un;
Ond daliwyd yn ei boced
  Ohebydd iddo'i hun.

Ni ddylid beio'r truan
  Sy'n gorfod byw a bod
Lle na thywynodd huan,
  I dyfu harddach clod;
Ond dyna sy'n ddigrifol,
  Fod coegyn haner call,
Yn credu mor ddifrifol
  Fod pawb o'i gylch yn ddall.

Mae cywion o genhadau,
  Pan newydd groesi'r nyth,
Yn canu am "alwadau,"
  A'u penau'n ddigon syth;
Nid ofnant un creadur,
  Boed hwnw'n wyn neu'n ddu,
Os d'wed y newyddiadur
  Eu bod yn magu plu.

Cardotir "galwad" yma,
  Cardotir "galwad" draw;
A goreu po gyflyma'
  Y deuant oll i law;
Mae'r dyn yn ansymudol,
  Er taered yw ei lef;
Ond mae cyfaredd hudol,
  Mewn twyllo saint y nef.

Rhaid fod ar fin yr hogyn
  Hyawdledd fel y môr;
Rhaid fod o dan ei glogyn
  Athrylith yn ystor;
Mae'r papyr yn ei foli,
  Drwy bluen ceiliog brith;
Ond peidied neb ymholi
  O ble y daeth y llith.

Nid rhodres a mursendod
  Yw cynyrch gras y ne' ;
Nid twyll a'i annibendod
  A ddaw a'r byd i'w le ;
Delweddau calon bradwr,
  Yw'r addurniadau hyn ;
Anheilwng o genhadwr
  Yn gwisgo cadach gwyn.

Ar gyrau'r anweledig,
  A elli di, fy ffrynd,
Broffwydo'n ddychrynedig
  I ble mae'r byd yn mynd ?
Mae'n bryd i'r werin wybod,
  Yn nghanol tân a mwg,
Fod ystyr i gydwybod,
  A barn yn dilyn drwg.

# LIW NOS AR Y TRAETH.

MAE'R wylan yn cysgu'n y graig,
  A'i haden fel ewyn y dón;
Ac ysbryd aflonydd yr aig
  Yn süo y sêr ar ei fron;
O'r neilldu o ddwndwr y dref,
  A miri daearol ei chwaeth,
Mor agos yw daear a nef
    Liw nos ar y traeth.

Mewn myfyr ar erddi fy Ior,
  Eisteddaf yn fud ar y maen,
Wrth goeden o fforest y môr
  Ddiwreiddiwyd y noson o'r blaen;
Bu cân yn ei brigau cyn hyn,
  Ond tewi'n y ddrycin a wnaeth;
A sôn am y difrod a fyn
    Liw nos ar y traeth.

Mae'r clogwyn a'i drem ar yr aig,
  A'i galon yn friw ac yn oer;
A dyblir pruddglwyfni y graig,
  Gan welw bruddglwyfni y lloer;
Mi wn fod breuddwydion y môr
  Mewn llawer hen ogof yn gaeth;
Maent allan yn ddu ar y ddor
    Liw nos ar y traeth.

Y dwyfol a leinw fy mron,
  A'r dynol a gilia yn mhell,
Wrth wrando sisialon y don
  Yn son am ynysoedd sydd well;
Yn nystaw amneidion y ser,
  Perlewyg dros f'enaid a ddaeth;
A gwelais fawrhydi fy Ner
    Liw nos ar y traeth.

# YR AMSER GYNT.

CRWYDRO, crwydro fyn y galon,
Dros y gorwel du;
Melus, melus yw breuddwydion
Am yr amser fu;
Er im' gael fy ngyru'n alltud
O fy nghynar fro,
Gwn am haul nad yw yn machlud
Dros fynyddau'r co'.

Pwy wahardda imi gilio
O drafferthion byd,
I fy ngwanwyn, ac i wrando
Adsain cân fy nghryd?
Cofio miri hen gyfoedion
Pennoeth yn y gwynt,
Gyfyd hiraeth ar fy nghalon,
Am yr amser gynt.

Nid oedd gwmwl yn wybreni
Fy moreuddydd clyd;
Yr oedd cariad fy rhieni
Yn goleuo'r byd;
Cynhes wanwyn di bryderon,
O bleserus hynt;
Nid oedd farug ar gysuron,
Yn yr amser gynt.

Bywyd difyr, tymor chwarau,
Llawn o nwyf a hoen;
Llamwn inau dros y cloddiau,
Fel yr hŷdd a'r oen;
Hawddgar wynfyd yn ei flagur,
Heb eginyn llwm;
A direidi lond fy natur,
Gyda phlant y cwm.

Dringo'r allt, a than y deri,
 Casglu blodau'r gog;
Ac mi gollais yn y d'rysni
 Lawer darn o 'nghlog;
Dilyn adar, cyfrif nythod,
 Nes i'r hwyr neshau;
A fy newyn yn gwneud difrod
 Ar y llwyni cnau.

Diniweidrwydd yn ei flodau,
 O! na ddeuai'n ol:
Hir ac araf oedd y dyddiau
 I fy ysbryd ffol;
Bore godai'r haul yn loew,
 Oedai fynd i lawr;
Meithach blwyddyn y pryd hwnw,
 Nag yw deg yn awr.

Brysio yn aflonydd fynwn
 I ganolddydd oes;
Am yr haf yr ymofynwn,
 Heb un llwybr croes;
Ni feddyliais, nes ei ddyfod,
 Am ei ddrain a'i chwŷn;
Ac yn araf, heb im' wybod,
 Aeth fy mhen yn wŷn.

Ar dymhorau anweledig,
 Dudew niwl ymdaen;
A mŷn calon uchelfrydig
 Fod y goreu 'mlaen;
Ond ar lawer bryn ystormus,
 Ar flinderus hynt,
Caru sôn mae'r galon glwyfus
 Am yr amser gynt.

# DUW GYDA NI.

CYNHYRFUS yw ysbryd yr oes,
  Cymylog yw nef ei chenhadau;
Ai gwir yw efengyl y groes
  A ddysgwyd ar aelwyd fy nhadau?
Mi wn fod fy Mhrynwr yn ddyn,
  A'm calon sydd ato'n cynhesu;
Ond gwn fod fy enaid yn nglyn
  A rhywbeth sydd fwy yn yr Iesu.

Cyhoeddir o bwlpud y saint
  Mai chwedl oedd pregeth Esaiah;
A thybia offeiriaid mai braint
  Yw dal i groeshoelio'r Messiah;
Er tynu ei goron i'r llaid,
  A chablu ei ddwyfol ogonedd,
Mi welaf angylion o'i blaid,
  A deigryn yn llygad gwirionedd.

Fy ngwlad! a ddiffygia dy ffydd
  I'th ollwng yn ol i'r dyfnderau?
Ai nid yw yn ormod o'r dydd
  I wadu y dwyfol bwerau?
Na oddef i ysbryd y byd
  Ddiffrwytho dy gred yn yr Iesu;
Boed arno dy serch a dy fryd,
  A'th freichiau ar led i'w fynwesu.

Drwy gredu'r gwirionedd yn llawn,
  I'r nef y cyrhaeddodd fy nhadau;
A dwyfol ddigonedd yr Iawn
  Oedd testyn eu melus ganiadau;
Tra fyddo y groes mewn coffhad,
  A galwad o'r nef i'w chyffesu,
Byth, byth na ddyweded fy ngwlad,
  Fod gormod o Dduw yn yr Iesu.

# MAE'R GWYNT YN OER.

MAE'R deifwynt yn oer ac yn flin,
A'r gauaf yn hir yn y cwm;
Mae mwynder yn marw'n yr hin
A'r derw'n och'neidio yn drwm;
Ewinrew dry fywyd i'w loches yn ol,
Ac yn ei ddifrodau,
Mae ysbryd y blodau,
Yn holi am haul o dan farug y ddol.

Y dail yn eu beddau a roed,
A'r gwynt o'u cynhebrwng a ddaw
I frigau amddifad y coed,
A'r allwedd yn oer yn ei law;
Ysbeilia delynau, ac ymaith y ffy,
A llawer aderyn
Ar ol ei offeryn,
A glywaf yn wylo ar drothwy fy nhy.

Clöedig yw mynydd a rhos,
Gan lymed ac oered yr hin;
A thyfu mae oriau y nos,
Wrth deimlo yr ias ar eu min;
Yr haul yn y bore a gyfyd yn glaf,
A gwel yr afonydd
Yn aros yn llonydd,
Gan ddysgwyl am gynhes belydryn o haf.

Mor felus yw aelwyd a thân,
Tra'r llwydrew yn wyn ar y to;
A'r deifwynt yn rhuo ei gân
Ar ddiogel hespenau y clo;
Ond allan mae rhywun heb gysgod na thre',
Mewn oerfel yn rhynu,
A'i galon yn crynu,
Mi gofiaf am dano, fy mrawd yw efe.

# BUGEILIO'N MYSG Y LILI.

Bugeilio'n mysg y lili
  Wnai llencyn deunaw oed;
Ac o'i ddiadell ar y fron
  Ni chollodd oen erioed;
Ar ddifyr gân ei bibell
  Gwrandawai'r creigiau draw;
A'i gi yn cysgu ar ddihun,
  Ar lecyn glas gerllaw;
Ond canai rhywun arall,
  A'r llais melusa 'rioed;
A dryswyd yn lilïau serch
  Y bugail deunaw oed.

Bugeilio'n mysg y lili
  Wnai eto gyda'i fun;
A lluest yn ei chalon wnaeth
  I serch fwynhau ei hun;
Pan gefnai ar gorlanau,
  A chnwd lilïau'r fron,
Ymgollai mewn lilïau gwell
  Yn ymyl corlan hon;
Ar heulog diroedd cariad,
  Bugeilio bu fel hyn,
Nes gwelwyd yn ei gaban du
  Fugeiles yn ei gwyn.

Bugeilio'n mysg y lili
  A gafodd eto'n hir;
A gwreiddiau cariad yn dyfnhau,
  A'i frig mewn heulwen glir;
Ond gwelodd lwydrew'n disgyn
  Ar lawer lili fwyn;
A thorodd llawer creulon flaidd
  I'r gorlan at yr wyn:
Fe welodd flodeu bywyd
  Yn gwywo hyd eu gwraidd:
Mae'r maes yn awr heb lili wen,
  A'r bugail heb ei braidd.

# FY HOFF ADERYN.

ADERYN y mynydd
  A'r cwmwl wyt ti;
A thlysaf delynydd
  Y moelydd i mi:
Cyn deffro awenau
  Llwyfanau y wig,
Mor fwyn yw'th garolau,
  Breswylydd y grug.

Gadewi y mynydd
  Yn felus dy lith;
A'th ysgeifn adenydd
  Yn wlyb gan y gwlith;
Cei fendith i'th galon,
  Am garol mor gu;
A chyntaf belydron
  Yr haul ar dy blu.

Mi'th welais yn esgyn
  Yn nglesni y wawr;
Mi'th welais yn disgyn
  Fel mellten i lawr;
Nid rhyfedd, beth anwyl,
  Gyflymed dy frys;
A theulu'n dy ddysgwyl
  Yn mlodau y llus.

Tra natur yn ddystaw,
  A chwsg ar y dref,
'Rwyt ti a dy alaw
  Ar drothwy y nef;
Mewn gwynion wybreni,
  A'th esgyll ar led,
Offrymi dy weddi
  Cyn dysgwyl dy ged.

Uwch, uwch yr esgyni,
O'r golwg yn mhell;
Fel ysbryd yn holi
Am erddi sydd well;
Anghofi derfysgoedd,
Mewn wybren mor lân;
Agosaf i'r nefoedd,
Melusaf y gân.

Ble treuliaist di'r gaua,
Fy ngherddor di lyth,
Pan fynai yr eira
Roi clo ar dy nyth?
Mewn newyn a nychdod,
Bu rhai o dy gôr
Yn dysgwyl am gardod,
Ar riniog fy nôr.

Bu'r eira yn oedi
Yn hir ar y bryn;
A glasodd yr oerni
Wefusau y llyn;
Pa beth fu dy helynt,
Hyd fynydd a bro,
Pan gadwai y rhewynt
Dy gwpbwrdd dan glo?

Tyrd heibio fy mwthyn,
Aderyn y wawr;
Paid ymladd â newyn,
A'th delyn i lawr;
Cei dori dy angen,
Yn llwm ac yn glaf;
A mynydd ac wybren
I ganu'n yr haf.

# FENDIGAID YSGUBORIAU.

FENDIGAID ysguboriau,
Hen demlau llawer plwy;
Sancteiddiaf esgynloriau
Proffwydi fuont hwy;
Neuaddau cysegredig,
Yn encilfeydd y fro;
Lle trodd cydwybod dan ei chlwy
Am lety lawer tro.

Ardderchog ysguboriau,
Hen dai y gwenith gwyn;
Felused fu yr oriau
O fewn y muriau hyn;
Er trymed oedd y fendith
Ar addfed gnwd yr yd,
Fe gafwyd yno fendith fwy
Ar wenith arall fyd.

Yn fore codai'r gweision,
Yn gryfion at y grawn;
A chynhauafau breision
A ddyrnent hyd brydnawn;
Ar ol y dydd a'i lafur,
Pan dawai ffust y gwas,
Gwahoddid ysbryd Duw i fewn
I drin ysgubau gras.

Anghelfydd adeiladau
Capeli'r werin gynt;
Lle profwyd ymweliadau,
A nerth y dwyfol wynt;
Ar gyfandiroedd bywyd,
O swn tymhestloedd brad,
Bydd cofio cynhes yn y nef
Am ysguboriau'r wlad.

# HEN FEMRWN FY NHAD.

HEN femrwn y tlawd a'r pendefig,
  Oedd memrwn hoffusaf fy nhad;
O'i fewn cafodd drysor cuddiedig
  I brynu tragwyddol ystad;
    Fe ddysgodd i minau
    Ddibrisio teganau,
I geisio sylweddau o fythol barhad,
Adnoddau digymhar hen femrwn fy nhad.

Mae adgof yn dal i dywynu
  Yn glir ar fy enaid o hyd;
Pan alwai fy nhad ar y teulu,
  O gwmpas yr allor yn nghyd;
    A chredai fy nghalon
    Ar aelwyd ddi gwynion,
Na frysiai angylion ehedeg i ffwrdd,
Tra fyddai hen femrwn fy nhad ar y bwrdd.

Am gyfoeth ei lawnion ddalenau,
  Ni roddai'r cyfanfyd yn grwn;
Mae olion ei fysedd a'i ddagrau,
  Ar lawer hen adnod yn hwn;
    Mor hawdd ydyw canfod,
    Yn olion y gawod
O gwmwl ei gariad yn disgyn a gaed,
Fod grym yr ystorm ar adnodau y gwaed.

Mae rhai o'i ddalenau yn eisieu,
  Er hyny ni chollwyd yr un;
Argraffwyd eu cynwys yn foreu,
  Ar galon y plant yn gytun;
    O ganol amheuon
    Y byd a'i wasgfeuon,
Mi groesaf y glyn i fy newydd ystad,
Yn ngoleu addewid hen femrwn fy nhad.

## Y PERERIN.

PERERIN yn dyheu am fywyd gwell
  Yw'r meudwy acw mewn estronol dir,
Mae wedi croesi dros y bryniau pell,
  A'i fryd ar gartref newydd cyn bo hir;
Bu aflwydd byd yn gwasgu arno'n drwm;
  A thry ei wyneb tua'r gorwel draw;
O dan ei faich, a'i gefn yn ddigon llwm,
  Mae'n grwydryn unig yn y gwynt a'r gwlaw,
    Yn ymladd â pheryglon,
    A'i fywyd yn ei law.

Pererin ydwyf inau yn y byd,
  Yn chwilio'n ddyfal am eangach gwlad;
Ar gerig beddau'n pwyso lawer pryd,
  Ac yn y niwl yn teimlo llaw fy Nhad;
Ai dyma derfyn bywyd ar y daith?
  Ai nid oes dim tu draw i'r meini hyn?
Mi welaf olau ar y cwmwl llaith,
  A chlywaf swn telynau dros y glyn,
    Yn canu'r gân a gollwyd,
    Mewn anfarwoldeb gwyn.

Mae awydd ynwyf am i'r daith barhau,
  Am ddal i ddringo byth heb droi yn ol;
Ac nid yw cam fy enaid yn gwanhau
  Yn wyneb stormydd o amheuon ffol;
Ar bell fynyddoedd angeu, mae fy nghri
  O hyd am esgyn dros y bànau gwyw;
Mae'r greadigaeth yn rhy fach i mi,
  Er nad wyf eto ond yn dechreu byw;
    Mae'n rhaid i mi gael dringo
    Mynyddoedd bywyd Duw.

# HWIAN MAM.

Cwsg, anwylyd, felus hun,
Hwi, lwli hwi;
Cwsg a chusan ar dy fin,
Lwli hwi;
Gelli wenu, gelli beidio,
Bydd dy fam o hyd yn gwylio,
Nid yw cariad byth yn blino,
Hwi, lwli hwi.

Cwsg yn dawel, gariad glân,
Hwi, lwli hwi;
Wyddost ti am arall gân?
Lwli hwi;
Tybed elli di freuddwydio?
Ble mae'th feddwl bach yn crwydro?
Os i'r nef, paid aros yno,
Hwi, lwli hwi.

Cwsg nes delo'th dad yn ol,
Hwi, lwli hwi;
Gwel dy lun yn mlodau'r ddol,
Lwli hwi;
Mae ei galon wrth dy wely,
Llawer cusan iti ddyry,
Wyddost ti ddim byd am hyny,
Hwi, lwli hwi.

Cwsg, fy ngwas, o dwrw'r byd,
Hwi, lwli hwi;
Pleser mam yw siglo'th gryd,
Lwli hwi;
Mae'n rhy gynar iti wylo,
Ti gei ddysgu hyny eto,
Cwsg yn ddifraw, doed a ddelo,
Hwi, lwli hwi.

# ORIG AR Y LLYN.

Y LLEUAD fedi'n gyflawn oed,
A godai dros y bryn ;
A'i siriol wên, deleidia 'rioed,
Yn disgyn drwy ganghenau'r coed,
Ar wyneb glas y llyn ;
Ar hyd y glanau tawel, clyd,
Yn encilfeydd y wlad,
Fe welwyd dau yn rhodio 'nghyd,
Yn wyneb hwyr, yn wyn eu byd,
Yn chwilio am y bad.

Felused oedd yr orig fwyn,
Ar wyneb llyfn y don ;
A rhagolygon oes ddi-gwyn,
Fel hwyrddydd haf yn llawn o swyn
Mewn dwy gariadus fron ;
Ymlonai'r sêr mewn wybren glir,
Heb arwydd cwmwl claf ;
A blodau serch yn wlithog îr,
Fel peraroglus flodeu'r tir,
Yn mroydd hud yr haf.

Bu'r ddau yn rhwyfo wedi hyn,
Ar donog for y byd ;
Gan fynych gofio'r gloew lyn,
Pan fyddai'r storm yn ewyn gwyn,
Fel am eu suddo 'nghyd ;
Daw'r lleuad fedi'n llawn o hedd,
Fel cynt, dros fryniau'r wlad ;
A thrwy yr Yw ar geulan bedd,
Mae'n gweled gweddw lwyd ei gwedd
Yn unig yn y bad.

# MURMUR Y DON.

Fwyned yw murmur y wendon dlos,
Pan gysga'r byd yn nystawrwydd nos;
Yn swn ei charol, ni flina'r sêr
Ogwyddo clust at ei gwefus bêr.

Dan lewyrch gwelw y newydd loer
Safaf yn fud ar y clogwyn oer;
Llesgha fy enaid, a thyr i lawr
Yn swn meddyliau y dyfnder mawr.

O! mor brudd felus yw su y don,
Cymysg deimladau y lleddf a'r llon;
Hen greigiau'r glanau, a wyddoch chwi
Beth yw cyfrinach ei chalon hi?

Bu'r môr forwynion ar hyd ei brig
Yn canu cerddi'r dyfnderau dig;
A threiddiol adsain eu cerddi hwy
Glywir yn murmur y wendon mwy.

Gwelodd dymhestloedd yn creulon drin
Hen gewri'r môr ar y dyfnder blin;
A hiraeth glyw ar y geulan hon
Gryndod euogrwydd yn llais y don.

Gwrendy'r amddifad ei süon prudd,
Hawdd y deongla'i meddyliau cudd;
O fynwent oer, yn mhellderau'r lli,
Dychwelyd o angladd ei dad mae hi.

Dwed wrth y cregin ar fin y traeth
Hanes y difrod ar fywyd wnaeth;
Ymleddfa'i chân ar ei gwefus fwyn,
A thŷr ei chalon wrth ddweyd ei chwyn.

# DYCHWELWCH Y DELYN.

DYCHWELWCH hen delyn fy nhadau yn ol,
I ddysgu caniadau angylion ;
Paham y bu gwladgar awenau mor ffol
A'i gollwng i grwydro'n afradlon ?
Os collodd ei pharch, ni ddiflanodd ei swyn,
Na thrydan cyfriniol ei moliant ;
Mae hawliau dyrchafol offeryn mor fwyn
Yn cyrhaedd i nef y gogoniant.

Dychwelwch y delyn i fri a mawrhad,
Gwaherddwch i neb ei bychanu ;
Dychwelwch hi'n ol i aelwydydd y wlad,
A dysgwch y plant i'w chanu.

Dychwelwch y delyn fu'n hir yn y llaid,
A chwynfan yn swn ei chynghanedd ;
Fe'i tynwyd i lawr i gywilydd yn blaid,
A gwerthwyd ei thant i oferedd ;
Er gorfod difyru gwehilion y tir,
Am gardod yn ngwlad y crochanau,
Mae hiraeth am buredd a gollwyd yn hir
Ar delyn soniarus fy nhadau.

Dychwelwch y delyn i lwyfan yr Wyl,
Mae cenedl yn dysgwyl am dani ;
Mae swn ei llinynau yn codi yr hwyl,
Ac ysbryd y dorf yn sirioli ;
Oferedd i gyd yw bloeddiadau o hedd,
A gweinio y cledd lle bo gelyn ;
Mae calon y wlad, i roi blas ar y wledd,
Yn galw am gainc ar y delyn.

Dychwelwch y delyn i fri a mawrhad,
Gwaherddwch i neb ei bychanu ;
Dychwelwch hi'n ol i aelwydydd y wlad,
A dysgwch y plant i'w chanu.

# PEIDIWCH CAU'R GOLEUNI ALLAN.

Peidiwch cau'r goleuni allan,
Bendith byd yw hwn;
Mae'n grymuso bywyd egwan
Ac yn ysgafnhau ei bwn;
Gorfoledda'r greadigaeth
Yn ei wenau glan;
Dyry newydd ysbrydoliaeth,
I delynau mawl a chan.

Cyfyd haul i sychu'r dagrau
Wylwyd yn y nos;
Ac i fwyn gusanu gruddiau
Trallodedig natur dlos;
Meddyginiaeth esgyll huan
Lona'r galon flin;
Peidiwch cau'r goleuni allan,
Sydd a chariad ar ei fin.

Beth yw'r gwrid sydd ar y rhosyn,
Ar y deiliog lwyn?
Ysbryd haul sydd arno'n disgyn,
Yn ei wres, ac yn ei swyn;
Ymsiriola mewn prydferthwch
Yn yr awel rydd;
Ac offryma'i ddiolchgarwch,
Ar belydryn gwyn o ddydd.

Peidiwch cau'r goleuni allan,
Goleu gras y nef;
Y mae gobaith byd yn gyfan
Yn ei glir dywynion ef;
Daw a gwynfyd i drueiniaid
Wedi nos o fraw;
Peidiwch cau ffenestri enaid,
Ar oleuni'r byd a ddaw.

# HEN YD Y WLAD.

Ar nos y gorthrymderau
  Daeth bore o ryddhad,
A ninau o'n caethiwed blin,
  Wynebwn tua'n gwlad;
Mae Duw yn ymladd trosom,
  Ac angeu ar ei gledd;
A rhaid i'w holl elynion ffoi
  O'i wydd i waelod bedd.

  Ni awn ymlaen yn eofn,
    Heb ofni gwg na brad;
  Ac ni gawn brofi cyn bo hir,
    Hen yd y wlad.

Dilynwn yn yr anial,
  Ar ol y golofn dân;
A chanwn yn ngofidiau'r byd
  Anthemau Salem lân;
Mewn angen ac mewn newyn,
  Yn nhir y cystudd mawr,
Ar wyneb y diffaethwch du,
  Daw'r manna gwyn i lawr.

Os yw'r ffynonau'n chwerw
  O fewn yr estron dir,
Mae digon eto yn y Graig
  O ddyfroedd bythol glir;
Y ffrydiau gawn i'n dilyn
  Yn ol addewid Duw;
A llawenhawn yn ngwres y dydd,
  Ar lan y dyfroedd byw.

  Ni awn yn mlaen yn eofn,
    Heb ofni gwg na brad;
  Ac ni gawn brofi cyn bo hir,
    Hen yd y wlad.

# Y PAGAN GWYN.

O SWN efengyl cariad,
  I benrhyn Lybia draw,
Fe groesodd y gormeswr gwyn
  A'i fflangell yn ei law.

Ymffrostiai yn ei linach,
  Fel gwr o uchel waed:
A chredai mai dyledswydd byd
  Oedd llyfu llwch ei draed.

Mae profiad wedi dysgu
  Y greulon wers cyn hyn,
Fod calon sydd mor ddu a'r nos
  Dan lawer wyneb gwyn.

Fe gredai'r du fod gwynder
  Yn rhagarwyddo'r oen;
Ond gwelodd, er ei wae cyn hir,
  Fod bwystfil dan y croen.

Ysgydwa'r gwr ei fflangell,
  A chabledd ar ei fin;
A sarna fywyd dan ei draed,
  Fel gwallgof wedi gwin.

Mae dirmyg lon'd ei galon,
  Ac amheu'n ffol a fyn,
Fod anwybodus bagan du
  Yn frawd i'r pagan gwyn.

Fe'i gweithia i farwolaeth,
  Yn noethlwm a di hedd;
A chwardd yn ngoleu arall fyd
  Wrth gau ei ddystaw fedd.

O! lofrudd galon haiarn,
  Ffroenuchel, balch ei lun;
Mae'n chwith i arall ddwyn y gosp
  A haeddodd ef ei hun.

Ysbeilia gyfandiroedd,
  A dichell yn ei drem;
A iawnder ar y bryniau'n fud,
  Yn swn ei fflangell lem.

Ysbrydion y cwpanau
  Sydd yn ei enaid mall;
A chroesaw rydd i lengoedd mwy
  O ogofeydd y fall.

Wareiddiad, O! wareiddiad,
  Ai dyma ffrwyth dy wlad?
Mae gormes hwn ar dywyll fyd
  Y pagan yn sarhad.

A ydyw trais yn rhinwedd
  Yn mron y gwyn ei liw?
A all gwareiddiad lawenhau
  Yn ingoedd calon friw?

Os isel yw y pagan
  O fewn ei gaban cu,
Ai trosedd yn y truan tlawd
  Oedd cael ei eni'n ddu?

Yr un o hyd yw hawliau
  Dynoliaeth yn mhob gwlad;
Yr un yw addewidion nef,
  I ddyn, yn mhob ystad.

Os rhaid i'r truan ddioddef,
  Yn ddystaw, ac yn syn,
Fe ddaw y felldith eto'n ol
  Ar ben y pagan gwyn.

# RHOD NYDDU FY NAIN.

O GANOL y byd a'i helyntion,
I arogl y mynydd a'r mawn,
Yn ol y dianga fy nghalon
I aelwyd y tyddyn tô cawn;
Hen gartre' fy nhadau,
A chredu wnawn inau
Yn nghanol y gwledig dawelwch di sain,
Mai bywyd y byd oedd rhôd nyddu fy nain.

'Rwy'n cofio fy nhaid yn bugeilio,
Fel brenin yn nghanol ei braidd;
A difyr, liw nos, oedd ei wrando
Yn son am y llwynog a'r blaidd;
Adroddai yn llawen,
A mîn ar ei awen,
Hen gampau bugeiliaid yn gelfydd a chain,
A minau'n chwyrnellu rhôd nyddu fy nain.

Diwastraff oedd bywyd y tyddyn,
A deupen y llinyn yn cwrdd;
Ni welwyd arwyddion o newyn,
Na phrinder erioed ar y bwrdd;
Cynefin i'r llanciau
Oedd dringo'r llechweddau,
I gasglu y gwlân hyd fieri a drain,
I borthi dan ganu rhôd nyddu fy nain.

Mae'r byd, yn ei bryder a'i ofid,
Yn symud yn gyflym yn mlaen;
A'i ysbryd trahaus yn cyfnewid
Arferion y mynydd a'r waen;
Yn nadwrdd olwynion
Peirianau newyddion,
Er cylchu y byd gan edafedd y rhai'n,
Mi gofiaf yn hir am rôd nyddu fy nain.

# PLANT Y FLWYDDYN.

WELE Ionawr, aer y flwyddyn,
  Ar y maes, a'i gefn yn llwm;
A chalenig yn ei ddilyn
  Drwy yr eira yn y cwm;
Er yn grwydryn oer, anniddan,
  Cenir clychau yn ei ŵydd;
Yn eu swn ar fore'r Calan
  Y caf finau ben fy mlwydd.

Chwefror sarug, byr ei ddyddiau,
  Llym ei awel, tlawd ei fyd;
Ei ddigrifol draddodiadau
  Sydd ar gof y wlad o hyd;
Llawer gwyryf anghofedig
  Gan y byd, a neb o'i phlaid,
Wêl obeithion gwynfydedig
  Ar fynyddoedd blwyddyn naid.

Mawrth ymwisga mewn tymhestloedd,
  A chorwyntoedd ar ei fin;
Dryllia taran ei fyddinoedd
  Gaerau rhew y gauaf blin;
Deffry bywyd fel o farw,
  Cura'r gwanwyn wrth ei ddôr,
Ac ar frig y cenllif garw
  Ffy y gauaf tua'r môr.

Llama Ebrill dros y cloddiau,
  A'i friallu yn ei law;
Llawn o fêl yw'r llwyn afalau
  Wedi profi'r cynar wlaw;
Brysia natur o'i chaethiwed,
  I fwynhau telynau'r gwydd;
A siriola'r byd wrth glywed
  Cân y gôg ar doriad dydd.

Etifeddiaeth o wyrddlesni
  Sydd i Fai, yn ddwyfol gain;
A daw heulwen i'w goroni
  Dan flodeuog lwyni drain;
Difrycheulyd yw ei ruddiau,
  Tirf yw tŵf ei egin grawn;
Ac mae'r myrr ar hyd ei lwybrau
  Yn arogli'n felus iawn.

Fwyn Fehefin, calon gynhes,
  Cenad hedd y llesg a'r claf;
Mewn rhosynau ar ei fynwes,
  Pwyso'i ben mae hirddydd haf;
Nef a daear sydd yn gwenu,
  Ac yn llawenychu'n nghyd;
Ac mae'n hawdd i awen ganu—
  "O! na byddai'n haf o hyd."

Daw Gorffenaf tua'r caeau,
  A'i bladuriau ar ei gefn;
A'r amaethwr gwyd yn forau,
  I gael cnŵd y maes i drefn;
Rhaid cribinio, a mydylu
  Cyfoeth daear wrth ei air;
Tra mae'r heulwen yn tywynu
  Mae crynhoi'r cynhauaf gwair.

Awst gyfoethog dry ei wyneb
  I rodfeydd ei erddi llon;
A'r perllanau mewn sirioldeb
  Gyd ymgrymant ger ei fron;
Yn y brigau oeda'r awel,
  Yn y tês arafa'r byd;
Tra mae bendith hinon dawel
  Yn melynu'r meusydd ŷd.

Medi dŷn i lawr ei gryman,
  Fu yn hongian wrth y tô;
Ac yn fore cyfyd allan,
  I gynhauaf ŷd y fro;

Cluda'n llawen ei ysgubau,
  Ac ni chwyna'u bod yn drwm;
A chyn hir fe glywir seiniau
  "*Harvest Home*" yn nghreigiau'r cwm.

Collodd Hydref llwyd ei goron,
  Dros ei sedd ymgasgla hudd;
Y mae hunllef ar ei galon,
  A phruddglwyfni ar ei rudd;
Edrych mae â threm o ddychryn,
  Ar weddillion haf yn syn;
A'i ochenaid drom yn disgyn
  Ar y nos yn farug gwyn.

Dringa Tachwedd y mynyddau,
  Gyda'i niwloedd ar ei gefn;
Ac i fynwent y rhosynau,
  Daw y gaua'n ol drachefn;
Yn nifrodau ei wylltineb,
  Mudion yw telynau'r coed;
Y mae angeu yn ei wyneb,
  Ac mae bywyd dan ei droed.

Rhagfyr, er yn oer grynedig,
  Croesaw cynhes iddo sydd;
A chawn wynfyd ei Nadolig
  Wedi croesi'r byraf ddydd;
Cofir am y felus anthem
  Ganodd engyl nefoedd fawr;
Ac yn ol i feusydd Bethlem
  Y cyfeiriwn gyda'r wawr.

# AFALAU SODOM.

FFUG afalau, gau i gyd,—yswigod,
Ac nid seigiau bywyd;
Afalau barn, heb fawl byd,—yn gwelw
Holi am farw ar lymaf weryd.

Penyd annwn pan dynom—y rhai hyn
Yn oer iâs ddaw drosom;
Cenhadau sâl, cnŵd o siom,—yn ddystryw
I flysiau ydyw afalau Sodom.

Ofer agor ar frigau—duon wnant,
Newyn yw eu gwobrau;
Cysgod sâl gwell afalau,—ar diroedd
Yr hen ddinasoedd, a'r nodd yn eisiau.

Daliant i ddweyd mai dylion—yw di-wlith
Hudoliaethau'r galon;
Afalau ar adfeilion—dedwyddyd,
Ac o gudd weryd gau egwyddorion.

Beth yw pechod? Hud-flodyn,—neu ofid
Ar lun afal melyn;
Rhyw chwith dŵf at archwaeth dyn,—yn boddhau
Ei ddymuniadau, i'w ddamnio wedyn.

Gwarth gwr yw rhagrith gwirion,—er i'w lwyn
Wyro i lawr yn blygion;
Nid afalau dwyfolion,—ond aflwydd
Ddaw o dir celwydd i dori calon.

Trwchus ar lwyni trachwant,—yw nwyddau
Annefnyddiol siomiant;
Surion afalau soriant—digalon,
I borthi loesion heb rith o lesiant.

# CENWCH GERDDI CYMRU.

CENWCH gerddi gwlad y bryniau,
Hen alawon Cymru Fu;
Cerddi ganwyd mewn gofidiau,
Dan gymylog wybren ddu;
Er i'r tadau huno'n dawel,
Heb goffhad yn "erw Duw,"
Mae eu cerddi yn yr awel,
A'r awenau eto'n fyw.

Cenwch hen alawon Cymru,
Nes gwefreiddio calon byd;
Dysgwch i'r cenhedloedd ganu—
"Môr o gân yw Cymru i gyd."

Cenwch gerddi gwlad y delyn,
Ceinciau pur yr oesau pell;
Dewch yn ol a'r hen offeryn,
I lwyfanau dyddiau gwell;
Proffwydoliaeth hen ganiadau
Sy'n goleuo Cymru Fydd;
A thra'r wawr ar ben y bryniau,
Rhoddwch dro ar "Doriad dydd."

Cenwch gerddi gwlad yr awen,
Hwiangerddi cariad mam;
Mae gwladgarwch yn ei elfen
Yn eu swn yn llosgi'n fflam;
Swyngyfaredd di lywodraeth
Gyffry waed y neb a'u clyw;
Ac ni dderfydd ysbrydoliaeth,
Tra bo cerddi Cymru'n fyw.

Cenwch hen alawon Cymru,
Nes gwefreiddio calon byd;
Dysgwch i'r cenhedloedd ganu—
"Môr o gân yw Cymru i gyd."

# RHAGRITH Y MYNYDD.

Ti, fynydd tanllyd, yn dy frad a'th wg,
A thawch dy anadl yn golofnau mwg,
Paham wyt heddyw ar dy newydd wedd,
Ac eira'n wyn ar olion barn dy gledd?
Mae'r gaua'n cysgu ar dy fron yn dawel,
Ac nid oes swn ochenaid yn yr awel;
A thithau'n wyn yn oerni yr wybrenydd,
Fel euog am ei gamwedd blin,
Yn syn fyfyrio'n llonydd;
Wyt am i'r byd anghofio'r dyddiau fu,
A thrwch o ragrith ar dy wyneb du.

Ond llofrudd wyt; er fod yr eira glân
Yn cuddio'th foelni, mae dy galon dân
Yn magu barnau duon, sydd a'u bryd
Ar dori beddau digon mawr,
I gladdu haner byd;
Son am ddifrodau mae dy fin aflonydd,
A llif o dân difäol yw'th afonydd;
A daw'r ddaeargryn greulon drwy dy ddôr,
I ysgwyd bryniau i ddyfnderau'r môr;
Mae llawer pentre wrth dy droed yn lludw,
A rhoddaist arnynt gareg fedd dienw.
Ai cywilyddio'r wyt am fod dy greigiau
Yn ogofeydd i fudion ddrychiolaethau
Y rhai a leddaist ti? Nid ydyw bywyd
Yn arddel dy lechweddau, ac mae gwynfyd
O'th wydd yn ffoi am byth yn ddychrynedig,
A'i galon dyner yn ei law'n grynedig.

Diosg dy ragrith, ddi-gydwybod lofrudd,
Nid lliw dy galon yw dy ganaid orchudd;
Anweddus ar dy gefn yw hyd yn hyn,
Pan oera gwres dy galon ddu,
Cei gadw'th eira gwyn.

# MYNACHLOG YSTRAD FFLUR.

Yn araf i gysgodau
  Mynachlog Ystrad Fflur,
Dilynaf sŵn gweddïau'r saint,
  I wrando llais o'r mur;
Fel meudwy yn breuddwydio,
  Eisteddaf ar y maen;
A chyfyd drychiolaethau'n fyw
  O'u beddau o fy mlaen;
Wrth draed y bryniau uchel,
  O fewn y murddyn du,
Mae ysbryd oer yn teimlo gwres
  Allorau Cymru Fu.

Mae'r hen fynyddau'n sefyll
  Yn llonydd yn eu lle;
Proffwydi natur ar y graig,
  A'u penau yn y ne';
Hwy glywsant bererinion
  Yn canu ar y ddôl;
Ac aros yn y creigiau mud
  Mae salmau oesau'n ol;
Clustfeinia'r hen glogwyni,
  O'u grug-orielau cain,
Mewn hiraeth am alawon pêr,
  Y groes a'r goron ddrain;
Ond torwyd y telynau,
  Gan halogedig law;
A chiliodd y gogoniant gwyn,
  Yn ol i'r byd a ddaw.

Mor bruddaidd yw'r olygfa,
  Mor ddystaw, ac mor oer;
Fel cysgod hwyrddydd diwedd haf,
  Neu bruddglwyf newydd loer;
Ar hyd y muriau candryll,
  Mae'r eiddew'n tyfu'n lâs;
A'r ystlum dall yn nythu sydd
  Lle bu colomen grâs.

Lluddedig bererinion
  Fu yma'n dod yn nghyd,
Ac fel yn teimlo fod eu traed
  Ar benrhyn ola'r byd;
A llanw tragwyddoldeb
  O'u blaen, heb dòn yn ddig;
A grasau fel gwylanod nef,
  Yn nofio ar ei frig;
Hwy glywent swn ei donau
  Yn tori wrth y mur;
A chodent hwyliau tua'r nef,
  O hafan Ystrad Fflur.

Breuddwydiol ofergoelion,
  Dros lawer craig a ffos,
Ehedent i'r Fynachlog fawr
  I glwydo dros y nos;
A'r mynach di sandalau,
  Yn benfoel ac yn brudd,
A grwydrai yno ar eu hol,
  Am loches dawel gudd;
O fewn y dwfn unigedd,
  Cyn cloddio meini'r dref,
Meddyliai fod anghofio'r byd
  Yn agor ffordd y nef;
Wrth gefnu ar y werin,
  Ni wawriodd arno erioed
Fod ysbryd mawr aflonydd fyd,
  Yn dilyn ol ei droed;
Yn dilyn ac yn galw,
  Am falm i wella'i glwy;
I broffwyd alwyd gan y nef,
  Mae'r byd i gyd yn blwy.

Ymwelodd llawer angel
  A'r hen gynteddau hyn;
I wrando'r pererinion gynt
  Yn son am "Ben y Bryn;"
Henuriaid nef y nefoedd,
  O fewn y ganghell draw;

Yn gwasgar peraroglau gras,
  O erddi'r byd a ddaw;
Ond tarfwyd yr ymwelwyr,
  Gan swn cleddyfau dur;
A delw Siloh sydd yn awr,
  Ar garnedd Ystrad Fflur.

Daw'r afon o'r mynyddoedd,
  A'u traed yn dyner wlych;
A deil i ganu cerddi'r mor
  Ar felus arian glych;
Arafa wrth fynd heibio
  I'r hen Fynachlog lân;
A dim ond ambell flodyn gwyllt
  Yn gwrando ar ei chân;
Galara mewn unigedd,
  A hiraeth yn ei chri;
A'r mynach olaf wedi ffoi
  Am byth o'i glanau hi.

Mi garaf yr encilion,
  Er iddynt ymbellhau;
A charaf yr adfeilion hyn,
  Sydd fyth yn ymdeccäu;
Mae swyn yn hagrwch henaint,
  A'r dwyfol yn ei wawr;
Fel swyn y gorwel yn yr hwyr
  Pan elo'r haul i lawr;
Er dued yw'r cysgodau,
  Er sobred yw y wên,
Mae arliw diflanedig oes
  Ar wyneb llwyd yr hen;
Fe welir niwloedd hanes
  Yn gwisgo "newydd wedd";
A chenfydd serch ogoniant prudd,
  Ar lwydni careg fedd!

Fel cariad yn ei ofid,
  Mae'r bwa ar y mur;

Yn dal i fyny'r olaf ddarn
  O fawredd Ystrad Fflur ;
Yn unig ac amddifad,
  Mae'n aros hyd yn awr;
Ac yn ei wae'n anghofio'i hun
  Uwchben y difrod mawr;
Fe welodd lawer meudwy
  Yn croesi'r trothwy'n flin,
A rheol bywyd yn ei law,
  A gweddi ar ei fin;
Ond pendrist ydyw heddyw,
  Mewn myfyr am ei glod;
A dim ond ysbryd yr ystorm
  O dano'n mynd a dod.

Datodwyd sanctaidd feini
  Yr hen allorau drud;
Maent heddyw'n magu llwydni oer,
  O fewn y cloddiau mud;
Daearol ddiystyrwch,
  Nad yw ei faddeu'n hawdd,
Oedd dwyn y caboledig faen
  I lanw bwlch y clawdd;
Clustfeiniaf wrth y gareg
  A welodd ddyddiau gwell;
Ac yn ei chalon clywaf sŵn
  Paderau oesoedd pell.

Daw'r gwanwyn tyner heibio,
  A'i flodeu yn ei law;
A gedy gnŵd o feillion pêr
  Ar hyd y caeau draw;
O dan y blodeu'n cysgu,
  Mae llwch y saint mewn hedd;
A'r praidd yn pori mewn boddhad,
  Lle cauwyd llawer bedd;
Yr hâd a hauodd angau
  Ar hyd y maes gerllaw,
Yn gnŵd o anfarwoldeb gwyn
  A fedir ddydd a ddaw;

Mae'r grynau'n anweledig,
  Lle gwlawiodd dagrau pur;
Ac nid oes neb ddeongla faint
  Cynhauaf Ystrad Fflur.

Macpelah hen frenhinoedd,
  Fu'n ben mewn llawer câd;
A'u cleddau yn eu dwylaw'n fflam
  O gariad at eu gwlad;
Mae'r danadl yn y ganghell,
  Yn tyfu drostynt mwy;
A'r cerig beddau wedi llwyr
  Anghofio'u henwau hwy;
Ond ni ddiffoddwyd cariad,
  Yr hen wroniaid glân;
Mae hwnw yn nghalonau'r plant,
  Yn llosgi'n eirias dân;
A dyma'r unig golofn
  I lawer ysbryd mawr;
A'r golofn ardderchocaf yw,
  Na syrth yn hir i lawr;
Flinedig dadau! cysgwch,
  O dan y drylliog faen;
Mae had y cedyrn eto'n fyw,
  I gario'r byd yn mlaen;
Awch-lymir ysbrydoliaeth,
  Ar lafn eu harfau dur;
A chysegredig er eich mwyn,
  Fydd daear Ystrad Fflur.

Mae'r ywen yma'n aros,
  A'i brigau yn y gwynt;
A'i chalon wedi tori'n ddwy
  Wrth gofio'r dyddiau gynt;
Mae'n marw yn ei sefyll,
  Yn gyndyn ac yn ddig;
Ac angau fel drychiolaeth hyll,
  Yn eistedd ar ei brig;
Cynefin yw ysbrydion
  Ag holltau'r ywen ddu;

Hiraethant yn y ceubren llwm,
  Am rwysg y dyddiau fu;
Fe glywyd su eu hedyn
  Gan lawer gwladwr blin;
Nes teimlo'i galon fel yn ffoi
  Mewn dychryn dros ei fin;
Adgofir ei berthynas
  Gan lawer ysbryd pur
A beddau sydd yn anghof mwy,
  Yn mynwent Ystrad Fflur.

Ti lanerch gysegredig,
  "Bendigaid" wyt yn wir;
Ni fyn cyfaredd oesau pell
  Ymadael a dy dir;
Mae blodeu yn dy enw,
  Ac yn dy hanes fwy;
Ac ofer yw i amser hau
  Ei farug drostynt hwy;
Er teimlo chwyldroadau
  Gauafol yn eu llid,
Blaguro ar adgofion serch,
  Mae'r blodeu yn eu gwrid.

"Bendigaid" yw dy enw,
  Er tloted yw dy fyd;
Bendigaid er pan welwyd traed
  Offeiriaid yn y "rhyd;"
Bendigaid yw dy ffrydiau,
  O'r creigiau'n dod i lawr;
Bendigaid yw adfeilion trist
  Yr hen Fynachlog fawr.
Ni raid wrth estron enw
  Ar lecyn mor Gymreig;
Mursendod yn ei acen sydd,
  A'i watwar wna y creig;
Yn enw blodeu Cymru,
  Sydd ar y maes mor bur,
Na chaffed rhodres roi ei droed
  Ar enw Ystrad Fflur.

# Y PROFFWYD AURENAU.

## Dr. Saunders.

Ai breuddwyd yw
Y newydd oer sydd ar fy nghlyw,
Fod Saunders yn ei fedd yn wyw?
Rhy gynar i gysgodau'r hwyr,
A llwydrew'r bedd bruddhau mor llwyr
Blanigion gras ar fynydd Duw.

Siomedig fyd!
Mae cysgod angeu yn ei bryd,
A ffordd y bedd yn wlyb o hyd;
Ar brudd weddillion Saunders fawr,
Daeth cawod arall eto i lawr,
A chalon gwlad o dani'n fud.

O'r glyn islaw
Y tremiwn dros y bryniau draw,
Drwy niwl y bedd i'r byd a ddaw;
A chariad sydd yn chwilio'n syn,
Am ryd ysbrydion yn y glyn,
A blodeu adgof yn ei law.

Ond nid oes rhyd
I groesi afon ola'r byd,
Mae hyd ei glanau'n llawn i gyd;
Dychwela serch yn glwyfus wan,
Gan ado'r blodeu ar y lan,
A'i galon yn y glyn o hyd.

Yr anwyl was,
O'i fore gwyn a brofodd flas
Digonedd Duw ar lwybrau gras;
Wrth gychwyn ar yr anial dir,
Dilynodd golofn dân y gwir,
Heb gwmwl yn ei wybren las.

Fel angel nef
Ar lwyfan Duw y safai ef
Yn deffro gwlad a'i hyfryd lef;
Ac enaid fynai roddi llam,
Yn grin i wyneb bythol fflam
Ataliai a'i ddeheulaw gref.

Ei bregeth fwyn
Fel " pren y bywyd " oedd yn dwyn
Rhyw " ddeuddeg ffrwyth " o nefol swyn;
Ysgydwai'r cangau, ac i lawr
Y deuai'r ffrwyth yn gawod fawr,
Ac enaid tlawd anghofiai'i gwyn.

O hapus awr!
Pan godai'n y gymanfa fawr,
A'i wyneb fel y bore wawr;
Llewyrchai gras o'i ddysglaer lith,
Fel haul belydrau, ar y gwlith
Oedd ar y dorf yn treiglo i lawr.

Hyawdledd llawn
Ymdonai ar ei felus ddawn,
Fel awel dros fynyddau'r Iawn;
Ar faes agored euog fyd,
Anadlai'n dyner leddf o hyd,
Yn fywyd newydd ar y grawn.

Y Groes! Y Groes!
Oedd ymffrost ei lafurus oes,
A'i dirmyg yn ogoniant droes;
Cysgodau'r Groes, a lliw y gwaed,
Ar wynder ei feddyliau gaed,
A theimlai drydan dwyfol loes.

Fel llif o ser,
Ar eang draeth ei ysbryd ter,
Chwareuai drychfeddyliau Ner;

A gwelid gwlad yn dod o draw,
I eistedd ar y graig gerllaw,
I wrando'i awenyddiaeth ber.

Ei ysbryd byw
Chwenychai rodio gyda Duw,
Fel gyda chyfaill. Yn mhob rhyw
Ystormydd blin, bu pwys ei ben
Fel Ioan ar ei fynwes wen,
A chariad foroedd yn ei glyw.

Gymeriad clir,
Yn bwrw'i wraidd mewn dwyfol dir,
A'i frig dan flodeu'r nef yn ir;
O'i blygion tyner, ar y byw
Dyferai hedd efengyl Duw,
A'i ddail a berarogla'n hir.

Ar ben ei daith,
Ar ol ei "ddeugain mlynedd" gwaith,
Ei gwsg sydd felus ; ac mae iaith
Gyfriniol enaid yn y glyn
Mewn dagrau'n cwyno, ac ni fyn
Ar glo y bedd ddystewi chwaith.

Ti Ysbryd Glân,
Ffynonell bywyd, dawn, a chân,
O ! cofia'n gwlad. Proffwydi mân
Sy'n crynu gan bryderon byw,
Yn ngwag adwyau cewri Duw,
Rho ar eu min dy ddwyfol dân.

# BRIALLU.

Tlws yw Ebrill ar y lasfron,
Yn ei ddengar
Flagur cynar,
A briallu lond ei goron;
Ymddifyra byd y rhiwiau,
Ac awelon
Cynhes galon,
Yn ei ddilyn a'u carolau.

Dringaf finau gyda'r wawrddydd,
I unigedd
Mud y llechwedd,
Lle mae'r byd i gyd yn newydd;
Os yw'r nef yn cuddio'i golud,
Dal i wenu
Mae'r briallu—
Ser y dydd yn gomedd machlud.

Digon llwm fu drych y cloddiau,
Cyn i felyn
Aur y gwanwyn
Ddisgyn ar eu gweigion goffrau;
Daliodd eira'n hir i'w dallu,
Ond eu moeledd
Heddyw'n lanwedd,
A oleuir gan friallu.

Balch yw'r clawdd ohono'i hunan
Mewn hudolus,
Beraroglus
Wisg o liw pelydrau'r huan;
Addurnedig wisg o geinion,
A'r hawddgaraf
Emau harddaf,
Arni'n dryfrith i'w godreuon.

Cofia'r gog lle tyf briallu,
  Ac i gangen
  Las y fedwen,
Daw yn ol i swynol ganu;
Wedi croesi dros y tonau,
  Ni chwenycha
  Decach gwynfa,
Tra fo'r gwanwyn yn ei flodau.

Tyfwch, gweuwch, frieill hawddgar,
  Hael y rhoddwch
  Mewn tawelwch,
Gnwd o aur i dlodi'r ddaear;
Fe ddaw gwenu'n hawdd i minau,
  Os caf weini
  Ar dylodi,
Fel briallu ar y cloddiau.

# DARLUN FY MAM.

Aeth heibio flynyddoedd dros feddrod fy mam,
Drwy ganol terfysgoedd o wynfyd a cham;
Ond gwawr ar gymylau y gofid a'r cur
A dorodd o ddarlun fy mam ar y mur.

Gywired y darlun, addfwyned ei wen,
Yn cyfrif blynyddoedd heb fyned yn hen;
Tra minau'n cyfnewid, a hwyr yn fy nen,
A barug yr hydref yn wyn ar fy mhen.

Paham mae y darlun o hyd yn ei swyn,
A serch yn cynhesu at wyneb mor fwyn;
Hi 'ngharodd i'r diwedd, a dyna'r paham
Y glyna fy nghalon wrth ddarlun fy mam.

Adgyfyd cynghorion fel dydd ar y dòn,
Tra darlun fy mam ar y mur ger fy mron;
A thybiaf yn aml fod cariad mor wyn
Mewn pryder am danaf tu arall i'r glyn.

Mi welais ei llygaid yn tywyll bruddhau,
A'r creulon ddialydd am byth yn eu cau;
Ond erys goleuni nas diffydd ei fflam
Ar wyneb adgofion yn narlun fy mam.

Nid ydyw ond darlun; ond O! mae ei wedd
Yn chwalu y niwl sydd yn oer ar y bedd;
Mi welaf yn ol hyd ymylon fy nghryd,
A'r nefoedd yn mlaen yn y golwg i gyd.

Mi glywais am lais yn llefaru o'r mur,
Yn hyglyw ei barabl, a'i acen yn bur;
I minau, er edrych, a gwrando cyhyd,
Mae'r darlun yn ddystaw, a'r wefus yn fud.

# SAF I FYNY DROS DY WLAD.

Paid a goddef i estroniaid
  Waradwyddo Cymru gain;
Ar feddrodau hen wroniaid,
  Tyn dy gleddyf o dy wain;
Dyro fri ar dy ddynoliaeth;
  Ufuddha i gorn y gad;
Ac yn ngolwg buddugoliaeth,
  Saf i fyny dros dy wlad.

Cofia Glyndwr a Llewelyn,
  A Marchogion Arthur fawr;
Ac yn wyneb sarug elyn,
  Rho dy droed yn drwm i lawr;
Tra fo hawliau mewn cadwyni,
  Ac yn wylo am ryddhad,
Plana'th fenyr ar glogwyni,
  Saf i fyny dros dy wlad.

Yn y brwydrau angerddolaf,
  Ar gyffiniau Cymru Fydd,
Dangos fod y Medrawd olaf
  Yn ei fedd er's llawer dydd;
Os yw'r byd yn ymderfysgu,
  Ac yn ddibris o'th leshad,
Yn y cynhwrf paid a chysgu,
  Saf i fyny dros dy wlad.

Paid ymostwng i fyddinoedd
  Sydd a gormes yn eu gwaed;
Perthyn wyt i hen frenhinoedd
  Fathrent ormes dan eu traed;
Gwell yw marw dros iawnderau,
  Na theyrnasu mewn sarhad;
Fel Eryri'r uchelderau,
  Saf i fyny dros dy wlad.

# ADDUNED Y PROFFWYD.

O'I gartref ar y llechwedd,
  I waered dros y rhiw,
Cychwynai'r proffwyd fore Sul,
  Ar neges dros ei Dduw;
Ei galon gurai'n gynhes,
  A chyflym oedd ei droed;
Ac ni feddyliai neb ei fod
  Yn bedwar ugain oed.

Yr afon dros ei glanau
  A godai'n genllif mawr;
Ac yn y storm y nos o'r blaen,
  Fe aeth y bont i lawr;
Er fod y llif yn frigwyn,
  A'r llwybr wedi ei gloi,
Ni fynai'r proffwyd droi yn ol,
  A'r neges heb ei rhoi.

Eisteddodd yn siomedig,
  Yn wyneb gwg y don;
A chenadwri fawr y nef
  Yn gynhes yn ei fron;
Daeth campau difyr mebyd
  Yn ol i'w fryd drachefn;
A chroesodd y llifeiriant gwyllt,
  A'i ddillad ar ei gefn.

Bu'n ffyddlon i'w adduned,
  Yn swydd efengyl gras;
Ac yn y dyfroedd sydd yn ol,
  Fe gofia Duw ei was;
I groesi'r afon olaf,
  Y ddyfnaf fu erioed,
Bydd addewidion goreu'r nef,
  Yn fwa dan ei droed.

## SIBRWD YR AWEL.

Swynol felus a soniarus,
Yw dy sibrwd, awel fwyn;
A llinynu wnei i ganu,
Holltau'r graig a brig y llwyn;
Cyfareddol
Yw süadau
Dy freuddwydiol
Ddrychfeddyliau;
Ai dynwared mae dy gri
Lleddf-alarus, a phruddglwyfus,
Delyn friw fy nghalon i?

Paid a brysio'n ofnus heibio,
Aros enyd yn y glyn;
Wedi canu, ti gei gysgu
Yn nhawelwch pen y bryn;
Dywed imi,
Awel dirion,
Pam y tori
Di dy galon?
Wyddost ti am ofid cudd?
Ai dialydd yn y creigydd,
Ddysgodd iti gân mor brudd?

Ai adgofion sy'n dy galon,
Am ddifrodau'r storom fawr?
Gallodd hono lawen floeddio,
Wrth lofruddio'r coed i lawr;
Methu esgyn
I'r eangder,
Ar dy edyn
Esmwyth tyner,
Dyna glywaf yn dy gwyn;
Ac mae'r ddaear iti'n garchar,
Fel i ysbryd, awel fwyn.

Ar hyd llwybrau anhawsderau,
Cwyno sydd i minau'n reddf;
Hudoliaethau a chrwydriadau
Ddysgodd imi ganu'n lleddf;
Fel colomen
Wedi'i chlwyfo,
Yn yr ywen
Ddu yn cwyno
Ar y byd a'i greulon drais,
Cwynaf finau rhwng y beddau,
Gyda deigryn yn fy llais.

## HAUL AR OL Y GAWOD.

Paid a thori'th galon flin,
Pan fo tynged yn dy erbyn ;
Er mor arw yw yr hin,
Dyro dro ar dànau'th delyn ;
Os yw'r nef yn ddu i gyd,
Llecha enyd yn y cysgod ;
Nid yw eto'n ddiwedd byd,
Fe ddaw haul ar ol y gawod.

Paid a chwyno yn y gwlaw,
Paid a chablu yn y ddrycin ;
Ar gymylau'r storm y daw
Adgyfodiad i dy egin ;
Bydd yn gynil ar dy ddawn,
Paid proffwydo gwae a difrod ;
Dros y bryn i'th feusydd grawn,
Fe ddaw haul ar ol y gawod.

Glywaist ti'r aderyn du
Yn y gawod wlaw yn canu ?
Cofiai am y dyddiau fu,
Pan omeddai'r glaswellt dyfu ;
Ond o dalaf frig y llwyn,
Gwelai ddyddiau gwell yn dyfod ;
Canai yntau'n felus fwyn,—
Fe ddaw haul ar ol y gawod.

Gwlawia'r cwmwl ar y ddol,
Yn llawenydd i rosynau ;
Ac i'r nef esgyna'n ol
Gwmwl llawn o beraroglau ;
Ymsancteiddia blodeu'r drain
Yn y bedydd oddi uchod ;
Ac i liwio'u gruddiau cain,
Fe ddaw haul ar ol y gawod.

Pan fo trallod yn dy nen
  Yn ymgasglu yn gymylau;
A phan doro ar dy ben,
  Fel ystorm o wlaw taranau,
Ti gei weled bwa gras
  Yn y cwmwl ryw ddiwrnod;
Ac i ganol wybren las,
  Fe ddaw haul ar ol y gawod.

Paid a gwibio yma thraw
  Yn nhymhestloedd duaf gofid;
Fel y rhosyn yn y gwlaw,
  Cei dy natur yn gweddnewid;
Edrych tua'r nef o hyd,
  Am oleuni yn dy drallod;
Ac o ddwyrain dwyfol fyd,
  Fe ddaw haul ar ol y gawod.

# A GLYWAIST TI?

A GLYWAIST ti hanes y Brawd,
Gymerodd ofidiau dy natur?
A welaist ti hwnw yn marw yn dlawd,
I geisio, a chadw pechadur?
Fe'th welodd yn nyfnder y ffos,
A Satan a'i lu yn dy faeddu;
Ar gyrau trueni dan ddafnau y nos,
Bu'n wylo am gael dy waredu.

A glywaist ti hanes y Groes.
Lle torodd dy Brynwr ei galon?
A brofaist ti flas y maddeuant a roes
Wrth farw, i'w dduaf lofruddion?
Y Cyfaill anwylaf a gaed,
A ddaliodd i'r diwedd i'th garu;
Wrth golli'r defnynau diweddaf o'i waed,
Bu'n deisyf am gael dy waredu.

A glywaist ti hanes y Bedd,
Lle bu'r Adgyfodiad yn huno?
A welaist ti angeu yn dianc o'i sedd,
A bywyd o'i ol yn blodeuo?
Dy Geidwad, yr un ydyw Ef,
Er esgyn i fythol deyrnasu;
Nis gall dy anghofio ar orsedd y nef,
Mae'n eiriol am gael dy waredu.

A glywaist ti hanes yr Iawn,
A lanwodd y nefoedd â'i haeddiant?
A welaist ti Dduw yn cyfranu ei ddawn,
I'th gymhell yn ol i ogoniant?
Os ydyw dy gamwedd yn fawr,
Mae croesaw o hyd at yr Iesu;
Rho ynddo dy obaith, tyr'd ato yn awr,
Mae digon am byth i'th waredu.

# COFIO'R LLEIDR.

CYCHWYNAI'R teulu bychan
O Fethlem ganol nos;
Ac engyl yn goleuo'i ffordd,
Dros lawer bryn a rhos;
'Roedd Herod ar ei orsedd
Yn hogi llafn ei gledd;
A llofrudd yn ei galon fall,
A'i wg mor ddu a'r bedd.

Mor gynar, O! mor gynar,
Y bu y sanctaidd Un,
Heb le i roi ei ben i lawr
O fewn ei fyd ei hun;
Unigedd y mynyddoedd,
I'w fore gwyn a gaed;
A melldith daear ar ei ol
Mewn syched am ei waed.

Mewn dyffryn anghyfanedd,
A thangnef dros y tir,
Gorphwysai'r teulu dros y nos,
Ar ol ymdeithio'n hir;
Ond o guddiedig ogof,
Yn nghŵr y graig gerllaw,
Fe neidiodd allan leidr hyf,
A'i gleddyf yn ei law.

Yn ffrwyn y mud anifail,
Ei law a gydiai'n dŷn;
Ond tybiodd weled dwyfol wawr
Ar rudd y mebyn gwyn;
Dychrynodd drwy ei galon,
Heb allu sibrwd sain;
A throdd yn ol i'r ogof ddu,
A'i gleddyf yn ei wain.

Yn mlaen ymlwybrai'r teulu,
  Yn dlawd i estron dir ;
Lle bu y tadau oesau'n ol
  O dan y gorthrwm hir ;
Y daith flinderus hono,
  Drwy rwystrau fwy na rhi,
Agorodd ddor na chauir byth
  O'r Aipht i Galfari.

Aeth llawer blwyddyn heibio,
  Yn gyflym ar eu hynt ;
Heb feddwl am gyfarfod mwy
  A'r hen ysbeilydd gynt ;
Y bachgen a gynyddodd,
  Yn fwy na llond y byd ;
A theulu Herod eto'n ddall
  I'r dwyfol yn ei bryd.

Pwy oedd y lleidr hwnw
  Lewygodd yn ei fraw,
Wrth weld yn disgyn ar ei gledd
  Oleuni'r byd a ddaw?
A raid i Geidwad farw,
  Yn mhlith troseddwyr gwael,
Yn dair ar ddeg ar ugain oed,
  A'r lleidr heb ei gael?

Mor dlws yw'r hen draddodiad
  Sy'n hedeg yn y gwynt;
Ac hyd yr oesau'n cadw cof
  O'r lleidr hwnw gynt;
Y llen yn ol a dynir,
  Oddiar ei fywyd crin,
Pan oedd yn teimlo gwres y fflam
  Yn deifio'i enaid blin.

Ar fryn y dienyddle,
  A'i gamwedd ar ei gefn,
Daw arfog wr yr ogof ddu
  I olwg byd drachefn;

Wrth farw mewn gwaradwydd,
  Heb neb i wrando'i gri,
Adnabu Geidwad ar y Groes,
  Pan lefodd "Cofia fi."

"Mi'th gofiaf," medd yr Iesu,
  "Er dued yw dy liw;
Mae yn fy angeu nefol falm,
  I wella calon friw;
Os myn y byd fy ngwadu,
  Fy arddel fyni di;
Ac heddyw ar y nawfed awr,
  Cei deyrnas gyda mi."

## "NOS DA."

Noswyliodd haul y dydd
Yn ddystaw dros y bànau;
A'i gusan olaf sydd
Yn gynhes ar y blodau;
Yn mrigau'r coed, a'r gerddi pêr,
Mae cân yn ymdawelu;
A melus hwiangerddi'r sêr
Glyw'r meillion a'r briallu;
Hawdd i natur wedi blino,
Wrth ymollwng i freuddwydio
Ydyw dweyd rhwng cwsg ac effro—
"Nos da!" "Nos da!"

Mor llonydd yw y wlad,
Mor unig, ac mor dawel;
Felused y mwynhad,
A chwsg yn llond yr awel;
Daw pawb yn ol i'w gartref tlws,
I ddadluddedu calon;
A throir yr allwedd yn y drws
Ar bryder a gofalon;
Caua bywyd blin ei lygad,
A'i wefusau'n rhoi gollyngiad
I sibrydion olaf cariad—
"Nos da!" "Nos da!"

Crynedig yw fy llaw,
Lluddedig yw fy mywyd;
Cysgodau'r byd a ddaw
Ymdaenant dros fy ysbryd;
Ond os yw haul fy more gwyn
I'r gorwel yn machludo,
A minau'n chwilio yn y glyn,
Am loches i orphwyso,
Mi gaf glywed yn fy mlinder
Hwiangerddi engyl tyner,
Cysgaf wedyn yn ddibryder—
"Nos da!" "Nos da!"

# DYSGWCH GYMRAEG I'CH PLANT.

BLOEDDIWN yn groew drwy gorn y gad
  Ddiareb a'i llond o wir—
Cas yw y gwr na charo ei wlad,
  Ac anghof y bydd cyn hir;
Gwreiddiwn yr iaith yn mhob bryn a chwm,
  A chanwn yn uwch ei bri;
Dysgwyd cyn hyn gan y creigiau llwm
  Ei cherddi soniarus hi.

Dadau a mamau hen wlad y gân,
  Na thorwch y melus dant;
Safwch i fyny dros Gymru lân,
  A dysgwch Gymraeg i'ch plant.

Hen iaith y cedyrn, a'i bore lên
  Yn llawn o sefydlog ser;
Mae'n gwrthod marw er mynd yn hen,
  A chân ar ei gwefus ber;
Deffrödd awenau i ganu 'nghyd
  Garolau o nefol flas;
Ac o'i chynteddau fe glywodd byd
  Daranau efengyl gras.

Ar fedd Taliesin, mae'r llais yn glir,
  A llais proffwydoliaeth yw—
Eu Ner a folant, er colli'r tir,
  A chadwant yr iaith yn fyw;
Mae'r hen Weledydd dros furiau'r nef,
  Yn edrych yn syn i lawr;
Profwch i'r byd fod ei adnod ef
  Mor gadarn a'r Wyddfa fawr.

Dadau a mamau hen wlad y gân,
  Na thorwch y melus dant;
Safwch i fyny dros Gymru lân,
  A dysgwch Gymraeg i'ch plant.

# DERW CYMRU.

GYSEGREDIG dderw Cymru,
  Derw ieuainc, canmlwydd oed;
Ar y creigiau'n diystyru
  Dull y byd o blanu coed;
Etifeddion y llechweddau,
  O frenhinol had y wig;
Gwydnwch haiarn yn eu gwreiddiau,
  A theyrngarwch ar eu brig.

Pa raid son am dderw Basan,
  Tra mae derw Cymru'n fyw,
Yn offrymu moliant allan
  Ar fynyddoedd eraill Duw?
Hoffant sibrwd am ysbrydion
  Hen broffwydi, ar y maen;
Gan adgofio yr encilion,
  Tra mae'r byd yn mynd yn mlaen.

Derw Cymru, preiffion, tywyll,
  Hen ryfelwyr di ymdroi;
Pa sawl storm o dan eu ffrewyll
  Welwyd tua'r mor yn ffoi?
Pa sawl cyngherdd dreuliwyd allan
  Rhwng eu dail mewn hafol des?
Sawl cenhedlaeth welodd huan,
  Dan eu brig yn casglu mes?

Yn eu cysgod, gedyrn luoedd,
  Hyd y geillt, ac ar y waen,
Gwelaf Gymru'r hen amseroedd
  Yn ymagor o fy mlaen;
Cyn i fwyell diwygiadau
  Droi y coed yn ddefnydd tân;
Cyn i rodres mewn sandalau,
  Ar y bryniau floeddio cân.

## CRYNLLYS Y MYNYDD.

Grynllys y mynydd,
  Wyleiddiaf flodau;
Gyda'r ehedydd
  Yn treulio'ch hafau;
Fry ar y llechwedd mor bell o'r byd,
  Pam mae eich calon
  Uwchben ei digon
    Yn crynu o hyd?

Llonydd yw'r awel
  Yn mrig y derw;
Siriol yw'r gorwel,
  A'r storm yn farw;
Cysgwch, am enyd, mewn tesni clyd;
  Afraid i galon
  Mor ddi gwerylon,
    Yw crynu o hyd.

Hwyr ar y bànau
  Sy'n ymdawelu;
Ac nid yw clychau
  Y grug yn canu;
Tawel orffwysant mewn hedd i gyd;
  Chwithau yn effro
  Adeg breuddwydio,
    Yn crynu o hyd.

Y fron dyneraf
  Ar fryniau bywyd,
A deimla ddyfnaf
  Bryderon deufyd;
Wrth ymsancteiddio mewn aflan fyd,
  Mae ar yr ymdaith,
  Mewn ofn a gobaith
    Yn crynu o hyd.

## TYDDYN FY NHAD.

MEWN tawel unigedd yn ngodreu'r mynyddoedd,
  I mi, mae y llecyn anwyla'n y byd;
Edrychaf yn ol dros ysgwyddau blynyddoedd,
  I'r fan lle bu cariad yn siglo fy nghryd;
Ar lwybrau trallodus y byd a'i ofalon,
  A chwerw anffodion yn gwywo'i fwynhad,
Mae adgof yn aros o hyd yn fy nghalon,
  Am felus gysuron hen dyddyn fy nhad.

Diaddurn erioed oedd ei furiau henafol,
  A'i wyneb yn edrych ar doriad y wawr;
Ond amser yn greulon o'i orsedd auafol,
  Fu'n cymhell ystormydd i'w fwrw i lawr;
Fe chwalwyd y teulu gan law anweledig,
  I'w casglu drachefn i ragorach ystad;
A dim ond y murddyn, fel ysbryd clwyfedig,
  Sydd heddyw yn aros o dyddyn fy nhad.

# PAID BREUDDWYDIO AR DDIHUN.

Os am ogoneddu'th natur,
  Os am enill bri a chlod,
Cred yn gryf yn urddas llafur,
  Cadw'th lygad ar y nôd;
Bydd yn effro, dal i ddringo,
  Dros y creigiau garwa'u llun;
Tra bo'r huan yn goleuo,
  Paid breuddwydio ar ddihun.

Cymer awgrym y goleuni,
  Fel yr hedydd bychan brith,
Sydd yn esgyn wedi golchi
  Ei adenydd yn y gwlith;
Gedy'r grug, a chân ei orau,
  Yn y cwmwl wrtho'i hun;
Cana dithau ar dy dànau,
  Paid breuddwydio ar ddihun.

O dy gwmpas mae peryglon
  Yn dy wylio oddi draw;
Anweledig fel ysbrydion
  Yw'th elynion ar bob llaw;
Bylcha rengau y gwrthgadau,
  O dy flaen na safed un;
Hoga'th gleddyf ar eu beddau,
  Paid breuddwydio ar ddihun.

Myn ragori mewn gwasanaeth,
  Gollwng dy dalentau'n rhydd;
Paid a chysgu i farwolaeth,
  Pan yn effro byddo'r dydd;
Myn dy ryddid o afaelion
  Twyll ysbrydion anghytun;
Gad i'th fywyd wisgo'i goron,
  Paid breuddwydio ar ddihun.

# Y TLYSAU.

"A BYDDANT EIDDOF FI."—Mal. iii., 17.

YN nghanol cynhwrf mawr y byd,
A'i droion cyfnewidiol,
Cydweithia'r oll i gasglu 'nghyd
Drysorau'r ddinas nefol;
Os ydyw dyrys drefn yr Ior,
Yn tori calon creigiau,
O'r mynydd bán, a'r garw fôr,
Mae'n dwyn i'r nef ei dlysau.

Llawenhawn, ein codi gawn,
O dir y gorthrymderau;
Mae Duw yn awr i'w goron fawr
Yn parotoi ei dlysau.

Os yw y meini hyd yn hyn,
Yn gelyd ac yn eirwon,
I'w ogoneddu, Duw a'u myn
Yn sanctaidd ac yn loewon;
Er fod ei gariad yn eu trin,
Mewn trallod a gofidiau,
Fe gerfia'n hardd a'i law ei hun
Ei ddelw ar ei dlysau.

Ei gariad er yn fore iawn,
Am danynt fu'n hiraethu;
A gwariodd ei oludoedd llawn,
Nes mynd yn dlawd i'w prynu;
Ei eiddo ydynt,—byddant lân,
Heb olion hen ddifrodau;
A phan fo'r byd yn eirias dân,
Ni chollir un o'i dlysau.

Llawenhawn, ein codi gawn,
O dir y gorthrymderau;
Mae Duw yn awr i'w goron fawr
Yn parotoi ei dlysau.

# TALYHO.

CANER yr helgorn, a threiddied y swn
I eithaf y bryniau draw;
Cyfrwyer y meirch, a gollynger y cwn,
Mae gelyn y buarth ger llaw;
Fe laddwyd y paun, ac fe gollwyd yr oen
O'r gorlan yn ymyl y tŷ;
Awn allan i hela heb ludded na phoen,
Erlidiwn, a daliwn y pry';
Talyho! Talyho!
Mae arogl y llofrudd yn drwm ar y tir,
Ac olion ei draed ar y llwybrau yn glir;
Clywch fel mae'r helgwn
Yn udo'n aflonydd;
Cyflym ddilynwn
Drwy ganol afonydd;
Ar alwad soniarus yr helgorn cryf,
Mae'r meirch yn gweryru am ddal y pryf;
Neidiwn y cloddiau ar fryn a dôl,
Dringwn y gelltydd i'r graig ar ei ol;
Talyho! Talyho!

# GWLAD Y PALMWYDD.

Cân, awen, cân i wlad y Palmwydd gwyrdd,
  Cyweiria'th delyn, pam y byddi'n fud?
Mae o dy gwmpas ddrychfeddyliau fyrdd,
  Adgofion oesau o dragwyddol hud.

Gwlad Gosen lonydd, gwlad y meusydd yd,
  A chyflym fendith yn addfedu'r grawn;
Tyf "ar ei ganfed," i sirioli'r byd,
  O doraeth gweddill yr ysgubor lawn.

"Saith mlynedd newyn" welodd llawer gwlad,
  A swn griddfanau glywid yn y gwynt;
A llonwyd pebyll llawer clwyfus dad,
  Wrth gofio Gosen yn y dyddiau gynt.

Dan lwyn o eurafalau, eistedd wnaf,
  A'r cangau teg yn plygu at fy min;
A heulwen gynhes yn rhoi lliwiau'r haf,
  Ar wyneb ddeifiwyd gan auafau blin.

Mae'r llwyni ffigys dan eu cnwd yn llawn,
  Heb un "ffigysbren diffrwyth" yn eu plith;
A'r gwinwydd pêr, a'r pomgranadau gawn
  Yn ymaddfedu yn y tes a'r gwlith.

Digwmwl randir yn hawddgarwch ter,
  Heb loewach nen i ysbrydoli bardd;
Gwlad sydd a'i gauaf yn rhosynau pêr,
  A bythol haf yn gwylio ffordd yr ardd.

Mae bywyd newydd yn yr awel fwyn,
  A chroesi'r moroedd sydd yn werth y draul;
I wledda'n syn ar bêrlewygol swyn
  Aurora codiad a machludiad haul.

O! lif o ardderchowgrwydd; mae ei swyn
  Yn hudo sereiph i'r gorwelion draw;
Tywynion o ddwyfoldeb fel yn dwyn
  I olwg dyn Shecina'r byd a ddaw.

Arddunol wrid! Prydferthwch byd yn wawd
  A dry, yn wyneb yr olygfa fyw;
Ac nid yw'n rhyfedd fod y pagan tlawd,
  Yn haul addolwr wedi colli Duw.

Addolaf finau: nid yr haul a'r ser,
  Y rhai a folant Grëwr yn gytun;
Mewn hwyr a bore, gwelaf law fy Ner
  Gynheuodd heuliau yn ei wawl ei hun.

II.

Cyn geni Groeg i fagu doethion byd,
  A chyn i Eryr Rhufain ado'i nyth,
Hen oedd yr Aipht, heb neb yn cofio'i chryd,
  A'i chofgolofnau'n ansigledig byth.

Gwlad lawn o ryfeddodau o bob rhyw,
  Gwlad Pyramidiau o dragwyddol fri;
Gwlad i Gelfyddyd roddodd hawl i fyw,
  A chryd gwareiddiad siglwyd ynddi hi.

Yn ol y treiddiwn trwy y caddug prudd,
  Mewn ymchwil am chwedloniaeth bell y fro;
Rhamantau gladdwyd mewn beddrodau cudd,
  A thywod oesoedd ar eu rhydlyd glo.

Beddrodau'n gestyll yn y gadarn graig,
  Colegau'r meirw i addysgu'r byw;
Mud uwch y gwersi saif yr ysgolhaig,
  Ac adlais duwiau'n tori ar ei glyw.

Cysgodau hen frenhinoedd ar y wlad,
  Sy'n aros ar eu hol, a'u gorthrwm blin
Fel cysgod hwyrddydd, neu weddillion brad,
  Ar wyneb llwyd y troednoeth *Fellahin.*

Brenhinoedd wedi meddwi ar eu ffawd,
  Yn diosg teyrniaid o'u coronau pur;
Gan droi gorseddau'n ddirmyg ac yn wawd,
  A dàl cenhedloedd yn eu cyffion dur.

*Rameses Fawr*, gorthrymwr Israel Duw,
  Mae o fy mlaen, ac arall ar ei sedd;
Daeth dydd ei adgyfodiad, greulon lyw,
  Heb ganiad udgorn uwch ei ddystaw fedd.

Mewn llawer câd, ei ryfel gerbyd chwyrn
  A yrrodd drwy afonydd dwfn o waed;
Dialedd angeu oedd yn swn ei gyrn,
  A dychrynfeydd daeargryn dan ei draed.

Edrychaf yn ei wyneb yn ddi len,
  Y wyneb welodd Moses dan ei wg;
Aeth miloedd o flynyddoedd dros ei ben,
  Heb symud ymaith olion natur ddrwg.

Gorthrymwr daear, drwy ei oes yn byw
  I droi y creigiau celyd ar ei lun;
Ucheldeyrn balch, yn credu fod ei dduw
  Yn ymgnawdoli ynddo ef ei hun.

III.

Y Nile! y Nile! mor uchel yw ei chlod,
  Mor ddigyfnewid er y dyddiau fu;
Ei llif yn wynfyd sydd i lawr yn dod,
  O galon eang y cyfandir du.

Ymlwybraf ar ei glanau yn y blaen,
  Nes teimlo'm natur yn arafu'n llesg;
Breuddwydiaf ar ddihun ar lawer maen,
  A chlywaf swn ysbrydion yn yr hesg.

Mae cylch arlunfa anghofedig fyd,
  Fel pe'n ymsymud o fy mlaen yn fyw;
A minau'n amheu ar y lan o hyd
  Pa un ai sylwedd ynte breuddwyd yw.

Bu llawer brenin ar y geulan hon,
  Mewn ofergoeledd dieithr ar ei lin;
Yn chwilio am ei dduw ar frig y dòn,
  A'i galon yn dyferu dros ei fin.

Mewn gwyll teimladwy ymbalfalai'n syn,
  A'r afon fel pe'n ffoi o swn ei gri;
Ac offrwm llwm, o efrau ac o chwyn,
  Yn cymhell gwrid i'w gwyneb gloew hi.

Ardderchog afon; mae ei dyfroedd clir
  Yn dal i ymladd â'r diffaethwch mawr;
A brysia, pan fo'r haul yn llosgi'r tir,
  Oddiar fynyddoedd eira gwyn i lawr.

Y llif! y llif! mor uchel yw ei gân,
  A goruchafiaeth sydd yn swn y dòn;
A thlysau buddugoliaeth natur lân
  Yw'r *Lotus* wisga ar ei llydan fron.

O! sanctaidd lili, yn ei llawn fwynhad,
  Parha mewn heddwch ar y gloew li;
Arwyddlun urddas hen orseddau'r wlad,
  A balchder eilunddwiau ydoedd hi.

Ar lif yr afon y mae gobaith gwlad,
  Ac edwyn hithau ei thymorau'n iawn;
A hawdd i'r hwsmon ganu mewn boddhad,
  Wrth hau ei fara ar ei mynwes lawn.

Dibryder ydyw ar ei feusydd yd,
  Heb nefoedd ddu na chwmwl i'w bruddhau;
Fe'i dysgir gan y dòn ei bod yn bryd
  Rhoi min ar gryman pan yn gorphen hau.

IV.

Daw'r Arab heibio ar ei fuan farch,
  A'i sêl yn llosgi dros ei wlad ei hun;
A cheidw yn ei galon fwy o barch
  I'w fud anifail nag i fywyd dyn.

Os yw gwareiddiad gyda llawen floedd,
  A'i fryd ar fyw canrifoedd mewn un dydd;
Mae'r cyndyn Arab heddyw fel yr oedd,
  Ac ni fyn ddianc o'i gadwynau'n rhydd.

Ei fantell dros ei gefn a groga'n llaes,
  Heb rodres ffasiwn na mursendod ffol;
Yn nhwrf y dref, ac ar y dystaw faes,
  Mae'n byw ar draddodiadau oesau'n ol.

O bell unigedd y diffaethwch poeth,
  Daw yntau'r *Bedouin* ar ei gamel crwm;
Mae delw Ismael ar ei wyneb noeth,
  A llaw ysbeilydd ar ei gleddyf trwm.

Digartref grwydryn yn yr haul a'r tes,
  Yn cludo'i bebyll drwy yr anial dir;
Ac yn lluddedig yn y deifiol wres,
  Gweryra'i gamel am y dyfroedd clir.

Ar hyd rodfeydd na welodd dyn erioed,
  Tramwya'n ddiflin dan ei lethol bwn;
Ni feiddia'r march cyflymaf ar ei droed,
  Drwy Lybia boeth ymryson taith a hwn.

"Llong y diffaethwch," ar dywodfor maith,
  Yn croesi'n araf i ororau gwell;
A llawer storm gyferfydd ar y daith
  Cyn cyrhaedd glanau y porthladdoedd pell.

Ystormydd tywod y diffaethwch blin,
  A difrod angeu yn eu creulon lef;
A'u cysgod marwol yn y llosgawl hin
  Yn duo haul canolddydd yn y nef.

Greddf yr anifail ar y crasdir mawr
  Arogla y tymhestloedd oddi draw;
Edrycha'n wyllt, gostynga'i lin i lawr,
  A'i galon yn llewygu yn ei braw.

Anadla'r corwynt ar yr anial gwyw,
  Gan symud bryniau moelion o bob tu;
A llawer crwydryn wêl ei gladdu'n fyw,
  Heb dyst o'i ol i adrodd fel y bu.

V

Pa le mae'r duwiau oedd yn llond y wlad?
  Mae swn eu henwau'n aros yn y gwynt;
A themlau fyrdd yn cadw eu cofflhad
  A llwydni amser ar eu balchder gynt.

Dymchwelwyd yr alloran drud i lawr,
  A'r dwyfol deyrn Osiris nid yw fyw;
A chlywodd Philae wrth y rhaiadr mawr
  Offeiriaid trist yn tori bedd eu duw.

Bu pererinion oesoedd ar eu taith,
  Fel plant amddifaid i'r ynysig dlawd;
Gan guro'u bronau, a'u hwynebau'n llaith,
  Ar fedd eu duw, a laddwyd gan ei frawd.

Olygfa ddwys! Mae natur yn llesghau,
 Yn syn, wrth weled y torfeydd di hedd;
Yn tywallt allan eu paderau gau
 Ar fyddar dduw yn gorwedd yn ei fedd.

Mae duwiau'r ddaear yn heneiddio'n brudd,
 Yn treulio allan, ac yn marw'n oer;
Fe gwyd yr haul, ond erys Ra yn nghudd,
 Ac anghof mwy yw Isis gan y lloer.

Y Sphinx amddifad ar ei gadarn sedd
 A gwyd ei ben i fyny'n ddigon syth;
Mae'n herio amser, ac yn gwrthod bedd,
 A'i holl addolwyr wedi cefnu byth!

Hen breswylfeydd cyntefig dduwiau'r fro,
 Cynteddau cysegredig mawl a chân,
Adfeilion ynt, fel dystryw yn ddi do,
 Ac oerni angau lle bu'r dieithr dân.

Arddunol demlau: cestyll bore'r byd,
 Lliw mynwent anghof ar eu muriau sydd;
I'w sancteiddiolaf yr ymgasgla'n nghyd
 Ystlumod hwyrnos, ac ymlusgiaid dydd.

Hen Gladdfa'r Teirw, lle bu Apis fawr,
 Yn nghanol ei offeiriaid yn ymdroi;
Mae ar y pyrth cauedig newydd wawr,
 A'r teirw cudd o'u beddau wedi ffoi.

Ond mae addewid Duw i wlad y palm,
 I droi'r diffaethwch gwyw yn ddoldir bras;
A chyn bo hir fe glywir newydd salm
 Efengyl hedd o byramidiau gras.

# TYWYDD MYND ADREF.

Dyrüai y storm ar y mynydd,
A'r gwlaw a ddisgynai yn drwm;
A chroesai lluddedig ymdeithydd
I'w dyddyn yn ngwaelod y cwm;
Ond er fod y storom yn greulon,
Ac yntau'r pererin yn dioddef,
Sibrydai yn nghanol peryglon,
"Pa raid i mi dori fy nghalon,
Mae'n dywydd di fai i fynd adref."

Pererin wyf finau'n ymdeithio,
Drwy ganol gofidiau y byd;
A llawer ystorm yn fy nghuro,
Am dori fy nghalon o hyd;
Ond cofiaf am wynfyd angylion,
Am haf digyfnewid o dangnef;
Ac er fod y cymyl yn dduon,
A deifwynt yn chwalu cysuron,
Mae'n dywydd di fai i fynd adref.

## ESGYN A CHANU.

Esgyn a chanu mae'r hedydd bach,
Canu am nefoedd ac awyr iach.

Canu am dyrau y grug a'r brwyn,
Am wlith y wawr, ac am awel fwyn.

Cyfyd yn fore, a chanu fyn
Yn mlodeu'r wawr yn y cwmwl gwyn.

Pell yn y gwagle o olwg byd,
Am loewach nen mae ei gân o hyd.

Uchel ei garol ar lwybrau'r wawr,
Mud yw ei delyn yn dod i lawr.

Rhaid croesi'r cwmwl am wybren lan,
A dal i esgyn am hyawdl gan.

Llesmeiria'r ser yn ei odlau drud,
Ond pam daw yn ol i'r ddaear fud?

Mi wn fod y dyfnder yn ddagrau i gyd,
Mi wn mai i lawr mae trueni'r byd.

Gwelaf wynebau yn gwelwi o fraw,
A chlywaf galonau'n tori o draw.

Yn swn gofidiau ac wylo di-hedd,
Telynau grogir ar helyg y bedd.

Rhaid esgyn i ganu, i nenau clir,
A chân wrth esgyn ddaw'n felus cyn hir.

Gloewaf yr awyr, puraf y llef,
Ac uwch y cwmwl mae cân y nef.

# UCHELGAIS.

CADAIR LLANRWST, 1891.

AM Uchelgais ymchwilgar—y canaf;
Tra'i Shecina hawddgar
Ar f'enaid, heriaf anwar—beryglon,
A gwydn a duon gadwyni daear.

Dwfn fwriad hyf, anfarwol,—neu donog
Drydaniaeth angerddol
Ynof ydyw,—hanfodol
I brisio nef bri sy'n ol.

Brwd hollol briod allu,—ddihunodd
Enaid i'w ddyrchafu
I blith sêr o'r dyfnder du,
A'i gŵynion yn troi'n ganu.

Hwn yw'r yni arweiniol—i lwyddiant
A'i wleddoedd amrywiol;
I foddio ei herfeiddiol—hynt galed,
Daw bwrdd agored a bri hawddgarol.

O Dduw ni roed i ddyn reddf
Amgenach; dyma gyneddf
All ei gymhell i gamu—mynyddoedd,
A meiddia foroedd gan ymddifyru.

Dawn i'w sedd yn dwyn swyddau,—dawn heriol
Yn dynwared gwyrthiau;
A blysig gwyd, heb lesghau,
Awduron o'r dyfnderau.

Cawraidd nerth er cyrhaedd nod
Na bu neb yn ei wybod;
Ac o'i drais cwyd yr isel—i loew
Dori ei enw ar dyrau anwel.

Uchel gais chwilia gysur,—fydd luniaeth
 A foddlona natur ;
Dihafal sêl, dafla sur
Fydol ofid o'i lafur.

Nid yw enaid tanbaid dyn
O dybiadau abwydyn ;
Meddwl, ac ymawyddu,—y bydd hwn ;
 A boddhad i'w allu
At rinwedd yw trywanu—drwy gymyl ;
A grisiau engyl a gara sangu.

Hwn yw'r nod ar eneidiau
Geidw'r Nef i gadarnhau
Uchafiaeth bodolaeth dyn
Ar foliant daear filyn ;
Am nod uwch, am enw da,
Y milyn ni ymhola ;
Yr awydd hwn ni rydd Ior
Mewn direswm yn drysor ;
Grisial ddwr, a grasol ddail,
I ddi-nefoedd anifail
Sydd ddigon, a boddlon bydd,
Mor ddwfn a marw ddefnydd ;
Nefoedd hwnw feddienir
Hyd arlwy stad irlas dir ;
Byw'n ei wledd a'i ben i lawr,
Nis gŵyr am hanes gorawr
Ddwyfolach—ni chofia chwant
Ond o barthed ei borthiant ;
Byw'n y dail, heb hoen dilyth
Uchelgais yn fantais fyth.

Gan hyny, rhyw gynhwynol—allu yw,
 At wellhad cynyddol ;
Nid dymuniad damweiniol ;—mae'r llwyddiant
Ar ei boeth dyfiant yn rhywbeth dwyfol.

Na sonier am y syniad,—nad yw gwr
    Onid gwaith "Dadblygiad;"
Y trychfil eiddil a wâd—egnïol
Awen gynyddol neu ogoneddiad.

Dadblygiad nid yw'n gadael
Ffurf fy mod, i'r Duwdod hael;
Fe luniodd Ior *gyflawn ddyn*,—
Enaid llachar, nid llwchyn;
A mynwes gwr mwy nis gall
Byth wyro'n rhywbeth arall;
Dadblygiad ydyw blagur
Anffyddiaeth a'i maeth amhur;
Athrawiaeth oer yw, a'i thân
Wedi hollol fynd allan;
I ddysgwyliol ddwys galon,—rhew bythol
Sy'n ei daearol syniadau oerion.

Undonog benod annuw
A gynyg ddirmyg ar Dduw;
Ni chadd llais Uchelgais chwim
Gordeddu ar gŵr diddim;
Dechreuwyd iach orhoian
Hwn ar glir synwyrau glân.

A'i rym yn oesol mae'n rhoi mewn eisiau
Allu gweinyddfawr i'n holl gyneddfau;
Geilw wefredig hwyl i fwriadau,
A'i rwysg a gedwir ar ysgogiadau;
I awyrog ororau—beiddgarwch,
O'u dof eiddilwch y cwyd feddyliau.

Os ewyllys i wella—wybydd gŵr,
    Y beiddgarwch yma
Tua'r nod anturio wna,—a'i berffaith
Gyfoethog effaith ga fyth ei goffa.

Os athrylith fendithiol,—rhaid i hwn
Ar y daith esgynol
Dori nod i'r eneidiol—gam dystaw,
Ac yna'i wyliaw â'i law gynaliol.

Os talent apostolaidd,—hwn eto
Yn ei natur farwaidd
A'i cwyd i'w grym, ceidw'i gwraidd
Llenorol oll yn iraidd.

I ddwyn dinodedd nid yw eneidiau
Yn cael bodolaeth; clybuwyd hawliau
Eu natur unol yn gwneud taranau
Drwy ymwybyddiaeth, wrth dramwy beddau;
Esgynol duedd at uwch sylweddau,
O'u mewn a welir yn fflamio'n olau;
Daearol iselderau—sydd yn gaeth,—
Mae hawl dynoliaeth am loewdân heuliau.

Nod ymgais Uchelgais chwyrn
Yw codi cewri cedyrn
O lwch anwel, i chwenych
Bywyd gwell gwybodau gwych;
Creu *dynion*, a'u cry' daniaw
I hedd a chlod, sydd uwchlaw
Anystyriaeth, nes taro
Llonach braint a llawnach bro;
O drothwy dim, drwy'i waith da,
Yr eiddilaf rwydd alwa
O'i ddinodedd eneidiol,
I'r iawn sedd, a'r nos o'i ol;
Hwn a glir genedla'n glau,
O glai'r ddaear, glir dduwiau!

Oes, mae mewnol reddfol raid
I f'enaid fynd i fyny;
Awydd teg am gyrhaedd tant
O fwyniant, brofa hyny.

Braw nos, a barnau isel,—sydd i *lawr*,
    Hinsawdd loes a rhyfel;
Yn wewyr drwy bob awel,—mewn niwloedd,
Yn ddwfn mae'r ingoedd, fyny mae'r angel.

Drwg i lawr, a dreigiau lu,—amhuredd
    Cymeriad a phechu;
Hanfodiad yn ynfydu—yno sydd,
Heb hwylus gynydd na blys i ganu.

I lawr y mae doluriau,—gwenwynig
    Anianawd yn donau;
Bro grin, heb aur goronau—atdynol,
Na dim yn hudol i'n dymuniadau.

  Awn i fyny; O! f'enaid,
  A gloew drem gwel dy raid;
Meusydd a thrumau oesol,—yn foddus
Le i gysurus Uchelgais heriol.

Fyny caf Rinwedd: o'i fainc cyfrenir
I egni enaint, a'i wisg encinir;
Enwogrwydd eilwaith mewn gerddi welir,
Yn gwisgo awen Uchelgais cywir;
Dringwn yn wrol, a sylweddolir
Bryniau anrhydedd, heb ranau'n rhewdir;
Yno cawn urddas, ac ni waherddir
Ei fri rhagoraf i arwyr geirwir;
Po uchaf, tecaf y tir;—a diau,
Nodwedd eneidiau a weddnewidir.

Ymwrolwn, mae'r heuliau—i fyny,
    Mewn haf-wenol ŵybrau;
Nis ceir hanes coronau—goruchel,
O lwydni'r isel i danio'r oesau.

Dylanwadol eneidiau—yw y rhai
    Sydd a'u rhydd feddyliau
Yn dringo, drwy'r cysgodau—enhuddol,
O'r niwl anianol i riniol nenau.

At elw, nac ataliwn
Gyffröad y teimlad hwn;
Teimlad iachus, hoenus yw,—
Dylanwadol hoen ydyw;
Gradd o nerth i gyrhaedd nod
Dan y baich, nid yw'n bechod;
Nid pechod yw dod a dyn,
Drwy ei nod, yn deyrn wedyn;
Dyn heb nod ni bu'n awdwr
I dâl, deg, eneidiol dwr;
Uchelgais, ac ymgais gwir,
Gwyd dyrau nas gwatwerir;
Tra'i dân yn anian enaid,
Mewn iawn rym ei enyn rhaid;
Llwyr iachau mae llewyrch hwn,
A'i ddiffoddi ffieiddiwn.

Dyn ar dân! rhaid i hwnw—ymysgwyd;
Mae osgo am enw
Yn uchel ddweyd fod elw,—a phwysig
Gyfoeth hongiedig, i'w fath y'nghadw.

Dyn ar dân, er daioni,—y mae grym
A gwres yn gwreichioni
O'i sylwedd, all lesoli—cyfandir,
A daear lonir drwy ei oleuni.

Dyn ar dân a red o hyd—yn ei flaen,
Ac ni flina'i ysbryd;
Estronfawr rwystrau ynfyd,
Uchel gais a'u chwâl i gyd.

Yn yr ysbryd tanllyd hwn,—byd o waith
Gyda'i anobaith i gyd wynebwn;
Ei ddyrys ingoedd yn ddewr a sangwn,
A llynau dyfnaf ei dwyll nid ofnwn;
Er bloedd byddinoedd annwn,—heb wanhau,
Trwy anhawsderau einioes y torwn.

Ar diroedd chwerwderau,—disyflyd
Yw ei safle'n ddiau;
Ceir ef o hyd yn cryfhau
Yn storom anhawsderau.

Mae'r dderwen fel yn gwenu,
Is tryma ddwrn y storm ddu;
Ei gwreiddiau hir gyrhaeddol
Fwria'n ddwfn i fron y ddol;
A'r dwrn gwyd ar droion gwynt,
Goncwera egni corwynt.

Felly hwn, dan bwn y byd;
Bydd gryf, a beiddgar hefyd
Yn y storm, a'i gynhes dân
Nis gellir losgi allan;
Anhawsderau'n donau dig,
Nid ydynt ond nodedig
Help i hwn i hawlio parch,
Drwy'r gofid ro'ir i'w gyfarch;
Ac os dirmyg ystormydd
A gylcha'i ben, gloewach bydd.

Anichon ei wanychu;—fel afon
Fe lifa mewn gallu;
Mae rhywbeth yn ei dynu—at ei nod,
Heb ddial isod yn beiddio'i laesu.

II.

Dilyner priod linyn—talentau
Helyntus y plentyn;
Hawdd yw dweyd mai nodwedd dyn
Yw grymusgar ymesgyn.

Uchelgais iach, hwyliog sydd—yn rhoi haul
Ar y wers o'r newydd;
Wele ddawn a loewa ddydd
Y gwefredig efrydydd.

Llon y cawn enaid y llanc eneiniol,
O fewn ei wanwyn, yn fwyn awenol
Yn dechreu esgyn o dawch yr ysgol,
I newydd fydoedd ei wŷn ddyfodol;
Tesog wobrwyon tasgau boreuol,
Sy'n gyfarwyddyd swyn gyfareddol
I'w gyndyn allu, gan hudo'n hollol
Ei farn a'i ddeall i fryn addawol;
Gan wres Uchelgais llesol,—ei fron glir
Hwylus gynhesir i losgi'n ysol.

Cyneuol bynciau newydd—a chwilia
Gyda chalon profydd;
Ac yn dreiddiol ymholydd,
Uwchben ei bwnc chwiban bydd.

Ei dôn fyw yw bod yn fawr,
O dan wynfyd yn enfawr;
Trwy yni llwyr tyr yn llon
I glöedig waelodion
Y cwestiwn, tra dring cystudd
Orseddau rhos ei ddwy rudd.

Ni fyn wybod fod blodau—ei wyneb
Dan anadl cystuddiau;
Ond beiddgar ar ei orau,—trwy'r lludded,
Dibrisia dynged heb arswyd angau!

Ar ei geraint rhagora,—
Arno'i hun rhagori wna;
Rhagori yw ei garol
Yn mhob dim, a byd o'i ol
Dan gryndod yn gwrando,—gan godi dadl,
Yn boeth ei anadl beth ddaw o hono.

Afonydd ymofynion,—ar ffodus
Gwrs, yn hyderus, a groesa'n dirion;
Ac ar ei ol, feiddgar wr,—bob hwyrddydd,
Y cawn ei bontydd yn llosgi'n bentwr!

Clod o faes Euclid a fyn ;—ni welwa
    Yn anialwch dychryn ;
Myfyr, wrth hir ymofyn—yn hwyrdrwm,
A bwyntia'i reswm dros " Bont yr Asyn."

  Ymresyma wers amhwyll
  Adre'n deg, a darnia dwyll ;
Hyfrydwch ei fwriadau—di wendid,
Yw llorio Euclid a'i holl oraclau.

Rhuthra i bellder, a thyr y bolltau
Ro'es anwybodaeth ar swyn bywydau ;
Nid swyn i'r galon ond synwyr golau,
A hwn o'i gyrhaedd yw'r addurn gorau ;
Mae uchel antur ei ymchwil yntau
Yn croni addysg a'i haur rinweddau ;
Yn drwm yr â drwy emau,—dan fendith,
A thân athrylith noeth ar ei aeliau !

  Bod yn fawr, cipio'r llawryf,
  Ydyw cred ei enaid cryf ;
A throi'n dal i thronau dysg—dan emol
A gwirioneddol goronau addysg.

Bod yn fawr, tanbeidio'n fwy,—ar gyrau
    Goror anchwiliadwy
Cân a mawl ; ac yno mwy,—i'w ddedwydd
Wybodau'n ebrwydd, daw byd yn wobrwy !

Bod yn fawr, yn gawr gorau,—dyna'i nod,
    Dyna'i nerth i'w dyrau ;
Llawen agora'i enau,—a llais trwm
Ei hyglyw reswm a sigla'r oesau !

  Uchelgais mewn ymgais oedd,
  Drwy fywyd ei yrfäoedd
Yn llawn grym, ac felly'n graff,—sylla'n ol
O ben clasurol binaclau seraph !

Na ddaliwn yn eiddilod,—na feiddiwn
    Feddwl byw'n fabanod;
Gwrthuni a gwarth hynod,—ar ddyogel
Benau goruchel, yw byw'n gorachod.

Mae heddyw rhwng byw a bod,—hynodol
    Annirnadwy ofod;
Wel, trwy y niwl torwn nod,—a'n try'n breiff
Egnïol sereiph o ganol sorod.

Y tynfaen at ei hanfod—a welir
    Yn hawlio ufudd-dod;
  A'r dur erfawr, drwy orfod,
  I'w hawl yn deg wêl yn dod.

Yn aneddau mynyddoedd—mae hanes
    Meini'n fyw o nerthoedd;
  At uniawn gamp tynu'n g'oedd
  Y mae talent meteloedd.

Gan Awdwr teg eneidiau—rhoed enfawr
    Dynfaen ynom ninau;
Yn genad i begynau—bodolaeth,
I flysio toraeth ei felusderau.

  Heb Uchelgais, dyfais dyn
  Gollai asgell i esgyn;
  Collai hoen, collai yni,
  A chryfder ei hyder hi;
  Dyhewyd ei hysbryd äi
  Yn bruddhad, a breuddwydiai
Yn y niwl, dan ddefni nos—drymhäol,
Heb hwyl anogol, heb haul yn agos.

Gŵyr nad oes goron o du seguryd,
A phrisio moethau ni phair esmwythyd;
A thlawd yw cyfoeth huliedig hefyd
I ysbryd awen heb asbri diwyd;

Trysorau dirfawr treiswyr daearfyd,
Yma nis casgla mynwesau cysglyd;
Dorau aur gwybodau'r byd—mewn heddwch,
I gywreingarwch geir yn agoryd.

*Darganfyddiad* ga'i ddechreuad
Mewn egnïad miniog newydd;
Uchelgeisiol allu nerthol
Fu ei wreiddiol gyfarwyddyd;
Dyfeisiadau i'w gorseddau,
Dan goronau dengar anian,—
Ysbryd gwrol, uchelgeisiol,
Eto'n hollol a'u tyn allan.

Dymuniadau amneidiol—a wibiant
Heibio yn drydanol;
Uwch yr änt, a cheir eu hol
Ar wyddonau arddunol.

Gwaedd enaid y gwyddonydd--ydyw gwaedd
Am ddadguddiad newydd;
Dan chwiliaw y daw bob dydd—i'w lwyfan,
Yn brofwr anian, yn brif arweinydd.

Manwl 'hed mewn holiadau,—i freiniol
Gyfrinach elfenau;
Ac oddiar eu cudd ddorau—tyn y llen,
A thrinia fellten a'i tharan folltau!

Gwna ei ëon egnïad—i fudion
Dafodau dideimlad
Ganu; ca'r gwibfellt genad—i'w ysgol,
A'i dasgau siriol a'u dysg i siarad!

Dyledus i'w barchus ben
Yw dynoliaeth,—dwyn heulwen
Dyner wna i danio'r nos
Ar synwyrau sy'n aros;

Uchelgais yn fantais fu
I'w fawr glodydd frig ledu;
Ond i'w wlad, ei glodadwy
Uchelgais fu'n fantais fwy.

Yn swn ymgais o'n hamgylch,
Mae bywiocâd yn mhob cylch;
A phrofir, ar dir, ar dòn,—mai tanbaid,
Arwrol enaid a dry'r olwynion.

Hwn eilwaith, drwy bob niwlen—bruddhäol,
Yw'r haul borëol ar lwybrau awen.

Y bardd awenol obry ddihunwyd,
A'i holl ddylethol alluoedd wlithwyd;
Hwyl yn ei wreiddiol awen a roddwyd,
A'i ddu ddinodedd a weddnewidiwyd;
I'w athrylith yr hawliwyd—clir heol,
A'i gwydn a durol gadwyni dorwyd.

Drwy dlysau a gemau'r gân,—â'n siriol
I'w fawl wybrëol fel boreu huan;
Ei fron deg a wefra'n dân,—nes y del
I gywrain oriel y "Goron arian."

Uchelgais difalais fyn
Fwrw arall farworyn
I'w enaid, nes i hwnw
Ryddhau llais, a rhoddi llw
Y myn ddod, a bod yn ben—gorseddol,
I gadw'r heol i "Gadair" awen.

Iraidd yni barddonol,—ar y daith,
Barai dwf cynyrchiol
O lawenydd adlonol,—prawf fwyniant,
O faes a'i lwyddiant yn fwy sylweddol.

Hyawdl ddiysgog daliodd i esgyn,
Yn fardd deallus i'w fawredd dillyn;
A'i wobrau barodd i bob rhyw boeryn
Ddyferu'n alar ar ddifarn elyn;
Dilyth chwareua'i delyn—yn nghylchoedd
Y buraidd nefoedd mae bardd yn ofyn.

I chwerwi clod ni cha'r cledd—roi ei fin
Ar fardd ar ei orsedd;
Ei enwi fyn gwirionedd,
"Heb noeth arf," yn benaeth hedd.

Pair bloedd parablau "Heddwch"—i'w enaid
Drydanol hyfrydwch;
Tra beirddion yn fflamio'n fflwch—barch calon
I fuddiol goron ei feddylgarwch.

Uchel "Heddwch" i'w lwyddiant,—a heddwch
I'w haeddol ogoniant;
Mellt y nef ymwylltio wnant,—bri newydd
Y bardd a'i glodydd a beraidd gludant.

Diamgen ydyw ymgais,—ac elw
Calon yw Uchelgais;
Herfeiddiwn, a drylliwn drais,
Drwy gymylau drwg malais.

O f'awen! dyma fywyd,
Lona ben a chalon byd.

III.

Trown ddalen: trin ei ddolur—eto gawn,
Brutio'i gwymp a'i dostur;
Siomiant Uchelgais amhur
Gaf yn dwyn gefynau dur.

Mae rhinwedd camarweiniol—yn esgor
Ar gynysgaeth farnol;
A'i gynydd annigonol
A dry'n wawd i'w daro'n ol.

Gwiberog yw y bwriad—ucha 'rioed,
Na cha'r iawn gyfeiriad;
Hawlio bri yn ngoleu brad
Yw camarwain cymeriad.

Nod anheilwng dŷn alar—i'r enaid
Er ei yni beiddgar;
Annuwiol bwynt yn ol bar
Daran dywydd drwy'n daear.

Os yw hunan wasanaeth,—a'i allu'n
Gymhellydd anturiaeth,
Ceir ei serch yn cario saeth
Ddaw'n elyn i ddynoliaeth.

Goruchel gamp Uchelgais
Yn hwn geir yn hunan gais;
A hwnw, wedi'i enyn,
Yw'r difrod sy'n damnio dyn;
O dyrol hunanol nod,—i lygredd
Y cwympa'n buchedd, a'n campau'n bechod.

Mae ei wirfodd gam arfer
Yn dwyn twyll i'n doniau ter;
Ffawd â'n wastraff dinystriol,
A llaw ffydd yn allu ffol;
O ffordd rhin i ffwrdd yr â,—
Nwydau hunan a'i dena;
I'w sylwedd nid oes eilun
Fola fel efe ei hun.

O! ysbryd anwar, O! gulni marwol,
O! hunangariad ac yni gwyrol;

Dirfawr enyniad rhyw fri anianol
Gymer i'w anog yn gam arweiniol;
Y mae rhywbeth mor rheibiol—mewn natur,
Wenwyna gysur yr *hunangeisiol.*

Os mai ceisio mwy cysur
Wna ias poeth Uchelgais pur,
Hunan gais newynog yw,
Ac arswydol groes ydyw;
Gwna bur ddawn, drwy wiriawn wall,
Yn boeth eirias beth arall;
Cain wynder ac uniondeb—bywyd clir
A dry'n anialdir o hunanoldeb.

O gythreulig athrylith,—ni ddaw nodd
A weinydda fendith;
Ffrwyth cyson ei chalon chwith
Ydyw malldod a melldith.

Wele'i banerau'n wlyb o anwiredd,
Yn chwifio'n eglur ar fur oferedd;
Hithau yn dilyn â thân dialedd,
Ei damniol fwriad am wênol fawredd;
Rhwyga dymerau, a gwaed amhuredd
A dasga'n wridog hyd wisg anrhydedd;
Heb aros, gwawdia buredd—wrth esgyn,
Yn ddraig anhydyn, yn ddrwg ei nodwedd.

Cyneuedig honiadau—a basiant
Bwysig wirioneddau
Yn eofn wyllt, i fwynhau
Rhagrithiol ragoriaethau.

O! lofruddiol wefreiddiad,—enbydus
Danbeidiol gyffroad;
Hwyl direol ei droad—a dry chwant
Anuniawn lwyddiant yn hunanladdiad!

Beth yw llong heb waith y llyw ?
Difyr wawd i fôr ydyw:
Beth yw agerdd angerddol,
A dŷn fyd yn hyf o'i ol ?
Tarawydd yn dystrywio,—heb law gwr,
Yn ddewr ar loewddwr i'w reoleiddio.

Halog, sal, Uchelgais sy'
Aidd aflonydd fel hyny ;
Heb rinwedd gwobrau annwn
Ddaw o losg ddeheulaw hwn ;
Tyr bai ar antur bywyd,
Ffiolau barn a phla byd.

Mawr yw yr awydd sydd am orseddau,
Neu ddyrchol fonedd ar uchelfanau ;
Rhyw daran gynar dyr yn eigionau
Ymyrgar enaid am aur goronau ;
Ond o gyfodiad y daw gofidiau
I wib gwerylwr heb gywir hawliau ;
Diaros myn iawnderau—droi'n wrthol
Ei lam dymunol i lwm domenau !

Y mae hiraeth am arian—ac elw ;
Gwylier beth yw'r amcan ;
Trueni dwys a'i try'n dân
I gybydd yn ei gaban.

Os mai cynwys amcanion—dyn o hyd,
Yw dwyn aur dau gloion,—
Mwynhad llwm, neu dwyll a hud,
Ydyw'r golud i'r galon.

Mae golud yn ymgeledd,—a'i gyrhaedd
Yn rhagorol rinwedd ;
Ond try gemau, trwy gamwedd,
O fewn byd, yn feini bedd !

Llawer gwr yn llwyr i'w gol
Dynodd Uchelgais daniol,
I'w fwrw o glodforedd—uchelaf
Ei bwynt rhagoraf heb un trugaredd.

Ar wyneb llwybrau anwir,—ei helaeth
Farwolion a welir;
O dŵr clod, mewn mydrau clir,
Egni damniol gondemnir.

IV.

Uchelgais sanctaidd, iraidd, diwyro,
O burach natur, a barchwn eto;
Ei gwrs addurnir, a'r gras ddaw arno
Sy' leufer moesol i'w fyw rymuso;
Yn wynias pan enyno,—daw'r Dwyfol
I lawr yn ddyddiol arweinydd iddo.

Dyma nwyfiant am nefol—ogoniant,
Ac enw tragwyddol;
Edwyn fwriad anfarwol,—am ffordd rydd
Dros y parwydydd i dir ysprydol.

Y mae tiroedd materol—yn anial
I'w yni sancteiddiol;
Yn wâg a dwfn gad o'i ol
Drwm sorod yr amserol.

Mae nodwedd dymuniadau—enaid dyn
Yn dweyd fod sylweddau
Uwch yn bod, heb gysgodau—daearen,
Na gwelw niwlen i'w gloewon heuliau.

Ei feddwl ni cha'i foddio—heb dyrau
Byd arall i'w dringo;
Ac uwch brad, mewn tecach bro,
Digon enaid gawn yno.

Yn ei fawl, yn wyn ei fyd,—heinyf 'hed
    Drwy hanfodion bywyd;
  Amyneddfawr mewn hawddfyd,
  'Fyny deil i fyn'd o hyd.

Yn ei gylch y ceidw'n gaeth—at olud
    Teilwng o'i fodolaeth;
  Uchderau iachawdwriaeth
  Nef ddi chwŷn a foddia'i chwaeth.

Chwery ar lachar orielau uchod,
O swn daearen a sèn dyhirod;
Ei ddifai lafur ga ddwyfol ofod
I glodydd dedwydd goludoedd Duwdod;
Rhandir ei bererindod—bery'n glir,
A'i gwrs hudolir â gras diwaelod.

  Myn'd am "enw" dymunawl
  Mae'n hwylus, drwy felus fawl;
  Yr enw sydd a'i rinwedd
  Uwch elor byd a chlai'r bedd;
  Truenus ystryw annwn,
  Ni thyr nerth yr enw hwn;
  Didwyll anrhydedd Duwdod,
  A lliwiau glân ei holl glod
  Sy'n blygion o ogoniant,
  Yn rhoi swyn ar enw'r sant;
  Heulog sel uchelgais hwn
  Wêl ar daith oleu'r dwthwn
  Daw'r enaid o dir annuw,
  I'w lawn dwf, mor lân a Duw.

Ni ddaw llygredig ysbryd eiddigedd
A chwerw wenwyn i'w barch a'i rinwedd;
Ni faidd ddarogan greulonaf ddrygedd
I'w fri dihalog a'i hyfrydoledd;
Caiff esgyn, yn wŷn ei wedd,—heb lwchyn,
Na gradd o boeryn gyrhaedda'i buredd.

O! ddwyfol nod, bod yn bur,—bod yn iach,
Bod yn wyn o natur;
A byw'n dal heb un dolur,—rydd gwynion
I hedd helyntion sancteiddiol antur.

Dyma'r nod;—mae'r eneidiau—adwaenant
Hwn yn gwel'd coronau
I wehilion dan heuliau—gogoniant,
A llety mwyniant yn lle "tomenau."

Dyma'r nod;—ymrown i waith,—a gwiriwn
Gariad at y perffaith;
Dyfal deg fo dwyfol daith
Egni gwibiog ein gobaith.

Dyma'r nod;—mae aur y nef—i'w ranu
Mewn cyfriniol dangnef;
Gwrhydrol gewri adref
Geir yn fyw i'w gronfa ef.

Ti, Dduw daionus, sanctaidd dy wenau,
Awdwr a lluniwr yr holl awenau,
Rho imi'r ddwyfol uchelgais olau
A chwilia diroedd yr uchelderau;
Tania f'enaid, tyn finau—i feddiant
O glodus lwyddiant gwlad y sylweddau.

# BLODEU'R FYNWENT.

BLODEU'R Fynwent; blodeu cariad
Ydynt hwy;
A chymdeithion yr amddifad,
Dan ei glwy;
Yn eu swyn, mae'n ymhyfrydu,
Gan eu gwlitho bob yn ail;
A'i glwyfedig serch yn nythu
Rhwng eu dail.

Blodeu'r Fynwent; blodeu tyner
Erw Duw;
A diddanwch ac addfwynder
Yn eu lliw;
Wedi'r cefnu a'r ffarwelio,
Dal i ddweyd mae'r blodeu hyn
Fod rhinweddau yn blodeuo
Yn y glyn.

Blodeu'r Fynwent; harddwch coron
Llawer ffrynd;
Blodeu adgof am angylion
Wedi mynd;
Ymsiriolant ar y beddau,
Ymestynant drwy y chwŷn,
Fel i gyfarch harddach blodeu
Dros y glyn.

Blodeu'r Fynwent; yn nhymhestloedd
Bywyd brau;
Lle mae olion traed canrifoedd
Yn parhau;
Blodeu'n byw yn swn angladdau,
Ar y ffordd i'r byd a ddaw;
Gan addurno gorsedd angau
Ar bob llaw.

Blodeu'r Fynwent; blagur bywyd
Yw y rhain,
Gasglodd hiraeth yn ei adfyd,
Rhwng y drain;
Blodeu'n rhoi dan weddnewidiad
Encilfeydd yr anghof dir,
Gan broffwydo adgyfodiad
Cyn bo hir.

Blodeu'r Fynwent; cof golofnau
Natur fwyn;
Gwell na'r llyfnion gerig beddau
Mwya'u swyn;
Pan y daw yr olaf elyn,
Pan y syrthiwyf dan ei gledd,
Ni ddymunaf ddim ond blodyn
Ar fy medd!

# ANELU AT DDIM, A'I DARO.

MI welais foneddwr a'i ŵn ar ei gefn,
 Yn dringo y mynydd i hela;
A churodd yr eithin a'r grug yn ddi drefn,
 I godi y pryf o'i ymguddfa;
Ei gi yn y rhedyn gyfarthodd yn gryf,
 A'r gŵn yn yr awyr daranodd;
Fe gliriodd y mwg, ond ni welwyd y pryf,
 Anelodd at ddim, ac fe'i t'rawodd.

Mi welais barablwr, a storm yn ei lwnc,
 Yn cymhell ei hun ar y dyrfa;
Rhaiadrai ei ddawn, yn ddiystyr o'r pwnc,
 Fel cenllif cynhyrfus Naiagra;—
'Roedd pawb wedi synu, yn gwrando fel coed
 Ar ymchwydd di bwynt ei ymadrodd;
A chwalodd y dyrfa mor ddwl ag erioed—
 Anelodd at ddim, ac fe'i t'rawodd.

Mi welais ragrithiwr yn gadarn o nerth,
 Yn crwydro hyd feusydd angylion;
Neshäodd yn hyf at Breswylydd y Berth,
 Ac ysbryd y byd yn ei galon;
Amgylchodd y mynydd a'r môr ar ei lin,
 A'i neges yn llwyr a anghofiodd;
Diflanodd ei weddi yn fwg ar ei fin—
 Anelodd at ddim, ac fe'i t'rawodd.

Mi welais henafgwr yn marw yn dlawd,
 Gan deimlo fod bywyd yn fethiant;
A chredai mai tynged a gododd ei frawd
 Mor uchel i fri a gogoniant;
Ni fagodd uchelgais am goron na sedd,
 Diamcan fu'r bywyd a dreuliodd;
A gonest f'ai rhoddi ar gareg ei fedd—
 "Anelodd at ddim, ac fe'i t'rawodd."

# LLEF O'R DYFNDER.

O'M blin siom heb haul na sêr,—am fy Nghraig
Mae fy nghri'n y dyfnder;
Dy ofyn wyf, paid, fy Ner
A difodi fy hyder.

Nid wy'n haeddu dy nodded,—ond dy wg,
A dy wae'n ddiarbed;
Hawlia fy nghalon weled
Cnwd dy gosb, ac nid dy gêd.

Dy fab ydwyf: be wedyn?—am wên serch,
Miniais arf i'th erbyn;
A deddf dda dy gariad gwyn
A dorais fel dyhiryn.

Trugaredd yw fy ngweddi,—a griddfan
Mae'm greddfau am dani;
O! tyred mewn tosturi,
Cei fwy o fawl, cofia fi.

Ofnadwy bla f'enaid blin,—ddyfnhäodd
Fy niwed yn erwin;
Rho dy ras a'i hyfryd rin,
Er fy nàl ar fy neulin.

Er gwaeled wyf, erglyw Di—ar f'enaid
Erfyniol yn gwaeddi;
Uwch angen a thrueni,
Drwy boen y farn, derbyn fi.

Os âf yn is, O! fy Nhad,—wedi'r briw,
Dyro brawf o'th gariad;
Yna ni ddaw gwahaniad,
Na dim yn ol ond mwynhad.

## TARO'I FAM.

DAETH adref, liw nos, a'i dymherau yn fflam,
Fe gododd ei ddwrn, a tharawodd ei fam;
Dibrisiodd ei chariad,
Fe'i clwyfodd yn flin;
A'i galon ddideimlad
Yn rhêg ar ei fin;
Aeth allan i ddyfnder y nos yn ei wg,
A serch yn ei ddagrau'n anghofio ei ddrwg.

Fe'i dysgwyd yn fore, yn ymyl ei gryd,
Fod parch i rieni'n darostwng y byd;
Ond buan y tyfodd
Yn anhawdd ei drin;
A'r gwersi a foddodd
Mewn gwagedd a gwin;
Llofruddiodd gynghorion, yn gyndyn a chroes,
A'i gyflwr di lwydd yn waradwydd i'r oes.

Dilynodd oferedd yn wyllt ac yn ffol,
A melldith y nefoedd o hyd ar ei ol;
Anffodion a'i daliodd,
Yn druan ei wedd;
A gwae a'i dilynodd,
A mîn ar ei gledd;
A thystiai trueni cymeriad mor gam,
Fod Barnwr y weddw yn cofio y fam.

O gamwedd i gamwedd ymlwybro y bu,
A heintiau'n ymledu o fywyd mor ddu;
Gwastraffodd flynyddoedd
Yn aflan ei lun,
Ar lwybrau di nefoedd,
Heb barch iddo'i hun;
A'r llanc a darawodd ei fam yn ei fîr
Ddiweddodd ei ddyddiau ar grogbren y sir.

# NID Y WISG SY'N GWNEUD Y DYN.

Os yw amgylchiadau'n chwerw,
  Ac yn cymhell gwg a gwawd,
Hyfryd yw'r gwirionedd hwnw—
  Nid yw'n bechod bod yn dlawd;
Mae dynoliaeth yn y bwthyn
  Ac ar orsedd aur yr un;
Brawd y brenin yw'r cardotyn—
  Nid y wisg sy'n gwneud y dyn.

Gwelwyd pagan uchelfrydig
  Yn dirmygu'r tlawd o draw;
Galwyd hwnw'n ŵr boneddig,
  Am fod modrwy ar ei law;
Credai fod rhinweddau'r ddaear
  Wrth ei ysbryd coeg yn nglŷn;
Ond bu farw yn y carchar—
  Nid y wisg sy'n gwneud y dyn.

Y mae gemau yn guddiedig
  Yn y creigiau mwyaf llwm;
Ac mae golud anweledig
  Dan yr ysgall yn y cwm;
Os yw'r wyneb yn ddi swynion,
  Os yw'r corff yn wael ei lun,
Gall fod nefoedd yn y galon—
  Nid y wisg sy'n gwneud y dyn.

Dirmygedig yw'r hunanol,
  Er ei holl fawrhydi sych;
Nid oes neb a all ei ganmol
  Ond drychiolaeth yn y drych;
Balchder yw ei deyrnwialen,
  A theyrnasa arno'i hun;
Ysgrifener ar ei dalcen—
  Nid y wisg sy'n gwneud y dyn.

Gellir gwỳnu cerig beddau,
Ac addurno'r garw faen;
Ond yn nyffryn cysgod angau,
Bedd fydd yno, fel o'r blaen;
Gellir gwisgo mewn sidanau
Symudliwiog bob yr un;
Tra mae'r ysbryd yn ei garpiau—
Nid y wisg sy'n gwneud y dyn.

Ganwyd Brenin y brenhinoedd
Mewn ystafell ddigon tlawd;
Diystyrwyd ei flynyddoedd
Gan benaethiaid gwell eu ffawd;
Ond fe dyfodd yn Waredwr,
Ac yn Gyfaill byth a lŷn;
A chyhoeddwyd gan ei fradwr—
Nad y wisg sy'n gwneud y dyn.

# BLODEUYN SERCH.

Ar ei gyrfa
Dros y gamfa,
Llamai geneth ddeunaw oed ;
A diystyr
Oedd o wewyr
Hardd flodeuyn dan ei throed ;
Gwelai feillion
Tyner galon
Hyd y cae yn tyfu'n frith ;
A'r briallu'n
Ymgusanu
Ar y cloddiau yn y gwlith.

Cyn i awel
Hwyr yn dawel
Süo cwsg i flodau'r ddol,
Gwelwyd Mena
At y gamfa
Drwy y cae yn dod yn ol ;
Sangodd wedyn
Ar y blodyn
Dyfai yn y cysgod cudd ;
Ac o'i gwirfodd
Fe'i gadawodd
Yn ei waed i farw'n brudd.

Dysgwyl Mena,
Wrth y gamfa,
Y bu cariad wrtho'i hun ;
A phryderon
Yn ei galon
Am addurno bron y fun ;
Ond y blodyn
Diamddiffyn
Greulon fathrwyd wedi hyn ;
Ac ar foreu
Sul y Blodeu,
Torwyd bedd i Hywel Wyn.

# GAD Y BYD YN WELL O'TH OL.

Ti, bererin, sydd a'r dwyfol
  Wrth dy ysbryd mawr yn nglŷn,
Gwylia ar dy droed yn nghanol
Amgylchiadau cyfnewidiol,
  Sylweddola fawredd dyn;
Paid anghofio'th gyfrifoldeb,
  Fel anifail ar y ddol;
Ar dy daith i dragwyddoldeb
  Gâd y byd yn well o'th ol.

Wrth aredig dy flynyddau,
  Gochel efrau, gwrthod chwŷn;
Gwasgar o dy gwmpas hadau
Fydd mewn anfarwoldeb golau,
  Yn addfedu'n wenith gwyn;
Mewn daioni bydd yn ddiwyd,
  Gyda bron a genau glan;
Ar gyfandir eang bywyd,
  Gwylia dyfu defnydd tân.

Ymwrola wedi cychwyn,
  Gwna'th ddyledswydd gyda graen;
Ar dy dynged paid ag achwyn,
Dyro'th ysgwydd wrth yr olwyn
  I ysgogi'r byd yn mlaen;
Paid a byw yn feudwy segur,
  Nac yn gybydd llwm di lun;
Trosedd ar iawnderau natur
  Ydyw byw i ti dy hun.

Edrych ar y pren afalau
  Yn yr ardd ar fore Mai;
Gwisga'n hardd ei goron flodau,
Lleinw'r fro a pheraroglau,
  Ac nid yw ei swyn yn llai;
Mae ei galon yn ei flodau,
  A chyfranu wna o hyd;
Ac yn adeg casglu ffrwythau
  Dyry wledd ar fwrdd y byd.

Welaist ti yr haul yn codi
  Fore Hefin dros y bryn,
Gan roi lliwiau ei oleuni
Ar yr rhos ac ar y lili,
  Yn unigedd mud y glyn ?
Gyda'r hwyr, dros frig y bànau,
  Tua'r gorwel pan y trydd,
Ar ei ol y cysga'r blodau,
  A'u calonau'n llawn o ddydd.

Wyt ti'n cofio taflu careg
  I'r pysgodlyn ar y waen ?
Gwelaist ar y dyfroedd llyfndeg
Gylch-fodrwyau llawer gwaneg,
  Yn ymledu yn y blaen ;
Nerthol ysgogiadau'th fywyd,
  Heb i'th galon dybio hyn,
Dónant wyneb ysbrydolfyd,
  Fel y gareg yn y llyn.

Nid yw gweithred byth yn marw,
  Fe wnai hyny'r byd yn dlawd;
Bydded felus, bydded chwerw,
Ymeanga yn ddi dwrw,
  Fel y lefain yn y blawd;
Ymddygiadau ac arferion,
  Yn waradwydd neu yn glod,
A anedlir yn awelon
  Cenedlaethau sydd i ddod.

Dyro bris ar dy gymeriad,
  Cadw'th wisg o hyd yn lân ;
I dy fywyd rho gyfeiriad,
A gorchfyged dy ddylanwad
  Ffrydiau dwr, a fflamau tân ;
Cadw'th lygad ar sylweddau,
  Paid a byw ar wagedd ffol;
A phan groesi afon angau,
  Gad y byd yn well o'th ol.

# LLYGAD Y DYDD.

FLODEUYN Ebrill, wyned yw dy bryd,
Eiryog wynder yn cynhesu'r byd.

Ti weli'r gaua'n marw wrth dy ddor,
A'i rew yn ffoi fel euog tua'r môr.

Dirodres ydwyt yn dy symledd hardd,
A'th lygad tlws yn troi y ddol yn ardd.

Mae hâf obeithion yn dy galon gudd,
A swyngyfaredd cariad ar dy rudd.

Wyt gariad haul, ac wrth ei ddilyn ef,
Cynefin ydwyt â rhodfeydd y nef.

Ei ddelw gedwir ar dy fron ddi lyth,
Ac ni chei ddigon ar ei wenau byth.

Drwy flodeu gerddi'r wawr, prysuro fyn
At arall sy'n ei ddysgwyl yn y glyn.

Llama dros fryniau yn ei harddaf fri,
A chwyd yn foreuach i dy garu di.

Tynu y mae dy fywyd ato 'i hun,
Ac yn dy ddeigryn glân y gwêl ei lun.

Dy serch y dydd sydd ar ei belydr ter,
A'th freuddwyd nos am ei gusanau pêr.

Pan gysgi'r hwyr yn esmwyth ar dy ddail,
Dy lygad bychan sydd a'i lon'd o haul.

Os claf o gariad wyt flodeuyn bach,
Y clefyd hwnw sy'n dy gadw'n iach.

# LLOFRUDD Y FWYALCHEN.

Brydnawn ar ol y gawod,
  Ac Ebrill yn y llwyn,
Ar bren afalau yn yr ardd,
  Mwyalchen ganai'n fwyn;
Tu draw i'r clawdd cauedig,
  O fewn celynen werdd,
'Roedd teulu bychan lond y nyth
  Yn ddyfal ddysgu'r gerdd.

Ond daeth adarwr heibio,
  A thaniodd oddi draw
At ddiniweidrwydd ganai'n bêr,
  Am heulwen wedi gwlaw;
Oddiar y pren blodeuog,
  Ar haner cân mor ddrud,
Disgynai'r cerddor yn ei waed,
  A'i delyn aur yn fud.

O! lofrudd di beroriaeth,
  O! fradwr di leshad;
A difrod i ganiadau'r wig
  I'w galon yn foddhad;
Ni feiai nef na daear,
  Pe cadwai natur lan
Am byth o lwyni bywyd hwn,
  Delynau mawl a chân.

Cyn gweled gwanwyn arall,
  Bu farw'r heliwr ffol;
A theulu mawr heb groesi'r nyth
  Mewn angen ar ei ol;
Gauafol oedd y boreu,
  A'r storm yn duo'r nef;
Ac nid oedd angel yn y coed
  Ar ddydd ei angladd ef.

# Y LLONG AETH I LAWR.

Fe godwyd yr angor, cychwynwyd i ffwrdd,
Gadawyd y glanau a chân ar y bwrdd;
A'r llong yn yr awel a hedd yn ei bron,
A nofiai fel gwylan ar wyneb y don;
Yn llewyrch y dydd ac yn ngoleu y sêr,
Anadlai y môr ar yr awel yn bêr;
A phawb yn breuddwydio heb helbul na stwr,
Am gilfach a glàn y tu arall i'r dwr.

Ond draw ar y cefnfor, newidiodd yr hin,
Daeth cwmwl i'r golwg a gwae ar ei fin;
Gollyngodd daranau ei galon yn rhydd,
A thaflodd dywyllwch dros wyneb y dydd;
Fel ysbryd dialedd agorai ei ddor,
A llamai y mellt i ryfelgyrch y môr;
Taranfollt ddilynai daranfollt i'r hynt,
A difrod yn marchog adenydd y gwynt.

O amgylch y llong, dacw'r nerthoedd yn cwrdd,
A moryn ar foryn yn esgyn i'r bwrdd;
Mae'r cychod yn gandryll, a'r hwylbren yn ddellt,
A brigau y tònau ar dân gan y mellt;
Mae angau'n y golwg ar ewyn y dòn
A'r llongyn ymddatod yn friw ger ei fron;
Mae'n suddo i'r dyfnder yn druan ei gwedd,
A brigwyn fynyddoedd y storm ar ei bedd!

Mae tyddyn ar glogwyn y graig wrth y môr,
A chariad yn gomedd rhoi clo ar ei ddor;
Wrth dremio i'r gorwel, ni wybydd y wraig
Fod teulu amddifad yn awr ar y graig;
Mae'r eigion yn cysgu, a'i dònau'n gytun,
A'r stormydd yn mynwes y fam ar ddi hun;
Aeth bywyd yn nos, ac ni thorodd y wawr
Ar hanes trychineb y llong aeth i lawr.

# PAHAM Y BYDDI FARW?

Bu diniweidrwydd yn y nos,
  A'i delyn yn ddi dànau;
Ac ar ei erddi llawn o ros
  Disgynodd llwydrew angau;
Ond cododd Haul ar fywyd chwith,
  A throdd goleuni hwnw
Y barug oer yn hyfryd wlith,
  Paham y byddi farw?

Er iti dynu gwg dy Iôr,
  A phrofi ei wialen,
Mae manna'r nefoedd wrth dy ddôr,
  Yn ddigon at dy angen;
Os yw'r gwahanglwyf di lanhad,
  Yn troi dy fyd yn chwerw;
Mae Meddyg enaid yn y wlad,
  Paham y byddi farw?

Bu dan dy draed rinweddau lu,
  Yn dioddef ac yn griddfan;
A megaist yn dy galon ddu
  Gydwybod llofrudd aflan;
Os yw'r dialydd ar y waen,
  Ac am dy waed yn galw,
Mae dinas noddfa o dy flaen,
  Paham y byddi farw?

Os yn y rhyfel wyt o hyd
  Yn nod i saethau tanllyd,
A holl gynddaredd cnawd a byd
  Yn cynllwyn am dy fywyd,
Dal ati'n wrol yn y llaid,
  A chadw'th gledd yn loew;
Mae dwyfol Darian o dy blaid,
  Paham y byddi farw?

# Y DEIGRYN HWNW.

DROS rudd fy nhad, pan ar ei lin,
Ac ar ei Dduw yn galw,
A'r geiriau'n crynu ar ei fin,
Y treiglai'r deigryn hwnw.

Fy enw yn ei weddi lawn
Ddilynwyd gan ochenaid;
A thystiai ei doddedig ddawn
Mor ddrylliog oedd ei enaid.

Dyweded byd y peth a fŷn,
Mi gredaf hyd fy marw,
Fod yn ei ymyl angel gwŷn,
Yn gwylio'r deigryn hwnw.

Mae'r weddi'n aros yn fy nghlyw,
A'i thaerni yn fy nilyn;
A bwa hedd cyfamod Duw
A gofiaf yn y deigryn.

Felused ydyw y coffhad
O'r pryder am fy nghadw;
Mi welais galon fawr fy nhad
Ar lif y deigryn hwnw.

Mae'r hen weddïwr yn y nef,
Heb ddeigryn yn ei lygad;
A deigryn am ei ddilyn ef,
Ar rudd ei fab amddifad.

Pan fŷn fy nghalon groesi'r ffin,
Ar ol twyllodrus elw,
Arafaf; plygaf ar fy nghlin,
Wrth gofio'r deigryn hwnw.

# Y PRYDYDD SIOMEDIG.

Mor hawdd cydymdeimlo â'r prydydd siomedig,
Ni welodd Ceridwen ei fath yn y byd;
Mae'n treulio ei fywyd yn galon doredig,
Wrth gynyg am wobrau, a cholli o hyd;
Dewisodd ei feirniaid, cynygiodd destynau,
Cyfrifodd y cywion cyn dëor yr un;
Er hyny ni chafodd, er tynu'r llinynau,
Ond clonewy yn ol ar ei lawes ei hun.

Astudiodd yn galed reolau barddoniaeth,
Nes curiodd ei wyneb yn llwyd ac yn fain;
Agorodd ei lygaid ar feusydd athroniaeth,
A gwelodd friallu yn tyfu ar ddrain;
Fe brynodd fwyadur i'w awen fasweddol,
I weled pelydrau yr haul ar y gwlith;
Ond d'wedwyd o'r llwyfan yn swta ryfeddol,
Fod pen y mwyadur, fel yntau, o chwith.

Ei galon a roddodd ar enill gorseddau,
A'r byd i'w amddiffyn, a'i law ar y cledd;
Dysgwyliai, yn mlaen, i glogwyni'r llechweddau
Ddylamu yn swn y daranfloedd o "hedd;"
Ond llonydd yw'r creigiau, a'u mawl yn glöedig,
Yn dysgwyl y gân sydd i siglo y byd;
A chwynion aflafar y prydydd siomedig
Yn disgyn yn drwm ar eu calon o hyd.

Bu wrthi flynyddoedd uwchben y gynghanedd,
A chwysodd afonydd mewn llafur a gwres;
Erioed ni feddyliodd am gwrdd â chelanedd
Ar lwybrau blodeuog y clodydd a'r pres;
Ni welodd y byd y fath newydd blethiadau,
Hedegog feddyliau, yn wreiddiol bob un;
Ond tystiai y beirniaid fod baich y syniadau
Yn hynach flynyddoedd nag Adda ei hun.

Fel arfer, anturiodd i'r maes am y Goron,
  Er hyny, fel arfer, siomedig a fu ;
Fe lanwodd ei ganiad â bresych a moron,
  Ac ambell geninen o ardd ei dadcu ;
Ai'n fynych i ffenestr y gemydd yn llawen
  I weled ei dorch yn dysgleirio'n ddilen ;
Ond aros mae cwmwl o hyd ar ei awen,
  A siom yn rhoi coron o ddrain ar ei ben.

Pan brynodd y rhaglen yn gynar y llynedd,
  Goleuodd ei wyneb, cynhesodd ei waed ;
Meddyliodd am flwyddyn o drethu amynedd,
  Yn llawn ysbrydoliaeth o'i ben hyd ei draed ;
Gollyngodd ei grebwyll yn rhydd i'r uchelion,
  I gasglu syniadau dychrynllyd o gall ;
Ond tanbaid oleuni rhyw ddieithr orwelion
  Darawodd y beirniaid yn ddwl ac yn ddall.

Er dringo yn uchel i fyd y planedau,
  A'r haul yn y pellder i lawr dan ei droed ;
Er clymu ei awen wrth gynffon comedau,
  A theithio trwy niwl na oleuwyd erioed ;
Oferedd fu'r cwbl, er maint y cyflymdra,
  A ffodus ysbeilio y bydoedd bob un ;
Fe fynai y beirniaid mai cynyrch diddymdra
  A gasglodd y prydydd i'w fasged ei hun.

Eiddigedd i gyd sydd wrth wraidd ei anffodion,
  Cenfigen yn erbyn athrylith mor fawr ;
Athrylith na welwyd erioed ei gwaelodion,
  Am hyny mae pawb am ei gadw i lawr ;
Pe na byddai rhagfarn ar fyd yn teyrnasu,
  Edmygid yr awdwr, bendithid ei ddydd ;
A gwelid fod meusydd ei awen yn glasu,
  A'i lwyni yn "wiwlwys," a'i flodau yn "flydd."

Digalon i'r prydydd yw dal i gystadlu,
  A rhedeg hyd farw am enw a chlod ;
Ac eraill, didalent, mor hawdd ag anadlu
  O'i flaen yn finteioedd yn cyrhaedd y nod ;

Er nad yw ei obaith yn cael ei ddiwallu,
  Nid ofer i gyd yw ei lafur a'i sêl;
Os nad yw ei oes yn cydnabod ei allu,
  Mae'r dyn yn barddoni i'r oesau a ddel.

Anfonodd i'r frawdle ei eilun diweddaf,
  A'i wyneb yn welw, a'i goryn yn foel;
Ac arno disgynodd y barnau rhyfeddaf,
  Mae heddyw mewn amdo, mor farw a hoel;
Dal ati i gwyno, ac uchel barablu,
  Bydd hyny yn olew a balm i dy glwy;
Os na chei wobrwyon, cei'r pleser o gablu,
  A dyna'r clod uchaf i fardd ar y plwy.

## ESAIAH NID YW MWY.

Tua'r fynwent, unwaith eto,
  Awen glaf a dry yn syn;
Ni cha glaswellt byth flaguro
  Ar y llwybrau duon hyn;
Llwybrau gofid, llwybrau galar,
  Prin o haul, a llwm o wlith;
Llwybrau pererinion daear,
  A'r dialydd yn eu plith.

Gwelais haul yn dringo'r wybren
  Drwy y cymyl hardda 'rioed;
Gwelais fywyd llawn o awen,
  Fel y gwanwyn yn y coed;
Cododd haul yn uwch i fyny,
  Ciliodd gwrid y cymyl glân;
Gwelais hydref wedi hyny
  Yn y dail fu'n cymhell cân.

Metha cariad gredu'r syniad
  Na cheir gwel'd Esaiah mwy;
Er fod deigryn yn y llygad,
  Er fod calon dan ei chlwy;
Pwy all feio serch am wibio
  At y bedd i guro'r ddor?
Beier ar y dòn am lifo
  Yn hiraethus tua'r môr.

Cadw'n lân ei ddysglaer enw
  Wnaeth Esaiah ar ei daith;
Fel yr hen Esaiah hwnw
  Gododd Duw i'w sanctaidd waith;
Dal o du gwirionedd golau,
  Sydd a bywyd wrtho'n nglyn,
Gan gyflawni dyledswyddau
  Sydd yn urddasoli dyn.

Addfwyn gyfaill, fel yr Iesu,
  Gostyngedig, isel fryd;
A'i alluoedd yn cyd-dynu
  Tuag at ragorach byd;
Cymdeithasai ag angylion,
  Ar ei ffordd i ddinas Duw;
A chadd nefoedd yn ei galon,
  Cyn ei ddwyn i'r nef i fyw.

Ymogelai rhag ymylon
  Llwybrau geirwon gwarth a chur;
Ac fe rodiai ar ei union
  Ganol ffordd dyledswydd bur;
Ysbryd cadarn, gwrolfrydig,
  A chymeriad di-ystaen;
Ac yn Gristion eneiniedig,
  Tua'r nef yn brysio'n mlaen.

Cryf a chyflym ei alluoedd,
  Gras a'i cadwai'n fyw o hyd;
A rhy lawn o fywyd ydoedd
  I barhau mewn anial fyd;
Ieuanc oedd yn ceisio esgyn
  At ogoniant uwch yn syth;
A diangodd dros y terfyn,
  I barhau yn ieuanc byth.

Hoffai ddringo mynydd Seion,
  Ar ei ben dymunai fyw,
I gael profi'r hen awelon
  Gyda'r saint a chyda Duw;
Byddai yno yn ei elfen
  Ar y canu'n rhoddi blas;
Ac yn ddiwyd fel gwenynen,
  Sugnai fêl o flodeu gras.

Yr oedd canu lon'd ei ysbryd,
  Cafodd lawer yn ei ddydd;
Swn ei lais a roddai fywyd
  Yn addoliad teulu'r ffydd;

Canai ef nes cymhell deigryn
  Dystaw dros y rudd i lawr,
Ac ni flinai byth ar destyn
  Salmau plant y cystudd mawr.

B'le mae'r dyner gân a gollwyd ?
  Yw gofyniad llawer clwy ;
Yn y côr, ac ar yr aelwyd,
  Swn y gân ni chlywir mwy ;
Ond os llonydd yw y delyn
  Ar yr helyg prudd islaw,
Clywir swn caniadau'n disgyn
  Dros fynyddau'r byd a ddaw.

Nid yw angau'n rhoddi terfyn
  Ar gerddoriaeth natur dyn ;
Ni ddystewir byth y nodyn
  Sydd a Cheidwad wrtho'n nglyn ;
Nefoedd ysbryd fydd anthemau
  Am y Groes a'r trysor drud,
Ac fe gân pan fyddo angau
  Yn ei fedd yn fythol fud.

Gwyn dy fyd Esaiah anwyl,
  Treiddia gwynfyd trwy dy fedd ;
Mae ein gobaith ninau'n dysgwyl
  Dod i gylch dy fythol hedd ;
Anhawdd ydyw peidio wylo,
  Llawn yw'n galar gwmwl ni ;
Ac mae'n felus cael eneinio
  Blodeu'th goffadwriaeth di.

# HAFOD Y GLYN.

HEN gartre bugeiliaid oedd Hafod y Glyn,
A'i fargod yn isel, a'i wyneb yn wyn;
A'r haul drwy ei gulion ffenestri di staen,
Yn gweled ei ddelw
Yn nglendid tryloew
Hen ddodrefn o dderw o'r oesoedd o'r blaen.

Digonedd a chroesaw oedd yno'n gytun,
A chariad yn ben ar ei aelwyd ei hun;
Cynefin a'i drothwy oedd pawb dan ei bwn,
A gwyddai'r ebolion
Mor wir a'r trigolion,
Mai llety fforddolion y wlad ydoedd hwn.

Ni thorai y wawrddydd ar Hafod y Glyn,
Na fyddai'r bugeiliaid yn mhell ar y bryn,
Yn yfed awelon yr eithin a'r grug;
Hen gewri'r mynyddoedd,
A blâs ar eu gwleddoedd
O lymru a llefrith, o haidd ac o rug.

Felused yn myd y tawelwch oedd swn
Brefiadau y defaid, a chyfarth y cwn;
Yn dod o'r mynyddoedd i lawr at y rhyd
I wyliau diflino
Y golchi a'r cneifio,
Yn mhell o fursendod a rhodres y byd.

Blodeuai hawddgarwch ar fywyd yn llawn,
Yn arogl y mynydd, y buarth, a'r mawn;
Wrth edrych yn ol i'r encilion yn syn,
Dibrisiwn goronau
Am dawel gorlanau,
A chartre'r bugeiliaid yn Hafod y Glyn.

# "YR HEN AWELON."

Bu'r gauaf oer yn oedi'n hir
  Ar feusydd hoff yr Iesu;
Ymledai barug dros y tir,
  A'r had yn gomedd tyfu;
Ond gwanwyn ddaeth a newydd gân
  Dros fryniau'r addewidion;
Ac ysgwyd mae yr egin glân
  O flaen yr hen awelon.

    Torodd y wawr, a'r Haul sydd yn awr,
      Yn codi ar fynydd Seion;
    Nefol yw'r hin, a melus yw min
      Adfywiol, yr hen awelon.

Ar feusydd Iesu bywyd sydd
  Yn dystaw adgyfodi;
A'r barug oer yn ngwres y dydd,
  A welir yn meirioli;
Mae cymyl gras yn gwlawio'n fyw
  Gawodydd o fendithion;
A pheraroglau gerddi Duw
  Yn llwytho'r hen awelon.

Yn wyneb llawer storom ddu,
  Nid ofer fu'r braenaru;
Y llafur dros ei enw cu,
  A gofir gan yr Iesu;
Cynhauaf gwyn ei feusydd Ef,
  A fedir gan angylion;
A llenwir holl ydlanau'r nef,
  Yn swn yr hen awelon.

    Torodd y wawr, a'r Haul sydd yn awr,
      Yn codi ar fynydd Seion;
    Nefol yw'r hin, a melus yw min
      Adfywiol, yr hen awelon.

# DAN YR YWEN GANOL NOS.

Yr oedd y byd yn cysgu,
  Pan welwyd gwyryf dlos,
I'r fynwent yn dynesu,
Fel angel wedi drysu
    Ganol nos.

Mewn hiraeth a phryderon,
  A'i natur yn llesghau,
Anturiai i'r cysgodion,
A beddrod yn ei chalon
    Heb ei gau.

Daweled oedd yr oriau,
  O dan yr Ywen ddu:
A dim ond cerig beddau
Fel mudion ddrychiolaethau
    O bob tu.

Gwrandawai sü'r awelon,
  Yn nüon ddail y pren;
A chredai fod angylion,
Yn cymhell eu cysuron
    Uwch ei phen.

Fe dorai'r nos i wylo,
  Ar flodeu'r fynwent brudd;
Tra'i chariad hithau'n gwlitho
Rhosynau wedi gwywo
    Ar ei grudd.

Tywynodd bore'n fwyndeg
  Drwy frig yr Ywen gam;
I weld y wyryf landeg,
A'i hysbryd wedi hedeg
    At ei mam!

# YR HEN BWERAU.

AR Fynydd Seion bu y nos yn hir,
Fel cysgod barn ar gysegredig dir;
Y palmwydd wylent am belydrau'r haul,
A llwydrew'r byd yn disgyn ar eu dail;
Fry ymestynent tua'r nef yn syn,
Gan ddysgwyl awel o Galfaria fryn;
A'r dwyfol addewidion ar eu brig
Yn gomedd canu yn y gauaf dig;
Prin oedd y ddaear o aroglau per,
Prin oedd y nef o gyfarwyddol ser;
A chlywyd swn gweddiau yn y nos,
Yn ymbalfalu yn y niwl,
Dros lawer craig a ffos.

Ond torodd gwawr, a gogoneddus yw,
Gwawr o oleuni Presenoldeb Duw;
Gwawr dydd difachlud o'r ysbrydol fyd,
Shecina nefol yn fwynhad i gyd;
Mae'r nos yn ffoi oddiar yr egin grawn,
A'r llwydrew'n toddi'n ddagrau melus iawn.
Daeth gwanwyn grasol yn ei wres a'i gynydd
A thyf rhosynau gras ar fywyd newydd;
Ac ar y bànau llawenha angylion
Fod peraroglau gerddi Duw
Yn llwytho'r "hen awelon."

Cymylau bendith yr addewid fawr
Ddyhidlant yn gawodydd trwm i lawr;
Cymylau gras wybreni'r byd a ddaw,
Ac iachawdwriaeth yn y dafnau gwlaw;
Cawodydd cariad heb daranau ynddynt,
Cawodydd hedd heb fellt yn dod o honynt;
Er dal i dywallt, ni raid ofni difrod,
Mae llewyrch y Tragwyddol Haul
Yn fwa yn y gawod.

Telynau Duw, oddiar yr helyg dystaw
    I lawr a dynir;
A'r tànau mudion dan anghelfydd ddwylaw
    A ysbrydolir;
Os bu awenau Seion yn breuddwydio
Wrth droed y bryn, ac Ysbryd Duw'n ymguddio,
Mae'r telynorion yn deffroi o gysgu,
Ac ni anghofiodd eu deheulaw ganu;
Machluda'r haul yn swn y salmau per,
A'r hwyl ni dderfydd pan fachluda'r ser;
A thant a gwyd gymanfa ar ei thraed,
Yw'r tant a luniwyd yn y "dwyfol waed."

Pell yw y byd, ac agos yw y wynfa,
A theimlir Duw'n ymsymud drwy y dyrfa;
Na feied neb danbeidrwydd y gorhoian,
Mae dyn yn ymyl Duw'n anghofio'i hunan;
Hawdd ydyw canu wedi gwel'd ymwared,
A chanu drws y nefoedd yn agored;
Hir fydd y sain yn nghreigiau y mynyddoedd—
Yr hyfryd sain am "gariad fel y moroedd."

Mae'r "Hen Bwerau" eto yn y wlad,
Pwerau cariad a maddeuant rhad;
Yn plygu'r byd yn dyner ar ei lin,
A'r sanctaidd dân yn llosgi ar ei fin;
Mae creigiau'n symud ac yn toddi'n llyn,
A "Gwaed y Groes" yn troi y du yn wyn;
A gwelir ffydd fu yn y storm cyhyd,
A'i breichiau'n nghlwm am wddf Gwaredwr byd.

Watwarwyr Seion; croesaw i chwi ofyn
"Pa beth yw hyn?" Ni fu amgenach testyn
I ymholiadau daear. Ond paham
Y d'wedwch, a'ch calonau dig yn fflam,
Mai llawn o felus win yw'r hapus dyrfa,
Sy'n canu ac yn dawnsio am ddiangfa?
Gwir yw y gair ddyferodd dros eich gwefus,
Gwir a fwriadwyd yn sarhad cableddus;

Llawn o win ydynt; ie, gwin bendigaid,
Ond nid y gwinoedd sydd yn damnio enaid;
Hedd winoedd Duw, a'u blas yn felus odiaeth,
Diodydd gras o winwydd iachawdwriaeth.

"Pa beth yw hyn?"
Ond buddugoliaeth Arwr Pen y Bryn
Yn troi yn ol ar ei elynion beiddgar,
Yn dryllio cloion eu cauedig garchar;
A'r carcharorion yn dod adre'n fyw,
I ryddid gogoneddus meibion Duw;
Yr "Hen Bwerau" ar y byd yn tori,
Gan ysgwyd caerau annwn i'w sylfeini.

Mae swn cableddau oedd yn ddychryn gwlad,
Yn troi'n anthemau bythol eu parhad;
Ac hudoliaethau gwagedd a ffolineb
Yn gado'r maes i swynion anfarwoldeb;
Pa le mae'r Temtiwr? Mae ei demlau'n weigion,
Dianga'n hurt, a phryder yn ei galon;
Edrycha'n ol drwy holltau craig ei guddfan,
A'r "Hen Bwerau" yn ei herio allan;
Mae'r saethau tân oddiar ei fwa creulon
Yn diffodd ar darianau'r gwaredigion;
A hen adnodau oeddynt bron yn angho',
Fel cawod o fynyddau'n disgyn arno.

O! Sanctaidd Ysbryd; paid a brysio ymaith,
Dy bresenoldeb yw ein cân a'n gobaith;
Rho brawf helaethach o dy ddwyfol ddoniau,
Mae'r byd yn hoffi swn dy lais,
Yn storm yr "Hen Bwerau."

# PA BETH YW DYN?

Pa beth yw dyn? Ardderchog raglaw'r Iôr,
A gwawr y dwyfol ar ei wyneb pryd;
Llys-genad hedd a chariad, cyn i fôr
Digofaint ruo ar geulanau'r byd;
Mae ynddo adgof bywyd di ystaen,
Cynefin â rhodfeydd y byd a ddaw;
Pan groesai dros y ffin yn ol a blaen,
Ac agoriadau'r nefoedd yn ei law.

Pa beth yw dyn? Tywysog yn y llaid,
Afradlon feudwy o druenus lun;
A dim ond coll ysbrydion iddo'n blaid,
Yn hogi'i gleddyf, ac yn clwyfo'i hun;
Urddasol fod, o'r godidocaf ryw,
Ar diroedd ing yn gorwedd yn ei waed;
Rhy gryf i farw, ac yn blino byw,
A'i goron yn y llwch o dan ei draed.

Pa beth yw dyn? Etifedd gras y nef,
Er gwrthryfela'n gyndyn ac yn ffol;
Mae gorsedd cariad yn ei aros ef,
A'i Dad yn galw'n dyner ar ei ol;
Rhy ogoneddus yw i fyw dan wawd,
Rhy ddrud i'w ollwng dros y dibyn pell;
Fe wariodd Duw ei gyfoeth nes yn dlawd
I brynu iddo etifeddiaeth well.

## TREM YN OL.

WEDI celyd frwydrau bywyd,
  A rhoi bryd ar bethau ffol;
Mor ddigalon i'r encilion
  Ydyw rhoddi trem yn ol.

Gwanwyn ieuanc wedi dianc,
  A'i friallu'n wyw tu cefn;
Iraidd dlysni ei wyrddlesni,
  Ni ddaw byth yn ol drachefn.

Dyddiau mebyd, gwynfa bywyd,
  A'i bendithion yn ystor,
Teimla f'enaid fod cerubiaid
  Yn y niwl yn gwylio'r ddor.

Hen freuddwydion goreu 'nghalon,
  Beth a ddaeth o honynt hwy?
Drychfeddyliau dros y bryniau
  Wedi machlud ydynt mwy.

Gwelais obaith ar ei ymdaith,
  Fel y wawr ar feillion dol;
Ond ar lwybrau duon angau,
  Dim ond beddau sydd yn ol.

Mae afradlon addewidion,
  Wedi tori calon ffydd;
A choronau hen fwriadau
  Yn y llaid er's llawer dydd.

Mewn unigedd diymgeledd,
  Wedi hel meddyliau ffol,
Ar ddi geraint benrhyn henaint,
  O! mor brudd yw trem yn ol.

# TREM YN MLAEN.

FEL gweledydd ar y mynydd—
  Mynydd Nebo bywyd blin,
I dawelwch y dirgelwch,
  Tremia f'enaid dros y ffin.

Gwelaf yno yn blaguro
  Gyfandiroedd llawn o hedd;
Eangderau di derfynau,
  Heb gysgodion tywyll fedd.

Gobaith ysbryd yn ei adfyd,
  Yw dyfodol di ystaen;
Pan fo'i wybren yn ddi heulwen,
  Gwel y wawr yn tori 'mlaen.

Dros y terfyn, ar eu hedyn,
  Gwelaf hen arfaethau'r Iôr;
A'u dylanwad ar fy mhrofiad
  Fel awelon dros y môr.

Gwelaf ddyddiau ar eu teithiau,
  Tua gwlad y cystudd mawr;
Dyddiau gwynion dan dywynion
  Dwyfol Haul yn dod i lawr.

Pererinion a bendithion
  Goreu'r nefoedd yn eu col;
Ond trwy ladron a llofruddion
  Y dychwelant yn eu hol.

Clywaf engyl yn fy ymyl,
  Yn fy nghymhell drwy y rhyd;
Ac yn wyneb tragwyddoldeb,
  Af yn mlaen yn wyn fy myd.

# ELUNED.

TYR'D i'r cwch, Eluned lon,
Codwn hwyl ar frig y dòn;
Clir yw'r nef, a'r môr yn dawel,
Lle mae cariad lond yr awel;
Heibio'r glanau yn gytun,
Cawn freuddwydio ar ddihun;
A chwedleua ar y tonau
Am borthladdoedd mewn calonau,
O! fy mun.

Mae aroglau llysiau'r môr
Yn dy gymhell dros dy ddôr;
Tori 'nghalon fwyn Eluned,
Fyddai tori dy adduned;
Tyr'd, fe geidw'r lasdon fyw
Bob cyfrinach newydd glyw;
Hwyliaf finau'n ddi ofalon,
Os bydd eilun serch fy nghalon
Wrth y llyw.

Eistedd wrth y llyw dy hun,
Dyna'th le, fy hawddgar fun;
Ac i ti yn mhob treialon
Ymddiriedaf lyw fy nghalon;
Ar dy wên yr wyf yn byw,
Hinon haf fy mywyd yw;
Nofia'r cwch mewn esmwyth lyfnder,
Tra fo cariad ar y dyfnder
Wrth y llyw.

# Y DRWS AGORED.

ANFFODUS fu yr eneth dlawd,
  Fe'i twyllwyd gan ddyhiryn;
A chiliodd ymaith dan ei gwawd,
  A'i chalon yn ei deigryn;
Bu hen gydnabod dros y tir
  Yn holi ac yn chwilio;
Ond wybu neb am dymor hir
  Beth ddaeth o'r eneth hono.

Aeth llawer gauaf heibio'n ddu,
  Dros flodau siriol cariad;
Ac aeth i'r nef weddïau lu
  Dros wefus mam amddifad;
Anghofiodd pawb y lednais fun,
  A darfu pob pryderon;
Ond yn y bwthyn yr oedd un
  Yn araf dori'i chalon.

Mor dyner ydyw cariad mam,
  Mor ffyddlon mewn trallodau;
Yn niwl gwaradwydd, mae ei fflam
  Yn dal o hyd yn olau;
Pan fyddo gobaith wedi ffoi,
  Dros fryniau olaf bywyd,
Mae cariad wrthi'n parotoi
  Ar gyfer ei anwylyd.

Fel ysbryd dystaw dros y rhos,
  Yn mhen blynyddoedd wedyn,
Daeth rhywun heibio ganol nos,
  A throdd i fewn i'r tyddyn;
Symudai'n araf, teimlai ofn,
  A'r dwysder yn ei llethu;
A chlywodd swn ochenaid ddofn
  O galon fethai gysgu.

Daeth deigryn arall dros ei grudd,
  O foroedd anweledig;
Ac yn y dwfn dawelwch prudd
  Fe dorodd llais crynedig—
"Fy mam! fy mam! nac ofnwch fi,
  Nid llofrudd wyf, na gelyn;
Ond sut yr anghofiasoch chwi
  Roi clo ar ddrws y tyddyn?"

"Ti ddaethost, O! fy ngeneth gu,
  Dy ddysgwyl ni fu'n ofer;
Ac yn y storom fwyaf ddu,
  Ni chwalwyd twr fy hyder;
Ti gest y drws yn agor am
  Mai cariad yw ei berchen;
Byth ni fu clo ar fwth dy fam
  Er pan y collwyd Elen."

# YN IACH, FY MRAWD!

Y BARNWR GWILYM WILLIAMS.

Yn iach, fy mrawd! yn iach i ti,
  Mor wag yw'r byd, mor brin o hedd;
Mae cenedl heddyw yn ei du,
  Yn wlyb o ddagrau ar dy fedd.

Prysurai'r Sabbath dros y bryn,
  Ac allwedd gwynfyd yn ei law;
Agorodd ddor i'th ysbryd gwyn,
  I Sabbath gwell y byd a ddaw.

Fe glywid cloch y Llan o bell,
  Yn galw'r saint i'r llwybr cul;
Ond i gymanfa llawer gwell
  Cychwynaist ti ar fore Sul.

Fendigaid fore, llawn o hedd,
  Goleuni'r Adgyfodiad sydd
Yn aros ar ei sanctaidd wedd,
  Er bore wawr y "trydydd dydd."

Mi'th welais yn dy gerbyd clyd,
  Yn gado'r lawnt am babell Ior;
Ond cerbyd buan arall fyd
  Y bore hwn ddaeth at dy ddor.

Mae hen adgofion am dy ddawn
  Yn gwneud y gawod drom yn fwy;
Adgofion am rinweddau llawn,
  Na welir mynwent iddynt mwy.

Dy oes fu'n oleu ar ei hyd,
  Yn ymlid nos y llesg a'r llwm;
A'th gariad yn ngofidiau'r byd
  Fel gwlith y wawr ar flodeu'r cwm.

Fe leddfwyd llawer gofid cudd,
A diorseddwyd llawer braw
Wrth weled calon ar dy rudd,
A bendith yn dy dyner law.

Disgynai'th wên ar galon byd,
Fel bore hâf ar lesni'r ddol;
A thyfai'n mhlith y drain o hyd
Lilïau'r nefoedd ar dy ol.

Uniondeb a thrugaredd fu
Yn ymgusanu ar dy sedd;
Maent heddyw yn y cwmwl du,
Yn ymgofleidio ar dy fedd.

Ni thybiaist fwrw'th arf i lawr,
Yr arf a chwifiwyd gan dy dad;
A deliaist hyd yr olaf awr,
A'th serch yn dŷn am wddf y wlad.

Mae'r Llan yn gysegredig mwy,
Ac yno fedd cymeriad gwyn;
Ac er mor anhawdd gwella'r clwy,
Mae goleu'r nef ar niwl y glyn.

Boed fwyn dy gwsg, a dwfn dy hedd,
Nes cawn dy wel'd mewn newydd fri;
A gwylied engyl dros dy fedd,
Yn iach, fy mrawd! yn iach i ti.

# AR Y FFORDD I LYBIA BELL.

Nofia'r cwch dros frig y tonau,
I ororau Lybia draw;
Teimlaf finau fod y glanau
Fel yn niwl y byd a ddaw;
Os caf yno nefoedd newydd,
Os daw arnaf ysbryd cân,
Bydd fy nghalon gyda'r hedydd
Yn y grug yn Nghymru lân.

Hir y byddaf ar y Werydd,
Fel carcharor yn ei gell;
Cysged ysbryd yr ystormydd,
Nes im' gyrhaedd Lybia bell;
Wedi glanio yno'n dawel,
Safaf ar y tywod mân;
Ac anfonaf gyda'r awel
Gofion fyrdd at Gymru lân.

Er fod yno aur yn haenau,
A sylweddau pob mawrhad,
Er fod gemau i goronau
Yn mynyddoedd gwyllt y wlad;
Nid yw'r golud hwnw'n ddigon,
I wladgarol serch ar dân:
Gwn, bydd hiraeth ar fy nghalon
Am dyddynod Cymru lân.

Clywais gynt ar aelwyd gynhes,
Mai Cyfandir Tywyll yw;
Ac yn nos ei eillt di hanes,
Fod y llew a'r blaidd yn byw;
Yn eu swn, yn mysg anwariaid,
Sydd a'u gwaewffyn ar dân,
Cofiaf lwybrau hen fugeiliaid
Ar fynyddoedd Cymru lân.

# GRUDDIAU OLWEN.

FE wariwyd cynwys llawer cod,
  Ar waddod ffrwyth yr heidden;
A gwariwyd cynwys llawer stad,
  Yn ddi leshad i'w berchen;
Ond hawdd yw gwario mwy na'r ddau,
  Ar ddiliau gruddiau Olwen.

Mi welais rudd Mehefin fwyn,
  Dan swyn prydfertha'r tymor;
A gwelais ar y cwmwl mawr
  Rosynau'r wawr yn agor;
Ond gwelais ddwyrudd ar fy nhaith
  Mwy perffaith am eu porphor.

Er fod cerubiaid wedi cau
  Ar flodau tirfliw Eden;
Ac er fod cysgod camwedd du
  Ar wyneb cu ei heulwen;
Mae dor yr Ardd yn agor fyth
  Ar ddilyth ruddiau Olwen.

Mae cnwd o'r blodeu hardda 'rioed,
  Yn ol ei throed yn tyfu;
A than ei llygad byw o hyd,
  Mae'r byd i gyd yn glasu;
Ca newydd galon pryd y myn,
  A cherub gwyn i'w charu.

Am gwmni hon, a newid byd,
  Dyheu o hyd mae awen;
A llawer cerdd o liwiau'r haf
  Anfonaf at y feinwen;
A thra fo cariad yn y tir,
  Arddelir gruddiau Olwen.

# AR Y LAWNT YN UGAIN OED.

Ar y lawnt yn ugain oed
  Yr eisteddai mab a mun,
Pan oedd Mai ar ysgafn droed
  Yn y fro'n mwynhau ei hun;
Canai'r mwyalch yn y gwydd,
  Canai'r gog ei deunod gain;
Ac edmygai'r llygaid dydd
  Wynder serch yn mlodeu'r drain.

Newid calon yno fu
  Ar y lawnt yn ddystaw bach;
Heb arwyddion cwmwl du
  Yn wybreni cariad iach;
Newid hawdd, a newid llwyr,
  Yn yr hedd melusa 'rioed,
Dyna welwyd frig yr hwyr
  Ar y lawnt yn ugain oed.

Gwanwyn arall heibio ddaeth,
  Wedi creulon auaf blin;
Llamu tua'r lawnt a wnaeth
  Gyda chariad ar ei fin;
Ond y gadair dderw gam
  Oedd yn wag, a llwyd ei gwedd;
Lle bu serch yn llosgi'n fflam,
  Nid oes mwy ond cysgod bedd.

Ar y lawnt mae'r llygaid dydd,
  Megis cynt yn tyfu'n llawn;
Cana'r mwyalch yn y gwydd
  Hwyr a bore'n felus iawn;
Ond o fewn y fynwent draw,
  Heb ei galon y mae un,
Gyda blodyn yn ei law,
  Dan yr ywen wrtho'i hun.

# HATLING Y WEDDW.

Tawed y cybydd goludog,
Gwrided yn wyneb ei ffawd;
Safed yn ymyl trugarog
Hatling y weddw dylawd.

Distadl yn ngolwg y miloedd,
Lleiaf o roddion y byd;
Mwyaf yn nghyfrif y nefoedd,
Hatling yn galon i gyd.

Ble mae y llinyn a blymia
Ddyfnder y serch a'i cyffrodd?
Ble mae y fraich a gyrhaedda
Uchder haelioni y rhodd?

Hanes y ddystaw elusen
Gerfiwyd am byth yn y graig;
Bywyd yn gyfoeth di amgen
Gronwyd i hatling y wraig.

Clywodd yr angen yn gwaeddi,
Cododd o ddyfnder y llwch;
Bwriodd i fewn o'i chaledi,
Hatling a lanwodd y blwch.

Beth yw haelioni'r miliwnydd?
Cardod o'i segur ystor;
Llwchyn o'r graig yn y mynydd,
Defnyn o ganol y mor.

Cenir am friwsion goludoedd,
Molir y melyn ei ddarn;
Cariad yw mesur y nefoedd,
Bywyd yw pwysau y farn.

# MARWNAD DIC SHON DAFYDD.

Y GORCHWYL hawddaf yn y byd
  Yw canu marwnadau;
Am fod marwolion bron i gyd
  Yn llawn o'r un rhinweddau;
Mae canu mwy nag *un* yn fai,
  Yn golled ac yn wastraff;
Ni ddaw y byd i wybod llai
  Nad yw y delff yn seraff.

Ond rhaid i mi wrth newydd gainc
  I wron mor eithriadol;
A phrynu llwyth o wynwyn Ffrainc,
  I ganu yn naturiol;
Rhaid trethu llawer ar y co',
  A chreu rhinweddau newydd;
Wna *newid enw* ddim o'r tro,
  I gofio Dic Shon Dafydd.

I ganu'n deilwng, nid mor hawdd
  Yw gwybod ble i ddechrau;
Gan hyny, neidiaf dros y clawdd,
  I roddi sen i angau;
Ond clywaf hwnw yn y rhyd,
  Ar frig y dòn aflonydd,
Yn dweyd mai cariad at y byd
  Oedd symud Dic Shon Dafydd.

Amaethwr gwledig oedd ei dad,
  Heb feddu gair o Saesneg;
A magwyd yntau yn y wlad,
  Yn nghwmni'r cwn a'r gwartheg;
Ond blino ar ei fywyd wnaeth,
  Er maint ei ddefnyddioldeb;
Ac ar enillion dwr a llaeth
  Fe brynodd anfarwoldeb.

Dywedai rhai ei fod yn falch,
  Ond methwyd profi hyny;
'Roedd olion aelwyd pridd a chalch
  Ar ddygiad hwn i fyny;
Rhy wylaidd oedd i dreulio'i ddawn
  Ar wagedd diangenrhaid;
Ac adliw mwg a delw mawn
  Yn addurn ar ei enaid.

Cymeriad ar ei ben ei hun,
  Heb neb yn debyg iddo;
A'i holl alluoedd yn gytun
  Yn cysgu a breuddwydio;
Difrychau oedd ei wasgod wen,
  A'i galon yn ei gilwg;
A thalent gyndyn yn ei ben
  Yn gomedd dod i'r golwg.

Rhy gyfyngedig oedd ei wlad
  I ddyn mor anfesurol;
A'i llinell derfyn yn sarhad
  Ar feddwl mor urddasol;
Fe feiwyd arno lawer gwaith,
  Am wadu iaith mor wirion;
Ond nid yw dysgu hono'n ffaith
  Yn hanes pendefigion.

Pa les yw cynal iaith mor hen,
  Mor ddiffrwyth ac mor arw?
Mae crychni amser yn ei gwen,
  A'i hysbryd bron a marw;
Amddifad yw, o ddagrau'n llawn,
  Yn curo drws y nefoedd;
A marw mae yn gyflym iawn
  Er's miloedd o flynyddoedd.

Mae efelychu dynion mawr,
  Yn awr yn ffasiwn diogel;
A daw'r agosaf at y llawr
  Fel hyny'n fawr ac uchel;

Pe safai brenin ar ei ben,
  Cai arall yn ddilynydd ;
A dyna gawn tu ol i'r llen
  Yn hanes Dic Shon Dafydd.

Fe glywodd firi mwy na mwy,
  Am rinwedd mawr ei dadau ;
Ond credai ef y dylent hwy
  Gael llonydd yn eu beddau ;
Ni fynai son am Gymru Fu,
  Nac am iawnderau Gwalia,
Ac yn nghadwynau'r gelyn du
  Y gwelai borth diangfa.

Fe deimlai fod unioni cam
  Yn drosedd ar ei ddeall ;
A llwyr anghofiodd iaith ei fam
  Cyn iddo ddysgu arall ;
Wrth droi brawddegau megis byllt,
  A'u malu yn aflonydd,
Fe dyfodd rhyw ddafaden wyllt
  Ar dafod Dic Shon Dafydd.

Daeth at ei wely dwrne coeth,
  I wneud ewyllys iddo ;
Ond nid oedd hwnw'n ddigon doeth
  I ddeall gair o hono ;
Cyn hir, dyfalodd er boddhad
  Feddyliau cudd y pagan ;
A threfnodd gynwys yr ystad
  Yn eiddo iddo'i hunan.

Bu farw'r truan, a'i goffhad,
  Heb flodyn i'w gydnabod ;
Ac ni wastraffodd cariad gwlad
  Un deigryn ar ei feddrod ;
Mae'r gwron wedi gweinio'i gledd,
  A'r wlad a gafodd lonydd ;
A chodi gwrid ar gareg fedd
  Mae enw Dic Shon Dafydd.

# ADERYN Y TO.

Fe ganwyd i eryrod,
Gan lawer bardd o fri;
A chafodd colomenod
Folawdiau fwy na rhi';
Meddyliais inau lawer tro,
Am ganu fy soned
I galon ddiniwed
Aderyn y to.

Diawen yw ei delyn,
Heb ddysgu cerddi'r wig;
Diaddurn yw ei edyn,
Heb eurlliw ar ei big;
Ond mor gyfeillgar ac mor hy'
Y gedy y bargod,
I dderbyn ei gardod
Ar drothwy y tŷ.

Cymydog bach hyderus,
Yn chwareu wrth fy nhroed;
Nid rhyw ymwelydd ofnus,
A fagwyd yn y coed;
Hawdd iawn y gallwn fyw'n gytun,
Ac yntau a'i drigfod
O dan yr un bargod
A minau fy hun.

Y gog, ar ddiwedd gwanwyn,
Am gartre deimla'n glaf;
A'r wenol ar ei hedyn
A ffy ar ol yr haf;
Ond pan fo'r byd dan eira'n nghlo,
Yn nghanol yr oerni,
Ffyddloned yw cwmni
Aderyn y to.

# LLWYD O WYNEDD.

## Yn Ngwledd Gwyl Dewi.

Mae eilun cenedl heno yn y wledd,
  A'r bwrdd oleuir gan ei barch a'i fri;
I'r Cymrawd uchel ar ei newydd sedd,
  Estynwn law, a chalon ynddi hi.

"Llwyd" yw ei enw, ond nid llwyd ei ddawn,
  Fel nant y mynydd y mae hono'n glir;
A'i dirf athrylith dan ei blodeu'n llawn,
  Yn gwasgar peraroglau dros y tir.

Gwladweinydd doeth, a iawnder ar ei fin,
  Apostol rhyddid, cyfaill Gwalia Wen;
I fyny dringodd yn ei nerth ei hun,
  A bendith calon Cymru ar ei ben.

Fe glywodd gri y werin yn ei gwaed,
  Fel llais colomen glwyfus yn yr Yw;
A chododd genedl gyfan ar ei thraed,
  I wrthod marw, ac i hawlio byw.

See Cyff I and this book p 207

Dyrchafodd floedd i ddial cam ei wlad,
  Yn frwd ei galon, ac yn glir ei farn;
Cadfridog Cymru Fydd, ar flaen y gâd,
  A'i wladgar gledd yn fflamio hyd y carn.

Yn wyneb lleng, dros hawliau Cymru lân,
  Ni thry yn ol, ni fwria 'i arf i lawr;
A phoeth yw gwreichion ei wladgarol dân
  Ar hap-chwareuon Senedd Prydain Fawr.

Mab y mynyddoedd: tua gloewach nen
  Yn dal i ddringo er ei fore ddydd;
Ac fel mynyddoedd yr Eryri Wen,
  Cadernid creigiau yn ei natur sydd.

Pwy ddwed fod Cymru'n dlawd? Mae tir a thòn
  Yn llawenychu yn ei chyfoeth llawn;
Llywiawdwyr fegir ar ei thyner fron,
  A thyf brenhinoedd yn ei thai tô cawn.

Hir fu y nos, ond mae telynau'r wawr
  Yn dechreu canu cerddi eu rhyddhad;
Ac ysbryd Arthur a Llewelyn fawr,
  Ar hyd y bryniau'n dod yn ol i'w gwlad.

Hen wlad fy nhadau, gwlad y derw goed,
  Ac fel y derw cedyrn yw ei phlant,
Mae'r iaith yn fyw, mor hyawdl ag erioed,
  A cherddi'r Mil Blynyddoedd ar ei thant.

# GWAWR Y DYDD.

TYR'D allan i weled y wawr
Yn dringo i ben y mynyddoedd;
Cei drwydded o'r nefoedd yn disgyn i lawr
I estyn terfynau'th flynyddoedd;
Cwyd gyda'r ehedydd
Yn gynar weledydd,
I ganu'r boreuaf garolau per;
Yn llewyrch dymunol,
Y bore arddunol,
Mae'n bryd i ti ddeffro pan gysga y ser.

Tyr'd allan i olwg yr ardd
A blenir ar gymyl y borau;
Paham yr ä heibio olygfa mor hardd,
A thithau a chlo ar dy ddorau?
Fe guddir dan lèni
Rosynau'r wybreni,
I'r diog freuddwydiwr, o'i wely pan ddel;
Mae'r swyn yn cyfnewid,
Ond pery'r addewid
Am wrid y boreuddydd i'r wyneb a'i gwel.

Tyr'd allan yn fore i blith
Y meillion, cyn diosg eu tlysau;
Tyr'd allan i weled yr haul yn y gwlith
Yn crogi ei harddaf enfysau;
Cei flas ar gwpanau
Awelon y bànau,
A bendith boreuddydd yn dâl am y draul;
A theimlo'r gwirionedd
Ar lif y gogonedd,
Fod bywyd yn aros yn esgyll yr haul.

# CYSGODAU'R HWYR.

O! HENFFYCH gysgodau yr hwyr,
Breuddwydion afradlon y dydd;
A'u dystaw amneidion yn gollwng y galon
O ganol gofalon yn rhydd;
Mor felus pan gyfyd y ser,
Yw bwrw y beichiau i lawr;
A chroesi mewn heddwch i fyd o dawelwch,
I hela breuddwydion,
Dan ofal angylion,
Hyd doriad y wawr.

O! henffych gysgodau yr hwyr,
Adfywiol dangnefedd prydnawn;
A'r blodeu yn hwylio i dawel noswylio,
A'u llygaid o haul yn llawn;
Y lleni a dynir i lawr,
Dros hawddgar orielau y gwydd;
A chysga'r aderyn, a'i bwys ar ei delyn,
I ganu'n felusach,
A chalon gynhesach
Ar doriad y dydd.

O! henffych gysgodau yr hwyr,
Mae'r gorwel yn ddwyfol i gyd,
Yn cymhell y meddwl drwy flodeu y cwmwl,
I holi am loewach byd;
Dwyfola cyfaredd mor fwyn
Feddyliau daearol y dref;
A chrwydra yr enaid, heb gwrdd âg ochenaid,
Gan foli a synu,
Yn nghanol briallu
Aneirif y nef.

# AWELON Y MYNYDD.

AWELON y mynydd, bereiddied eu swyn,
  Ar lwybrau digynhwrf y wawrddydd;
Awelon yr eithin, y rhedyn, a'r brwyn,
  Awelon y grug a'r ehedydd;
Cymdeithion ffynonau melusach na'r gwin,
  Yn caru y tawel encilion;
Mae carol i ryddid y nef ar eu min,
  A iechyd y nef yn eu calon.

Awelon y mynydd, awelon y wlad,
  Heb dristwch y byd ar eu hedyn;
Awelon haelionus yn cario mwynhad
  I fywyd heb aur ar ei delyn;
Y bywyd a dyf ar y moelydd yn hardd,
  Yn swn y rhaiadrau aflonydd;
Y bywyd na ddysgodd fursendod yr ardd,
  Yw hoffder awelon y mynydd.

Awelon y mynydd, o gyrhaedd y dref,
  Cynefin â llwybrau y defaid;
Tra croesant y bànau agosaf i'r nef,
  Bydd son am hir hoedledd bugeiliaid;
Hen gewri'r clogwyni, na wyddant lesghau,
  A'u gruddiau yn adliw'r boreuddydd;
Mae haiarn a dur yn eu gwaed yn parhau,
  Yn ngwynfyd awelon y mynydd.

# DAGRAU'R IESU.

Os wyt yn ofni lawer awr
  Elynion oer di gariad,
Mae calon dy Waredwr mawr,
  Yn llawn o gydymdeimlad;
Os yw'r dyfodol o dy flaen
  Yn dywyll fel y fagddu,
O! cadw'th wisg yn ddi ystaen,
  A chofia ddagrau'r Iesu.

Mae Duw yn galw ar dy ol,
  A Cheidwad yn dy garu;
Arafa'th gam, bererin ffol,
  A chofia ddagrau'r Iesu.

Pan fyddo cwmwl ar dy hedd,
  Ac angeu yn dy brofiad,
A thithau'n edrych ar y bedd,
  Yn unig ac amddifad,
Pan na fo câr i wrando'th lef,
  Na brawd i'th ymgeleddu,
Cyfeiria'th olwg tua'r nef,
  A chofia ddagrau'r Iesu.

Pan ddaw i'th galon ofid cudd,
  Nes methu dâl o dano,
Rho dro i Gethsemane brudd,
  I sŵn yr ing fu yno;
Os i drueni dan dy glwy
  Yr wyt yn cyflym nesu,
Rhaid iti fyned yno drwy
  Gawodydd dagrau'r Iesu.

Mae Duw yn galw ar dy ol,
  A Cheidwad yn dy garu;
Arafa'th gam, bererin ffol,
  A chofia ddagrau'r Iesu.

# CAROL Y GOG.

(GEIRIAU CANIG.)

BU'R gauaf garw yn ei ŵg
  Yn dringo'r allt yn hir ;
A llawer storm mewn tymer ddrwg
  Yn croesi môr a thir ;
Ond dros y bryn i'r cwm i lawr,
  Daw Ebrill ysgafn droed ;
A'r gôg a glywir gyda'r wawr
  Yn canu yn y coed,
    Gwcw ! Gwcw !
O ganol breuddwydion y deffry ei gwâs,
  A'r gwlith ar ei aden lwyd ;
I hedeg i'r onnen a'r fedwen lâs,
  I gyfarch yr haul pan y cwyd ;
Telynau'r caethiwed a eilw yn ol,
  I lwyfan y blagur glân ;
A dringa'r briallu hen gloddiau y ddol
  I wrando ei melus gân,
    Gwcw ! Gwcw !
Croesaw gôg o lwyn i lwyn,
  I sirioli blodeu'r waen ;
Hoffa'r byd dy garol fwyn,
  Cana dithau yn dy flaen ;
Mae dy alaw hên yn newydd,
  Ac yn obaith calon glaf ;
Cân y bore, cân yr hwyrddydd,
Yn yr ynn a bedw'r mynydd,
  Nes yn ol y delo'r haf,
    Gwcw ! Gwcw !

## GOFID A CHAN.

O! LAWNED yw bywyd
O wae ac o wynfyd,
Yn ymyl eu gilydd mae gofid a chân ;
Ar wynion wybrenau,
Mae haul dan gymylau,
Ac eira ar fryn sydd a'i galon yn dân.

Pwy nad yw'n gynefin
A blodeu yr eithin,
Aur lwyni Mehefin o dlysni di ail ?
Ond teimlir yn sydyn
Wrth gasglu'r aur melyn
Fod gwaewffyn miniog yn nghudd yn y dail.

Yn nghanol anrhydedd,
Ac uchel glodforedd,
Ar geinciau y groes mae coronau y byd ;
A gwelir yn forau
Mewn dedwydd ororau,
Fod Ywen yn tyfu yn ymyl y cryd.

Drwy erddi o flodau
Y cerdda rhinweddau,
Ond dibris yw gofid o lwybrau mor gain ;
A dysgir gan fywyd,
Mewn llonder ac adfyd,
Fod gwynion lilïau'n gynefin a drain.

Mae natur yn cofio
Am ganu di wylo,
Pan hoffai seraphiaid ymdroi yn y tir ;
A thros y terfynau,
Mi glywaf delynau,
Yn canu gwynfydau a gollwyd yn hir.

# YMRYSON AM YR IESU.

YMRYSON am yr Iesu—wna dynion,
Wedi haner drysu;
A llwyfan twyll fŷn o'u tu,
Ail genedl i'w oganu.

Nawdd i lwydion ddaliadau—a roddir,
Diraddiol feddyliau;
Yn eu gwyllt amheuon gau
Pyla pader pwludau.

Safle'r Iesu, fel rhosyn—addefir,
Ond heb ddwyfol wreiddyn;
Wyn fod, ond na fu wedyn
Funyd awr yn fwy na dyn.

Ei Dduwdod hardd a wawdiant,—Awdwr byd
O'i wir barch ddiosgant;
O'r gredo fu'n swyno'r sant,
Athrawiaethau Ior wthiant.

Pwy ynt hwy, a'u penau tàl—yn y gwynt,
Heb ond gwawn i'w cynal?
Teneu ydynt, anwadal,
A newid hîn yn eu dàl.

Arweinwyr yn gwirioni—ar y tŵr,
A'u tân yn diffoddi;
Heb adnabod mewn tlodi
Bryd y nef yn ein Brawd ni.

Cyneuol byncian *newydd*!—nage'n wir,
Digon *hen* a phenrhydd;
Eu sain yn gynefin sydd
Ar hyd fànau'r difeinydd.

Heresiau gau'r oesau gynt,—ac olion
Brwydrau celyd arnynt;
Nid *newydd* o ddefnydd ynt,
Ond honiadau *hen* ydynt.

Amheu'r codwm a'r Ceidwad,—oni wnaed
Mewn niwl o'r dechreuad?
Mae udgorn cyfeiliornad,
A meinciau ffug mewn coffhad.

Trosedd ar natur Iesu,—yw'r honiad
Nad oedd breiniol allu
Ynddo Ef; a chalon ddu
Golledig, all ei wadu.

Duwddyn yn ei nodweddau—a welir;
Dwyfolaf honiadau
I'w addysg oedd; a oes gau
Anwiredd yn ei eiriau?

Onid oedd yn un a'i Dad,—ai llef twyll
Fu tôn ei holl siarad?
Adrodder, rhag diraddiad,
I glyw'r oes yr eglurhad.

Dwedai Ef mai o'r nefoedd,—y deilliodd,
A fu'n dwyllwr pobloedd;
Os gwr o ras geirwir oedd
Hanfodai drwy Hwn fydoedd.

Gwader ei air gyda'i rym,—a gwelir
Nad oes "golofn" genym;
Dwl antur yw'n llafur llym,
A thlodion bythol ydym.

Ei fywyd o wasgfeuon,—oedd ofer,
    Heb ddwyfol gymhellion;
  Ofer ing ei dyner fron,
  Ofer eilwaith fu'r hoelion.

Onid yw yn dweyd nad oes—obaith byth,
    Heb waed, am hedd eiloes?
  A dihoenwyd ei einioes,
  Er trugarhau trwy y groes.

Dwg esponiad gweis penwyn,—i fyd coll,
    Ofid cudd a dychryn;
  Ofer lygredig wyfyn
  Heb ei Dad, oedd Mab y dyn.

Awdurdodir had Eden,—i'w gyfarch
    Mewn gofid ac angen;
  Mae'n dal y deyrnwialen,
  Yn Deyrn byd, a'i air yn ben.

O'i greulon gur heulwen gawn,—a'i haeddiant
    I'n cyhoeddi'n gyfiawn;
  Troi enaid at Ior uniawn,
  Ni bu erioed heb yr Iawn.

Fe ddeil hwn i foddloni—hawliau Duw,
    I gael dyn o'i dlodi;
  A di ddanod ddaioni
  O wydd y Mab ddaw i mi.

O! fy Nuw, digyfnewid—yw y Gwr
    Yfodd gawg fy ngofid;
  Ni all eirf o farn a llid
  Ladd ei hyawdl addewid.

Er i honwyr ei wanu,—er dioddef,
    Rhaid iddo deyrnasu;
  Etifedd trugaredd gu
  Daear isod yw'r Iesu.

O'r holl stwr i well ystad,—tyfu wnaf
    At fy nwyfol Geidwad;
  A chaf yn nef iach fy Nhad,
  Eiriolwr at yr alwad.

Am ei blaid, o'm rhwymau blin—gohebaf,
    Ac aberth fy neulin
  Ddyfal ro'f i ddwyfol rin,
  Fy Mhrynwr a fy Mrenin.

# PWY ALL BEIDIO CANU?

O! PWY all beidio canu,
  A chanu mewn boddhad,
Tra fyddo swn telynau'r nef
  Mor beraidd yn y wlad?
Anthemau'r dwyfol gariad,
  A ddysgwyd ar y bryn,
A glywir gyda'r awel fwyn,
  Yn croesi dros y glyn.

Mae'r Iesu eto'n galw,
  Ac ar ei ol yr awn;
Eisteddwn yn ei gysgod byth,
  A chanu, canu wnawn.

O! pwy all beidio dilyn
  Anwylaf Geidwad dyn?
Yn nghanol gofid, ing, a gwae,
  Mae'n Gyfaill byth a lŷn;
Dilynodd Ef y crwydryn,
  A'i geisio bu yn hir;
Ac aros mae ei ddafnau gwaed,
  Ar ddrain yr anial dir.

O! pwy all beidio'i ganmol,
  Am ddioddef dros y byd?
A gwneud y ffordd at orsedd Duw
  Yn oleu ar ei hyd;
Hyfrydwch gan angylion
  Wrth gofio am a wnaed,
Yw bwrw eu coronau aur
  Yn ufudd wrth ei draed.

Mae'r Iesu eto'n galw,
  Ac ar ei ol yr awn;
Eisteddwn yn ei gysgod byth,
  A chanu, canu wnawn.

# MALDWYN BACH.

DAETH y newydd dros y tonau,
  Newydd llawn o drallod prudd;
A gadawodd gysgod angau
  Yn y deigryn ar fy ngrudd;
Anhawdd yw i'r awen yma,
  Dan y palmwydd siriol iach,
Anfon gair yn ol i Walia,
I addurno cerdyn coffa
    Maldwyn Bach.

Gwawriodd bore dydd Nadolig,
  Dydd i gofio Bethlem dlawd;
Dydd o loniant gwynfydedig,
  Am Etifedd nef yn frawd;
Gwawriodd ar y byd yn araf,
  A'i lawenydd gydag ef;
Ond ei ddydd Nadolig cyntaf
Gafodd Maldwyn bach anwylaf
    Yn y nef.

Cefnfor bywyd sydd yn arw,
  Brigwyn yw o làn i làn;
Wybu Maldwyn ddim am hwnw,
  Croesodd yn y culaf fan;
Cyn ei ysgwyd gan bryderon,
  Brysiodd adref drwy y rhyd;
Cefnodd ar y stormydd creulon,
Sydd yn tori llawer calon—
    Gwyn ei fyd!

Aelwyd lawen drodd yn gwynfan,
  Pan ddystawodd cân y cryd;
Er yn eiddil, er yn fychan,
  Ar ei ol mor wag yw'r byd;

Lymed ydoedd y gwahanu,
  Drymed yw y newydd hwn;
Ac mae'n anhawdd ymdawelu,
Am mai beddrod cynta'r teulu
    Ydyw hwn.

Pan fo calon yn ymddrysu
  Yn y brofedigaeth gref,
Melus cofio geiriau'r Iesu—
  "Eiddo plant yw teyrnas nef;"
Mae yn dysgwyl ei gariadau,
  Y tu draw i niwl y glyn;
Ar ei fynwes ddi ofidiau,
Gwelaf Maldwyn anwyl yntau
    Yn ei wyn.

Cwsg yn dawel, febyn tirion,
  Melus iawn yw'th gynar hedd;
Ti gei engyl ar awelon
  Yn y blodeu ar dy fedd;
Pan yn cofio'th wyneb siriol,
  Anhawdd ydyw canu'n iach;
Rhaid i gariad byth ymlynol
Gael dy ddilyn i'r tragwyddol,
    Maldwyn Bach.

# LLWYN ONN.

AR lechwedd y mynydd, cyn codi'r hen dyddyn
  O gyrhaedd y byd a'i bryderon a'i wae;
Mwyalchen big-felen a blanodd yr hedyn,
  A dyfodd yn gysgod i'r bwlch yn y cae;
Bu'r tewlwyn hudolus yn destyn caniadau
  I swynol awenau bugeiliaid y fron;
A gwelwyd cariadon yn newid calonau
  Liw nos, o dan frigau cauedig Llwyn Onn.

Y llwyn a gynyddodd mewn awel a heulwen,
  A daliodd ergydion y storm yn ei dig;
A llawer cenhedlaeth ar ol y fwyalchen,
  A ganodd alawon yr haf ar ei frig;
Mae'r mynydd yn aros, a chodi mae'r huan,
  I syllu ar geubren, heb ddail ar ei fron;
A heddyw ni chlywir ond llais y ddyllhuan
  Yn esgyn o galon doredig Llwyn Onn.

# CROESAW ITI, EIRA GWYN.

Croesaw iti eira gwyn,
  Os wyt oer, yr wyt yn lân,
Gyri gerdd o frigau'r ynn,
  Ond cei arall wrth y tân;
Nid oes lili yn yr ardd,
  Gwasgar yno'th dlysion blu;
Beth mor deg a'th fantell hardd
  Ar ysgwyddau byd mor ddu?

Cefnodd Hydref ar y ddol,
  Wedi gwywo bywyd brau;
A gadawodd ar ei ol
  Feddau newydd heb eu cau;
Croesaist dithau'r brudd ystad
  I dacluso'r beddau hyn;
A chyfodaist er coffhad
  Dlysach maen na'r marmor gwyn.

Llawen yn rhodfeydd yr hin
  Chwareu wnei wrth ddod i lawr;
Ac ar weddw gorsen flin
  Ysgafn yw dy gawod fawr;
Mae'r gelynen yn y coed,
  Er mor fythwyrdd yw ei bri,
Yn sancteiddiach nag erioed
  Dan dy emau grisial di.

Croesaw it', ymwelydd iach,
  Yn dy wisg auafol wen;
Cysga llawer blodyn bach
  Yn esmwythach dan dy len;
Yn dy weddnewidiol bryd,
  Hyd y cwm, ac ar y bryn,
Dweyd yr wyt wrth aflan fyd
  Mai o'r nef daw pobpeth gwyn.

# Y DARN CLEDD.

CYCHWYNODD y bachgen o dyddyn ei dad,
Yn enw ei frenin, a hawliau ei wlad;
Gadawodd galonau
Mewn pryder a braw
A chroesodd y tonau,
A'i gledd yn ei law;
Yn ysgafn ei galon, a chyflym ei droed,
Cyrhaeddodd yr hafan,
A maes y gyflafan,
A'i gleddyf ar dân yn sychedu am waed.

Fe glywodd yr udgorn yn galw i'r gad,
I ymlid y gelyn yn ol mewn sarhad;
Y faner ddilynodd,
A'i gleddyf yn noeth;
A'i ddewrder enynodd,
A'r frwydr yn boeth;
Ond O! cyn yr hwyr, ar y lasfron gerllaw,
Fe'i caed yn lluddedig
Yn farwol glwyfedig,
A darn o'r hen gleddyf yn oer yn ei law.

Mewn beddrod di-enw y gorwedd efe,
A dim ond y glaswellt yn gwybod pa le;
Tra serch yn och'neidio,
A'i drem ar y mor;
A hiraeth yn peidio
Rhoi clo ar y ddor;
Swn arfau dawelodd, heddychwyd y wlad,
Ond cleddyf toredig
Y milwr colledig
Yn unig ddychwelodd i dyddyn ei dad.

## NODDFA.

CADAIR PWLLHELI, 1889.

TI Noddfa, wyt yn hawddfyd
Rhag creulon helbulon byd;
Lle tawel a neilltuwyd,
Yn tori min ystorm, wyd;
Nawdd oror yn ddiareb—yw dy dir—
Arbenig randir heb un gerwindeb.

Dedwyddyd dy dueddau—a gerir;
Ac mae geirwon ofnau
Yn mhob llun yn ymbellhau
O dawelwch dy hawliau.

Anniwall ddug ni all ddod—i dy byrth
Gyda'i boen a'i drallod;
O fewn dy nef nid yw nod
Ei dew gwmwl di-gymod.

Gwarchodaist ymgyrchiadau,—a gwyraist
Feiddgarwch elfenau;
Mae natur storm yn tristau
Yn farwol wrth dy furiau.

Hardd rinfawr ddor i wynfyd,—gorlydan
Rhag erlidiau bywyd;
Oddifewn ni ddaw, funyd,
Ddim ond hedd mwynhad o hyd.

Addfwynaf Noddfa anwyl!
Rho hedd i'th fardd, eithaf hwyl
I ganu i'th ogonawl
Hoff rodfeydd, ei ffrwd o fawl.

Yma'n deilwng mewn dolur,—lluniaidd fyd
Llawn noddfeydd yw natur;
Rhag difrod y gawod gur,—tawel drig,
Yn gysegredig, sy' i greadur.

Mae i'r di-reswm ar ei dir isel
Gysgodau agos, ac O! dyogel
I'w dŵr y rhwyfa pan dora rhyfel,
Ei gaerawg loches ar greigle uchel;
Rhag y drwg o draw a wêl,—greddf a fedd
O ddifai duedd at Noddfa dawel.

Daw caredig Greawdwr—i'r golwg
Drwy galon pob cyflwr;
Nawddleoedd, celloedd pob cŵr—yn helaeth
Daena'r wybodaeth fod Duw'n *arbedwr.*

Hyn i bryfyn sy'n brofiad—nad yw'n Duw
Yn deyrn oer, dideimlad;
Trugaredd, a'i rhinwedd rad,
Geir yn goron i'w gariad.

Yn ddystaw nawdd a estyn—i sylwedd
Y salaf drychfilyn;
Noddfa gref yn gartref gwyn
Ddarbododd i'r abwydyn.

Mae i lesgedd ymlusgiad—ei gragen
Greigiog, yn ddiffyniad
I'w einioes,—ca'i ddymuniad
Yn neddf yr Ion Noddfa rad.

Yn flin ar lenyrch o flaen erlynwyr,
Ei luniawg ogof i lwynog egyr;
I droi yn uchder awyr,—heb ofnau,
Y ceir gororau y creig i'r eryr.

Cawn i angen "cwningod"—lochesau
Cêl, a chysur parod;
Ac yn falch mae'r clogwyn fod—y rhai hyn
Yn pwysig esgyn i'w hapus gysgod.

Ior ddarparodd, i'r perwyl—o'u cadw,
Eu cysgodol breswyl;
Mae *bywyd* a'i hyfryd hwyl
*I'r rhai hyny'n* dra anwyl.

Mae nodded y mynyddau,—goruwch brad
Y drwg a'i frathiad, i'r "geifr" hwythau;
Yn eu gwlad dyogel ydynt,—a llesol
Ddiliau beunyddiol y banau iddynt.

Pan y dêl poen dialydd—i wylio'u
Hymweliad a'r broydd,
I'w caerau rhag y cerydd—y ffoant,
O fraw ymunant am Noddfa'r mynydd.

Gloes ing peryglus angau—dry dyner
Drydaniaeth calonau
Mewn aidd fyth am noddfäu,—gwrth-naturiaeth
Yw dwyn bodolaeth o'i danbaid hawliau.

Taw, mwyach, frwnt amheuwr,—gwel enwog
Ragluniaeth dy Grewr;
Ac yn nwylaw Cynaliwr,—y mae'n rhaid
I'w druain ddeiliaid dy droi'n addolwr!

Yn ddu trwy einioes ni ddaw trueni
I wybrau dynion heb *wawr daioni;*
O fewn drycinoedd, ofnadwy'r cyni,
Ond gwel gwasgedig *le i gysgodi;*
Ymhoned y storm heini,—ni bydd hon
A'i byddin gwynion *heb hedd yn gweini.*

Y mae agen lle bydd angen,
Neu ryw aden, i waredu;
Noddfa felus, heb frawychus
Swn truenus yn taranu.

Am weled yr ymylon,—ar y môr
Y mae hiraeth calon;
Newydd flys at Noddfa lon
Bair dwndwr brad y wendon.

Rhagluniwyd ar y glanau—oedrauus,
Dirionaf lochesau;
A chawn o'u cylch yn eu cau,—rhag brigwyn
Watwarol foryn, naturiol furiau.

Nos a dydd ar ddawns y don,—mae'r morwr
Mewn murmurawl drochion;
Awgryma'i lais gri am lon
Fwynderau'r hafan dirion.

Storm wgus draw ymegyr,
A'i thrydan yn daran dyr;
Ac o'r nef caria nifwl,—i'w goffrau,
Luosog emau y tlysawg gwmwl.

Wele mae gwewyr a fflamiog waeau
Yn llosgi'n erwin ar fin elfenau;
Ystorm fyddinoedd, â'u bloedd gableddau,
Mewn nwyd wefredig am wneud difrodau;
Fel ing difrifol angau—fry y traidd
Griddfaniad oeraidd y gorddyfnderau!

Ar gwynfan yr eigionfor—y mae llid
Mwy llawn yn ymagor;
Tra'n farus trwy nef oror
Ymwylltia'r mellt tua'r môr.

Eangder a dyfnder dig
A'u nwydau'n gyneuedig;
Newidir gwaedd nodau'r gwynt
Yn goncwerol gân corwynt;
Ewynfor sydd yn ynfyd
Gloddio bedd i gladdu byd!

Aflonydd dafla'i wenyg—y tu hwnt
I antur dychymyg;
Fe'u fflangellir mewn dirmyg,—a heddwch
Ni ddwg arafwch i feiddgar ryfyg!

Mae'r hèr i antur y morwr yntau,
Y gwyfyn tyner ar gefn y tònau;
Ni wrendy anian ar ei gwynfanau
O dalaf fronydd symudol fryniau;
Mae ei nerth yn ymwanhau,—a'i drem glir
A ddyfrog lenwir am Noddfa'r glanau.

Tân wibiad mellten heibio—a ddengys
Rodfeydd angau iddo;
Wybreni'n dal barnau'n do,
A dinystr môr o dano!

Am wel'd glan, am aelwyd glir,---fe roddai
Fawreddog gyfandir;
A'r gair goreu a gerir
Mewn ystorm yw hanes tir.

Ceir swn y croesau yna—yn enyn
Ynom flys diangfa;
A'u gwib ryfyg a brofa—mai enbyd
Ruthr anhawddfyd rydd *werth* ar Noddfa.

Pam y cenir pan ddynesir,
Ac y gwelir acw geulan?
Am mai dyogel Noddfa dawel,
Wedi rhyfel, ydyw'r hafan.

"Hafan ddymunol," a defnydd mwyniant
O'i dorau'n symud yr enw siomiant;
Dyma gysgodion edmygus gadwant
Eu hyfryd lenyrch yn frwd o loniant;
Ar y tir newidir tant—yr ofnus
Am gerddi melus magwyrydd moliant.

Lle bydd dialydd yn dod
A dur ellyn ei drallod,
Yn barod gysgod i'r gwan,—mor foddus
Yw lles daionus lluestai anian.

Ogofeydd godidog fwyn—arosant
I ddyrysu cynllwyn
Stormydd gant, a gwawdiant gwyn
Gresynfawr groesau anfwyn.

Hafnau cân yn fwyn eu cylch
Geir yn agor o'n hogylch;
A'u nodded yn llonyddu
Daeargryn pob dychryn du;
Hedd gysgod rhag trallod trwm,—a buddiol
Orweddfa rasol i *Reddf a Rheswm.*

Torwn eto trwy natur
A'i helaeth ddarbodaeth bur,
A chawn o hyd uwch y naill
Hafan dir, fyn'd i eraill;
Lle na fydd aflonydd law
Annaturiol i'n taraw;
Noddfeydd serch na ddeifiodd saeth
Dawelwch eu bodolaeth.

Oes, mae Noddfa ar *bob gyrfa,*
Lle na feiddia llaw anfoddus;
Trwy'r *naturiol* a'r *ysbrydol,*
I'r *tragwyddol* gartre gweddus.

Meddianodd stormydd hynod,—arw faes
Amryfusedd pechod;
Ond i ffol anfarwol fod—mae ar ffordd
Ymlidiawg osgordd deimladwy gysgod.

Awn i Ganaan ogonol,—a gwelwn
Y Bugeilydd Dwyfol
Yn boddus drefnu buddiol—gorlanau,
Rhag ymweliadau y drwg ymlidiol.

Ar ddaear yr addewid,
Noddfa lawn a ddofai lid;
Llanwodd hawddgar drugaredd
Gonglau hon: ac engyl hedd
A ymwelent â'i moelydd,
Yn weis o dân, nos a dydd;
Gwlad wèn lle gwelwyd annuw,
Dan lonydd adenydd Duw!

A'i byw obaith, y "Babell"
Beunydd fu heb Noddfa well
I'r euog ŵr ga'i ei hun,—o flaen cledd
Ei lidus gamwedd, yn dlawd ysgymun;
Er i ddolur ei ddilyn—at y ddor,
Ar "gyrn yr allor" gwirionai'r ellyn!

I ddinasoedd hanesiol—ysbïwn;
Gras a bywyd hollol
A'u muriodd, rhag i'r marwol—ddialydd
Waghau ar fföydd ei gywir phïol.

O! dacw lofrudd o rudd ireiddiol
Yn ceisio "dinas" mewn gwanc estynol;
Rhyw uniawn frodor, yn anfwriadol,
A dwrn oferedd, darawai'n farwol;
Y mae soriant amserol—yn arllwys
Ei lidiog gynwys am dâl digonol.

O lawn feddwl anfoddog,—am ei ddal
Mae y ddeddf ddihalog;
Oer gerydd anhrugarog—y carchar
Yw'r llef o'r ddaear i'r llofrudd euog.

Fe red anifyr adyn,—a swn "gwaed"
Sy'n gwyn yn ei ddilyn;
Am osteg mae'n ymestyn,—yn ei ddrwg;
Ac O!'n y golwg mae egni gelyn!

Ias o dristwch sy drosto,—a daear
    Fel pe'n dianc dano;
Mae'r farn yn enill arno,—a'r adgas
Syniad a luddias ei anadl iddo!

  "Noddfa!" "Noddfa!" a ddarllena,
  A dianga rhag ei dynged;
  O'r pellderau cenfydd ddorau
  Yr hen gaerau yn agored.

Cyrhaedda yno,—ceir iddo anedd
O fwyn dawelwch, heb ofn dialedd;
Sydyn atalfa roddodd trugaredd
Ar wanc erlynwyr yn eu creulonedd;
Mae'n mwynhau emynau hedd;—Noddfa brid
Hongiodd addewid rhyngddo a'i ddiwedd!

  Iawn i'r hwn i hon a red
  Sugno addysg o'i nodded;
  Pob noddfa rybuddia'r byd
  Am *warth bai*, am *werth bywyd.*

  Efelychu'r gref loches,
  Ei hedd llawn, ei nawdd a'i lles,
Y bu gweinion baganiaid,—i angen
    Ingol ffoaduriaid;
  O wydd gwg noddfeydd a gaid,
  Er tarianu'r trueiniaid.

---

Beth dâl son am ddaioni—daearol
    Dyrau i'n cysgodi?
Noddfa nef yw'n cuddfan ni,—a ffyniant
Arosol fwyniant ar ei sylfeini.

Tra mae tyrau materol—yn fwyndeg
    Fendith i'r anianol,
Fe rydd ffydd i lofrudd ffol,—ddiangfa,
A'i natur guddia mewn Iawn tragwyddol.

Hardd hollol natur ddillyn—i'r ystad
    A roes Duw i'w blentyn;
  Ufudd-dod rhag damnio dyn
  Oedd y nefoedd yn ofyn.

Ond, er hyny, drwy enaid,—lledodd Twyll
    Duedd tân melldigaid;
Yntau'r gwr yn troi a gaid—yn gablwr
Ei briod Luniwr, â brad ei lonaid!

Fe dorwyd deddf drwy ei dân,—a thorwyd
    Llyffetheiriau taran
Dial, i ysu'r truan,—drwy feiau,
Ddymunodd wyniau—ddamniodd ei hunan!

  Y mae llid yn erlid hwn
  I wynias drothwy Annwn;
  Collodd buraf wynaf wawr
  Ei fwyn noddfa weinyddfawr;
Dedfrydwyd y difrodydd,—yn rhwymau
Ei enfawr boenau, i "farw beunydd."

Onid ing *cysgod* angau—yw gwyfyn
    Gofid a chystuddiau?
Mae chwerwedd dialeddau—barn, o hyd,
Yn ymlid bywyd am ledu beiau.

Y mae drud hawddfyd am dori deddfau
Yn dod yn benyd a duon boenau;
Y galon wthir, gan ragluniaethau,
Is trwm gafodydd ystorm gofidiau;
Y gwael anedwydd glyw nodau—"euog"
O gur ymlidiog yr ymweliadau.

Ond O! *mwy;* ar enaid mall,
Ymyryd mae *storm arall;*
Ei hysgydwol lais cadarn
Ddaw o bell, gan waeddi "Barn!"

Dlotyn! ond wele eto—ddifyrus
Noddfa arall iddo;
Caniateir, cyn y taro,—ddiddanwch,
A cheindeg heddwch i'w enaid guddio.

"Duw sydd Noddfa,"—dyma dwr
Dawela bob dialwr;
Eithafol "gymhorth" hefyd,
"Hawdd ei gael," yn hedd i gyd;
Ynddo heriwn ddyhirod—a'u dychryn,—
Mae i gredadyn amgaerau Duwdod!

Newydd fyd y Noddfa hon—agorodd
Y Gwr fu dan hoelion;
A gwelir gwaed ei galon,—ar y ddor,
Yn hawlio agor i wael euogion.

Iesu teg dan bwys y tân—a ddaliodd
Ddiluw cosb yr aflan;
O! finiog loes, fy Nuw glân
Dros enaid roes Ei Hunan!

Grasol Lywiawdwr yn groeshoeliedig
I ddyn hysbysodd y ddinas bwysig;
Llafuriodd Iesu, a'r llofrudd ysig
O'i fai a rodia yn adferedig;
Hwn o'i *enwi* yn unig,—sy'n troi'n ol
Egni symudol y gwae'n siomedig!

Hwn dry gyfiawnder ëon—i ganu
Yn ddigonol foddlon;
A'r druenus, fradus fron
Ddyogelodd â'i galon.

Er i storm, â'i garw stwr,—ail enyn
Ar geulanau'r cyflwr,
Dal y waedd wna'r duwiol wr—ar ei daith,—
Mae braich ei obaith am bur Achubwr!

Nid yw'r noethion driniaethau,—i ŵr Duw,
Ond rhyw dân "golofnau"
I'w arwain o ororau—'r dialydd,
I'w noddfa lonydd dan ddwyfol wenau.

Mor raslon! mae rhyw oslef
Yn neddf groes am noddfa gref;
Sigla'r Ion ddysglaer einioes
O flaen drwg flinderau oes
I droi enaid i'r anedd,
Er ei fwyn sy'n gaerfa hedd;
Ar ddyn o hyd rhoddi wna
Arw fyd;—fe'i *gorfoda*
I ddwyn gloes, rhag iddo'n glau
Golli nawdd gwell aneddau.

Ystyriwn anhawsderau,—molianwn
Am elynol groesau;
Rhoed y gwir gariad gorau,—yn eithaf
Y pair unionaf, i'n puro ninau.

Os yw mellt galanas, mwy,
Ac offer ing, yn cyffroi,—
O enau clir, heb ofn clwy',
Daw mawl drud am le i droi.

Y natur gwynol sy'n troi i ganu,
A bwriad cweryl yn ysbryd caru;
Glanhad i galon, a'i dyogelu,
Agorodd fwyniant yn lle griddfanu;
Nid oes yr un gelyn du—gyffyrddodd
Ddyn newydd frysiodd i noddfa'r Iesu.

Diofn ryddid fyn roddi—i hwnw
    Red yn union ati;
Egwyddor ffydd a gweddi—yw'r heol
O swyn rhinweddol sy'n arwain iddi.

  Effro deg "Offeiriad" hon
  A *erys*, i droi oerion
  Ddychrynfeydd o'i chaerau'n fud,—
  Mewn siom y myn eu symud
  Yn eiddil ar encil oll,
  Hyd i feinciau difancoll.

Bechadur annaturiol,—yn haeddfawr
    Gwel noddfa dragwyddol;
  Ac yn euog, annuwiol,
  I'r "Tŵr" yn awr tro yn ol.

Os ydyw'r ymosodol—ddialydd
    Yn dy ddilyn, farwol;
  Yn greadur gwaredol,
  I'r "Tŵr" yn awr tro yn ol.

Ydyw, mae diamheuol—wirionedd,
    O'i riniog sancteiddiol,
  Yn gwneud amnaid gondemniol,—
  I'r "Tŵr" yn awr tro yn ol.

Yn yr Iesu, yn rasol,—hawlia ffydd
    Le i ffoi, i fflamiol
  Ddyn o duedd andwyol,—
  I'r "Tŵr" yn awr tro yn ol.

Diystyraist dosturiol—deimlad Duw,
    Am wlad oer, estronol;
  Dianga o'th dŷ ingol
  I ddwfn hedd ei noddfa'n ol.

Cei yno lonydd, cei anwyl wyneb,
A chymod Trindod yn llawn tiriondeb;
Mae yno lawnder, a mewnol undeb
Y cerub ddynion yn creu boddineb;
Ni phair un nwyd gyffroi neb;—noddfa brid,
A'i hawddgar lendid yn ddigreulondeb.

Tonog fôr ar y gorau—yw y byd
Llawn o bob difrodau;
A'i dynged geidw angau—yn nystaw
Gaddug gelynawg ei ddu geulanau.

"O dòn i dòn" ydyw hanes—y byd
Yn ei barch a'i rodres;
Oer yw y tawch heb fawr tes
Dremia fewn i'w drom fynwes.

Gollwng mae'r storm ei gallu—arfiedig,
Ar fywydau'n crynu;
Heddyw, llon ar feddau llu,—gyda bloedd
Y mae drycinoedd yn medru canu!

Mor dda fod Noddfa y nef,—a drws Tad
Wedi'r storm a'i dolef;
Onid hawdd, yn y dyoddef,—dros y crych
Yn mlaen, yw edrych am lanio adref?

Tu hwnt i gorwynt a'i heintiau geirw,
O swn y moroedd sy'n adsain "marw;"
Heibio y daran a'i henbyd dwrw,
A gwae llechwraidd ei gallu chwerw;
Nid oes hanes dwys enw—marwoldeb,
Na barn, drwy wyneb y rhandir hwnw.

Fwynaidd hafan ddiofid,
I gadw'r llesg wedi'r llid
A'i curodd; porthladd cariad,
Heb dduon ysbrydion brad

A'u niweidiau'n ehedeg,
O barthau tân i'w byrth teg;
Nawdd eglur, ceulan ddiglwy',--
Ar hawliau mellt ffarwel mwy!

Fad newydd-fyd a'i noddfa—o'r galar
Yn nirgelwch Gwynfa;
Byd y bywyd heb aua',—lle, beunydd,
Mewn dwyfol dywydd mwynhad flodeua.

Dacw fwyndeg "Gyfiawnder"—yn for llon,
A'i hedd "fel afon" o ddwyfol leufer,
Parwydydd na ddaw pryder—drostynt mwy,—
Caerau diadwy cariad a hyder.

Ar y làn dyner, lonydd,—o gyrhaedd
Y garwaf ystormydd,
Mor gysurus foddus fydd
Mwynhau Caersalem newydd.

Wedi gwrando gerwinder,—a chroesi
Drwy echryswynt amser,
Melusach fydd fy mhleser
Yn hedd fwynhad Noddfa Ner.

O! ddifyr, ddedwydd hafan,—a'r puraf
Gariad uchelaf yn gwrido'i cheulan;
Priodol gynhes ysprydol Ganaan,
Ac iddi lewyrch tragwyddol huan;
Fyth glir gyfoethog làn,—a di-heddwch
Allu'r tywyllwch oll o'r tu allan!

Allan y bydd yr annuw,
Yn merw storm eirias Duw;
Byw'n ddamniol tragwyddol ga',
Ar boen haeddfawr, heb Noddfa!

Rhybuddir o'r bai, heddyw,—y dost iaith
  Nad oes "do ar ddystryw;"
Dan y farn o hyd yn fyw!—i ddifrod
A gwaeau'r Duwdod agored ydyw.

O! ddi-nawdd anedwydd nos,—terfyngylch
Wybreni ogylch heb wawr yn agos!

Storm a dinystr ymdaena—hyd anial
  Na fu "Dinas Noddfa"
Yn ei hanes, disgyna—'r llid i lawr,
Ar bleidiau ingfawr heb wel'd diangfa.

Dilyn y mae dialedd—aflanaf
  Elynion gwirionedd;
 A'i gyn wridog anrhydedd
 Geir yn glir ar garn ei gledd.

 Byth gladda ei boeth gleddyf
 O fewn bron anghyfiawn "bryf
 Nad yw'n marw," hwnw'n hyll
 Geir yn hollol grin ellyll,
 Yn griddfan o dan y dig,
 Yn llesg adyn llosgedig;
 Dim addewid am ddianc
 O law drom condemniol dranc;
 Dolur Cyfiawnder dilyth,
 A dwrn barn, a'i darnia byth;
 Yn ing y pwll gostwng pen
 Mae teyrn codwm tranc Eden!

Cyndynus "rincian danedd,"—heb oer ddafn
  O bur ddwr tangnefedd;
 Hirnos hyll! a theyrn ei sedd
 Sy'n eirias o anwiredd!

Mae'r Noddfa olaf i waelaf elyn,
A'i dorau dirfawr, tu draw i derfyn

Ei wlad annuwiol; tlodi a newyn,
A gwaeau dwyfol, yn gwawdio'i ofyn;
Oedodd, nes hyrddio'r adyn,—drwy angau,
Yn fod i ddechrau ar fyd o ddychryn!

*Byth! byth!* yn anobeithiol,—yn dynach
A'r cadwyni barnol;
Duw ni phaid gadwyno ffol
Rodres bradwyr ysbrydol.

*Barn! barn!* ac heb yr un bedd—i'w derbyn
O'u diarbed dostedd;
Dim cymod am y camwedd;—Duw gofia
Yr hwn a boera ar ei wyn buredd.

*Gwae! gwae!* yw'r cri tragywydd—darenir
Drwy annwn aflonydd;
A di-ball heb newid bydd—sobreiddiaf
Gyweirnod olaf udgorn dialydd.

*Tan! tan!* yn toni y tir—acw red
Dros y crin gyfandir;
Ei angerdd ni chyfyngir,—ar feiau
Y tyr yn donau trwy enaid anwir.

Dyna wlad yn *hawlio* hyn,—
*Hawlia* ddig anfeidrol ddwrn;
Diluw for y dial fyn,
Heb le i ffoi heblaw ffwrn.

O! fy Nuw, na foed fy niwedd—o fewn
Y fath fyd o chwerwedd;
Arswydaf! erfyniaf hedd
Dy ragoraf drugaredd.

Rho'r anian bur arweinia—at Iesu,
Tywysog Calfaria;
Am ei wledd ddiddiwedd dda—mae fy nghwyn,
A'i ddwyfron addfwyn yn ddifraw Noddfa.

# Y DEUGAIN MLYNEDD HYN.

JOHN EDWARDS, MERTHYR VALE.

TYRED, adgof, yn dy ddagrau,
  Ar hyd llwybrau bywyd gwyn ;
Dyro dro i blith rhosynau
  Anfarwoldeb yn y glyn ;
Paid a brysio drwy rinweddau
  Sy'n ymagor ar bob llaw,
Ac yn bwrw'u peraroglau
  Dros y bedd i'r byd a ddaw.

Awen sydd yn trydar gwyno,
  Chwerw gan ei gofid cudd ;
Fel colomen wedi'i chlwyfo,
  Rhwng canghenau'r ywen brudd ;
Saeth o fwa creulon angau
  Sydd yn ddwfn yn nghalon hon ;
Saeth na thynir am flynyddau,
  Am i'r bedd ysbeilio John.

Cyfaill pur yn llond yr enw,
  Boneddigaidd, hawdd ei drin ;
Ffyddlon, unplyg, a di dwrw,
  Gyda chariad ar ei fin ;
Tyner fel y gwlithyn llonydd,
  Yn adfywiol, ac yn glir ;
Cadarn eilwaith fel y mynydd,
  Dros yr iawn a thros y gwir.

Rhinwedd sydd yn ymgnawdoli
  Mewn cymeriad lawer pryd ;
A bugeilio'n mysg y lili
  Yw ei felus waith o hyd ;
Hoffir hwnw gan angylion
  Oedant ar ei lwybrau'n llon ;
Ac fe deimlwyd eu pelydron
  Lawer tro yn nghwmni John.

Gwyn ei fyd a groesa'r terfyn,
  Heb ymdroi mewn gwagedd ffol;
A'i weithredoedd yn ei ganlyn
  Yn orymdaith ar ei ol;
Nerthoedd bywyd, pur, di wastraff,
  Yn rhodfeydd ei ysbryd byw,
Yn ei wthio heibio'r seraph,
  I dangnefedd mynwes Duw.

Hawdd yw dilyn cwrs ei fywyd
  Hyd geulanau'r afon ddu;
Mae briallu goreu gwynfyd
  Yn blodeuo lle y bu;
Diwyd hauodd ar ei lwybrau
  Gnwd o swyn Paradwys bell;
Egwyddorion uwch gauafau,
  Sydd yn gwneud y byd yn well.

Creigiau aur yr Ysgrythyrau
  Ddyfal gloddiodd gyda blas;
Daeth o hyd i agoriadau
  Trysorfeydd efengyl grâs;
Dwfn ac eang ei wybodaeth
  Yn nirgelion gair y ffydd;
A thywynai Ysbrydoliaeth
  Ar ei feddwl fel y dydd.

Amlwg oedd yn mhlith y llwythau
  Sydd yn ymdaith tua'u gwlad;
Cefnodd byth ar diriogaethau
  Yr eilunod, a'u sarhad;
Ar hyd feusydd o ddaioni
  Tyfai parch yn ol ei droed;
A rhy gynar ydoedd tori
  Bedd i hwn yn ddeugain oed.

Deugain mlynedd yn yr anial,
  Dan arweiniad "colofn" Duw;
Am yr "Arch" yr oedd ei ofal,
  Wrth yr "Allor" dysgodd fyw;

Ca'dd o'r "Graig" ffynonau dyfroedd,
  Dwyfol ddiod cariad gwyn;
Cafodd hefyd "fanna'r" nefoedd
  Yn y deugain mlynedd hyn.

Pasiodd yntau fynydd Seina,
  Ar ei ymdaith yn y blaen;
A chyrhaeddodd ben ei yrfa,
  A'i gymeriad heb ystaen;
Dysgodd eilwaith er ei fwyniant,
  Ar lechweddau Seion fryn,
Mai dysgyblaeth i ogoniant
  Oedd y deugain mlynedd hyn.

Cwsg yn dawel, frawd anwylaf,
  Hawlio'r wyt felusaf hedd;
Tyfed byth y blodeu harddaf,
  Fel dy fywyd ar dy fedd;
Ni fesurir dy ffyddlondeb
  Gan linynau'n daear ni;
Gwasgwyd cynwys tragwyddoldeb
  I dy ddeugain mlynedd di.

Hiraeth ar y penrhyn marwol
  Sydd yn fud, yn curo'i fron;
Ac yn edrych i'r tragwyddol,
  Fel pererin dros y dòn;
Croesodd cariad mewn edmygedd,
  Gyda chyfaill drwy y rhyd,
Ac hyd heddyw mae yn gomedd
  Troi yn ol i'r anial fyd.

## CAIB A RHAW.

SAFAI cloddiwr di gymeriad
  Uwch ei wydryn gyda'r nos;
A bradychai lliw ei ddillad,
  Iddo fyw mewn llawer ffos;
Gwelwyd bryniau yn llewygu
  Ger ei fron, yn fud o fraw;
Er na feddai ddim ond gallu
    Caib a Rhaw.

Fel y cloddiwr na fỳn wybod
  Am fodolaeth uwch na chlai,
Llawer meddwl di gydwybod,
  Sydd yn byw ar gloddio bai;
Codant gweryl a'u cysgodion,
  Yn y llaid y mynant fod;
Tori beddau i angylion
    Yw eu clod.

Welaist ti'r gohebydd bychan,
  Yn amcanu bod yn fawr?
Cred mai'r ffordd i godi'i hunan
  Ydyw tynu'r byd i lawr;
Tra bo gwendid yn ei dalcen,
  A'i rymusder yn ei law,
Rhodder iddo yn lle pluen
    Gaib a Rhaw.

Dyfal greu, ac adeiladu,
  Yw y prawf o dalent gwr;
Ond gall hurtyn wedi drysu
  Dynu lawr yr uchaf dŵr;
Nid yw'n gamp i neb ddystrywio,
  Gall y dwl roi ty ar dân;
Ond ei *godi* sydd yn hawlio
    Mawl a chân.

Hoffder ambell hogyn gwirion,
A meddalwch yn ei bryd,
Yw ymosod ar nefolion,
Am ddadguddio gloewach byd;
Pell o gyrhaedd ei ddirnadaeth
Yw awenau'r sêr uwchlaw;
A bradycha etifeddiaeth
Caib a Rhaw.

Llawer ffordd sydd o ddinodedd,
Ac o niwl diddymdra oer;
Ffordd yr ynfyd i glodforedd,
Yw cael rhinwedd dan ei boer;
Gall y llofrudd mewn gwaradwydd
Dynu sylw ato'i hun;
Ac o grogbren daw enwogrwydd
Ambell un.

Cred y gŵr fod ynddo dalent
Anffaeledig, ddiystaen;
Cred mai troi y byd yn fynwent,
Yw y ffordd i'w yru 'mlaen;
Wedi twrio yn aflonydd,
Wedi chwysu fel y gwlaw,
Ymuniona ar domenydd
Caib a Rhaw.

Mae gonestrwydd mewn cenfigen,
Am ei bod yn lladd ei hun;
Gwingo dani mae ei pherchen
Fyth yn groes ac anghytun;
Byddwch fwyn wrth hunanoldeb,
Pan i olwg byd y daw;
Chwilio mae am anfarwoldeb
Caib a Rhaw.

# Y DRAGOMAN.

Y Dragoman yw'r bod rhyfedda'n fyw,
  O wyneb melyn, ac o galon ddu ;
A *drag* ofnadwy ar ymdeithydd yw,
  Yn rhodio'n olion traed yr oesau fu ;
O gwmpas fel drychiolaeth mae'n ymdroi,
  Yn lleban diog, troednoeth yn y gwres ;
A thrais a gormes Pharo wedi rhoi
  Haerllugrwydd annwn ar ei wyneb pres.

Penuchel saif ar gonglau'r ffyrdd o hyd,
  A phoeni pererinion yw ei waith ;
Mae'n hyawdl iawn yn nhafod ieithoedd byd,
  Er nas gall ddweyd y gwir mewn unrhyw iaith;
Ar dwyll a chelwydd mae yn byw yn fras,
  A thybia'n ffol mai rhinwedd ydyw hyn ;
A phrin mae digon yn y nef o ras
  I droi cydwybod Dragoman yn wyn.

Mae traddodiadau'n tyfu ar ei go',
  Yn nghanol chwedlau o bob lliw a llun ;
Fe ddysgodd ofergoelion dyla'r fro,
  Cyn dysgu'r wyddor yn ei iaith ei hun ;
Cred yn ei galon fod y byd yn ddall,
  A'i gymhell wna i eistedd wrth ei droed ;
Mae pob gwybodaeth yn ei ysbryd mall,
  Er na fu llyfr yn ei law erioed.

Anturia'n mhell i niwl y byd a ddaw,
  A chroesa drothwy beddau yn ddi ofn ;
A chred fod yr ymdeithydd dan ei law
  Yn cario'i synwyr yn ei logell ddofn ;
Dichellgar swynwr, cyfrwys yn ei waith,
  Ymhonwr cibddall, digywilydd yw ;
Yn gollwng y pererin wedi'r daith
  Yn ol i'w gartref wedi'i flingo'n fyw.

# ONNEN Y MYNYDD.

MAE adgof y prydydd am Onnen y Mynydd,
  Yn dwyn ei foreuddydd o'r newydd yn ol;
A hiraeth a gyfyd, mewn siomiant ac adfyd,
  Am fywyd mor ddiwyd addawol.

Fe gofia'r llechweddau am Enid a minau,
  Ddiniwed gariadau yn llwybrau y llus;
Rhodfeydd o lawenydd, lle nytha'r ehedydd,
  Dan fanwydd wna foelydd yn felus.

Dan frigau yr Onnen o dwrw daearen,
  Eisteddem yn llawen, a'n hwybren yn hedd;
A phrofwyd yn gynar serchiadau ymlyngar,
  Yn ngwynfa'r dialar daweledd.

Yn ol yr hen arfer, o'r brigau yn dyner,
  Ni chwiliem "gynifer" heb bryder na brad;
Mi'n methu, er chwilio, ond Enid yn llwyddo,
  Gan fostio fy nghuro, fy nghariad.

Fe blygai'r criafol i lawr yn naturiol,
  At ddwyrudd wyryfol rhyfeddol o fwyn;
Ond gwywent yn hapus yn ymyl cariadus
  Liw gwefus dymherus fy morwyn.

Ond heddyw'n yr heulwen ni welir yr Onnen,
  Ac O! dan yr ywen mae'r feinwen yn fud;
A dagrau na rwystrir, am wyryf mor eirwir,
  Yn hir a dywelltir gan alltud.

Mi groesais fynyddau o dduon ofidiau,
  A dal mae'r cymylau yn nenau fy nydd;
A thrydar mewn angen, fel gweddw golomen,
  Mae awen am Onnen y Mynydd.

# GENAU GLAN.

CADW dy enau yn bur,
  Sanctaidd o hyd fo dy wefus;
Gwrthod y chwerw a'r sur
  Lle mae cusanau yn felus;
Os yw'th dymherau yn flin,
  Os yw dy nwydau yn greulon,
Cadw yn mhell o dy fin
  Wenwyn angeuol dy galon.

Tlws yw y bwa'n y nef,
  Tlysach ar fin yw gwirionedd;
Hyfryd i glust yw y llef
  Gyfyd o burdeb difaswedd;
Gochel genfigen a gwawd,
  Rhag it' lofruddio dy hunan;
Paid a phardduo dy frawd
  Sydd yn teilyngu dy gusan.

Cariad a bïa y gwrid
  Liwiodd rosynau dy wefus;
Paid rhoddi cenad i lid
  Chwythu ar ardd mor hudolus;
Blodeu o serch ac o swyn,
  Llwythog o ddiliau bendigaid;
Arnynt anadla yn fwyn
  Oreu feddyliau dy enaid.

Cadw dy enau yn lân,
  Paid a'i sarhau o dy wirfodd;
Pan fo dy dafod ar dân,
  Galw gydwybod i'w ddiffodd;
Melldith, cableddau, a chas,
  Ddeifiant y byd yn ddiffaethwch;
Cariad, rhinweddau, a gras,
  Dyfant yn gnwd o ddedwyddwch.

# GERDDI HANES.

MAE Adgof, mewn gofidiau,
  Yn son am ddyddiau gwell;
A hed yn ol dros feddau'r byd,
  I lwyni Gwynfa bell;
Lle tyfai Pren y Bywyd,
  A'i frig yn ddwyfol hardd;
A Duw yn rhodio gyda dyn,
  Yn nghanol blodeu'r ardd;
Ond collwyd allwedd Eden,
  Clöedig yw o hyd;
A'r garddwr allan dan y farn
  Yn anial gwyllt y byd.

Diosgaf fy sandalau
  Yn rhwydd oddi am fy nhraed,
Ac af, a deigryn ar fy ngrudd,
  I ardd y dafnau gwaed;
Lle clywyd cri dyfalach
  Y Duwddyn yn ei fraw;
A chwpan colledigaeth dyn
  Yn crynu yn ei law;
Croesawodd ddioddefaint,
  A chusan bradwr ffol,
I agor dôr Paradwys well,
  I'r garddwr gynt yn ol.

Yn fore gyda'r gwragedd,
  A chalon lawn o ffydd,
Esgynaf lechwedd bryn y groes,
  I ardd y trydydd dydd;
Er cloi y beddrod newydd,
  Gan angeu'r dydd o'r blaen,
Mi welaf anfarwoldeb gwyn
  Yn treiglo i ffwrdd y maen;
Mae heddyw newydd heulwen,
  Ar nos y dduaf hynt;
A Phren y Bywyd ar y bedd,
  I arddwr Eden gynt.

# CUSAN BRAD.

Yn yr ardd, a'r nos oedd hi,
Dan gysgodau Calfari;
Nos y cwpan du ofnadwy,
Nos y cusan bythgofiadwy;
Wedi'r ing, a'r dafnau gwaed,
Clywid swn y milwyr traed
Gyda'r bradwr, fynai dori
Calon Duw yn lle'i glodfori.

Cusan brad ar wefus gu,
O! mor chwerw, O! mor ddu;
Bradwr duaf creadigaeth,
Ar ymylon colledigaeth,
Lliw a blas y pydew blin
Roddodd annwn ar ei fin;
Cusan olaf llofrudd garw,
Cusan oer cydwybod farw.

O! y wefus sanctaidd bur,
Nad adnabu deimlad sur;
Un a wnai i engyl ganu
Yn felusach o'i chusanu;
Dacw hi, o dan sarhad
Aflan fin, ac wedi'r brad
Gwelai'r ser drwy'r deiliog gangau
Lili'r nef dan farug angau.

"Henffych well!" Taw! aflan bryf,
"Henffych well!" O gabledd hyf!
Wylai'r coed ar fron eu gilydd,
Gwridai'r blodau gan gywilydd;
Cusan brad! Ei swn o hyd
Ddyry loes i gariad byd;
Ond yn ol y daw'r diraddiad,
Cyflog brad yw hunanladdiad.

# Y GWR GOFIDUS.

Ar danau briw
Fy nhelyn mae fy llaw, ond try y gân
Yn wylo tawel heb yn wybod im',
A phlygaf i addoli. Clywaf swn
Griddfanau rhyw Bererin yn y niwl
Ar anial diroedd bywyd, ac mae lliw
Ei ddioddefaint ar y creigiau oer;
Cydymaith angeu, yn rhodfeydd y glyn,
Fel un yn chwilio am ei ddystaw fedd.

Cynefin iawn a dolur oedd Efe,
Heb reswm am y dolur ynddo 'i hun;
Yn ddigon glan ei wisg i ddenu bryd
Angylion i'r dyfnderau ar ei ol;
Na feier f'enaid am addoli Hwn,
A chalon ar fy min.

Mor unig oedd,
Yn ddwyfol grwydryn hyd y bryniau pell—
Yn Dduw di-gartref yn ei fyd ei hun,
Ac ysbryd Herod ar ei ol o hyd;
O! braidd na chenfigenai wrth y pryf
Gai noddfa gyda'r hwyr yn holltau'r graig,
Neu'r tlws aderyn yn ei wely plu;
Fe glywai greulon fyd yn cau ei ddor,
A swn y bollt yn clwyfo'i galon lân;
Ac yntau allan yn unigrwydd nos,
Ar hyd y bryniau yn bererin llesg,
A'i weddi'n cadw'r blodau ar ddihun;
A'r ser yn wylo ac yn crynu'n fud.

Fynyddoedd tawel yr encilion pell!
Hyfrydwch enaid fydd eu dringo mwy;
Hen byramidiau natur, a rhodfeydd
Angylion ar eu brig heb eu dileu;
Anadlwyd arnynt hwy feddyliau cudd
Y Gwr Gofidus—cyfrinachau'r nef,
Nas clywyd eu sibrydion dwyfol ddwfn
Ond gan fynyddoedd yn nystawrwydd nos;

Pa le mae'r proffwyd a ddeongla fud
Efengyl y mynyddoedd? Faint o feddwl
Messiah Duw sy'n aros o dan gwmwl
Ar femrwn creigiau? Pa sawl cawod fawr
O ddagrau a dderbyniodd llawer bryn,
Nas gwyr y byd am danynt? Wylodd Ef
Liw dydd ar wddf dynoliaeth lawer tro,
Ond wylodd fwy ar lawer mynydd noeth
Liw nos yn ngoleu'r ser.

O! pa mor llym
Yw dirmyg a sarhad i galon bur?
Mae tlodi'n anrhydeddus, ac yn ras,
A gras yn gyfoeth, lle mae'r cefn yn llwm;
Fe geir brenhinoedd mewn cabanau coed,
A llawer seraph fagwyd ar y plwy;
Mae gemau cyfoethocach yn y llwch
Na'r aur sydd mewn coronau lawer pryd;
Ni chywilyddia neb ei fod yn dlawd.
Ond dirmyg! diystyrwch! a sarhad!
Teimladau ellyll—balchder uchel drem
A'i belydr yn waradwydd—gwreichion tân
O losg fynyddoedd gwlad yr haner nos—
Pwy all eu dal? Teimladau sydd a'u min
Yn chwerwach na marwolaeth, ac yn gwneud
I'r enaid ymarfogi yn ei lid,
Mewn gwyllt wrthryfel dros ei hunan barch.

Ond pa mor ddeifiol oedd llygredig wawd
I galon nad adnabu dwyll erioed?
I ddwyfol gariad? Dirmygedig oedd,
Gymeriad gwyn, a phob gwaradwydd du
Yn disgyn ar ei ysbryd. Pwy a wyr
Effeithiau dirmyg ar ledneisrwydd pur?
Pwy draetha'i oes? Pwy ddywed pa mor ddwfn
I'w dyner galon, oedd mor lân a'r nef,
Yr ysai fflam y tân melldithiol hwn?
Mor hawdd yw clwyfo calon ddifrycheulyd,
Y puraf gariad yw'r tyneraf hefyd;
O! addfwyn Iesu, ymgnawdoliad oedd

O burdeb a thynerwch, ac yn fyw
I'r poen a'r dioddefaint oedd o'i gylch
Yn erlid bywyd, ac yn duo amser,
Yn cymhell angeu, ac yn chwalu pleser ;
Y mwyaf dibwys o drallodau'r byd
Adawai brudd-der ar ei ysbryd mawr,
A chlywai ddystaw lef pob calon friw ;
Fe deimlai'r gorsen ysig ar y maes
Wres ei dosturi, am fod bywyd hon
Yn fychan ddafn o'i fywyd Ef ei hun.

Anwylai fywyd yn mhob ffurf a llun,
O'r seraph tanllyd i'r abwydyn dall ;
Ac adfyd gwyfyn a gymhellai don
O gydymdeimlad i'w ddihalog rudd ;
Teimladau cudd y trychfil sydd yn byw
Ar fin diddymdra, ac yn marw'n hen
Yn nghwrs munudyn—gwelai Ef yr oll,
A gwyddai brofiad y peth bychan oedd
Yn ymgordeddu yn ei farwol boen
Heb wybod pam, na gallu dweyd ei gwyn ;
Griddfanai'r Gwr Gofidus uwch ei ben,
A'i galon dyner a chwenychai wae
Pob bywyd iddo'i hun.

O gyfaill byd!
Mor ddigyfeillion ydoedd ! Nid yw'n syn
Fod enw'i Dad mor aml ar ei fin.
A phan heb le i roi ei ben i lawr,
Yn wrthodedig, cofiai dŷ ei Dad,
A lluoedd tragwyddoldeb ar y lawnt
Yn troi eu gwynfyd yn ganiadau per ;
Rhaid fod ei galon yn ei ing yn llawn
O ddwyfol hiraeth am ei gartref gynt.

Ni throdd yn ol er dued yr ystorm,
Ac er y gwelai stormydd mwy yn mlaen ;
Anturiodd i'r tymhestloedd wrtho'i hun,
A holl arfaethau'r nefoedd yn ei law ;

Ni chollodd un! Ond O! ai nid oedd ing
Y marw'n ddigon i foddloni'r nef
Heb droi y ffordd yn angeu ar ei hyd?
Taw! f'enaid euog; mae dy natur di
Yn cymhell stormydd angeu o dy gryd.

Ei ddilyn wnaf i fewn i'w olaf awr,
I'w wel'd yn yfed yn dragwyddol wag
Ofnadwy gawg fy ngofid yn fy lle;
Cymysgedd chwerwaf colledigaeth dyn,
Gwaddod euogrwydd, a chronfeydd o lid,
Yn ddiod barn, a yfodd er fy mwyn;
Y cawg a liwiodd a'i ddefnynau gwaed
Wrth ei ddyrchafu at ei sanctaidd fin;
A'i grogi wnaeth ar ol ei lwyr waghau,
Ar gainc y groes a godwyd ar y bryn.

A gwynaf fi,
Bererin gwynfyd fod fy maich yn drwm?
Fod cenllysg yn y storm, a'r nos yn hir?
Mae gweld y Gwr Gofidus o fy mlaen,
Yn troi fy ngauaf yn dragwyddol haf;
Y barnau duon dyfodd ar y ffordd
Ddiwreiddiodd yn ei ing, a'u taflu wnaeth
Yn ddefnydd tân dros y terfynau byth,
Gan hau yn dyner yn ei ddafnau gwaed
Dangnefedd Duw i dyfu yn eu lle;
A gwynaf fi, wrth ddilyn yn y blaen
Hyd llwybrau sydd yn flodeu ac yn haul?
Cywilydd yw i mi fellditthio dydd
Fy ngenedigaeth, am nad wyf yn cael
Fy ffordd fy hun. Y mae fy nuaf nos
Yn llawn o sêr, a thrallod pan y daw
Yn ddim ond gwlith ar diroedd enaid sych,
I gadw blodeu cariad yn eu gwrid;
Pan daeno cysgod angeu dros fy nydd,
Nid yw ond *cysgod.* Mae y sylwedd hyll
Yn griddfan mewn caethiwed o dan faen
Bedd gwag y trydydd dydd!

## Y DIOG A'R DIWYD.

Gwr segur—oes o wagedd—a gâr hwn,
Heb grefft ond i'w ddanedd;
Aelod salw, di sylwedd
O deulu byd, delw bedd.

Ceisio maeth ac esmwythyd—ydyw gwaith
Diog ŵr di ysbryd;
Ond esmwythau beichiau'r byd
Ydyw awydd y diwyd.

Gwae sydd agos i ddiogyn,—a di ffawd
Yw ffyrdd y seguryn;
Ond o'i faes y diwyd fyn
Lân dyfiant, lond ei ofyn.

Hyfforddwch, dygwch eich dawn—i ddiogyn
Yn frawddegau graslawn,
Efe'r edlych afradlawn
Fydd isel ŵr, fydd sal iawn.

Ond deheuig ŵr diwyd,—i'w fawl wêl
Ddwyfol hawliau bywyd;
A'r da gasglwr di gysglyd
Ga felly barch, gyfaill byd.

Ymddyger at lwm ddiogyn—yn deilwng
O'i dalent, ac wedyn
Y goreu dâl a ga'r dyn
Ydyw niwed a newyn.

Am loniant y miliwnydd—rhaid ymroi;
Dyma reol cynydd;
I'r diwyd ŵr hyd y dydd,
Daw golud di gywilydd.

# DYDDIAU'R NEFOEDD.

DYDDIAU'R nefoedd ar y ddaear,
Nid oes delyn heb ei thant;
Cilia gofid, cilia galar,
Pan y cofia Duw ei blant;
Mae angylion yn yr awel,
Yn ehedeg yma thraw,
Ac yn dwyn i Seion dawel
Drugareddau'r byd a ddaw.

Dyddiau hyfryd, llawn o wynfyd,
Dyddiau'r hen addewid fawr;
Moliant i Dywysog bywyd,
Am ddefnynu'r nef i lawr.

Dyddiau'r nefoedd ar y ddaear,
Fel y gwanwyn yn y coed;
Ac mae cwmni'r Iesu hawddgar
Yn felusach nag erioed;
Nid oes bleser ar ddrygioni,
Nac arddeliad ar ei gân,
Tra mae calon byd yn profi
Dwyfol hedd yr Ysbryd Glân.

Dyddiau'r nefoedd ar y ddaear,
Llawn o haul ac wybren glir;
A rhosynau Duw yn gynar
Dyfant hyd yr anial dir;
Gyda'r llwythau o'r pellderoedd,
Ar hyd llwybrau o fwynhad,
Hawdd yw teithio tua'r nefoedd,
Tra fo'r Iesu yn y wlad.

Dyddiau hyfryd llawn o wynfyd,
Dyddiau'r hen addewid fawr;
Moliant i Dywysog bywyd,
Am ddefnynu'r nef i lawr.

# Y DDAU NIWL.

AR aden diniwed golomen,
Brys-genad cyntefig y wlad,
Cyrhaeddodd y newydd y bachgen,
Fod angeu wrth wely ei dad,—
A chariad yn niwloedd
Y Duon Fynyddoedd,
Yn symud yn araf yn mlaen at y ffin,
Ac enw un anwyl yn floesg ar ei fin.

Prysurodd y bachgen i'w weled,
Dros anial fynyddoedd y wlad;
Anghofiai ei newyn a'i ludded
Wrth feddwl am aelwyd ei dad;
Ond pylodd yr huan,
A gwelodd yn fuan
Gymylau o niwl ar ei ffordd yn amgau,
A duon gysgodau yr hwyr yn neshau.

Ymddrysodd yn myd y cymylau,
A chrwydro'n aflonydd y bu;
Diflanodd rhodfeydd y mynyddau,
A nefoedd a daear yn ddu;
Yn mlaen ymbalfalodd
A'i draed a'i gollyngodd
Dros graig oedd i galon eryrod yn fraw,
A nodyn colomen ei dad yn ei law.

Y tad cyn y bore a hunodd,
A chroesodd yn ddystaw y ffin.;
O'r niwl i'r goleuni y glaniodd,
Ac enw ei fab ar ei fin;
A syndod i'w ysbryd
Ar geulan y bywyd,
Oedd gweled anwylyd ei serch yn ei wyn,
Yn dysgwyl ei dad y tu arall i'r glyn.

# DYSG A DAWN.

GARDD yw dysg; a rhodd yw dawn—i'w meithrin,
Ei mathru sydd greulawn;
A braenar bore uniawn
A ddeil yn wyrdd pan ddel nawn.

Cwyd addysg i dueddau—dihanes;
A dywenydd oesau
Fydd dilyn, uwch gelyn gau,
Lle ceir enill coronau.

Oer ac ammwys yw'r cwmwl,—yn nen byd
Anwybodus benbwl;
Ond gwên dydd heb dagnwy dwl
Yw grym addysg i'r meddwl.

Y mebyn ŵyr am aberth,—hwnw dyf
Yn dàl ac yn gydnerth;
Oriau hoffus o drafferth,
Ar synwyr gŵr sy'n rhoi gwerth.

Drwy angen hir dringo wna,—eto'n uwch
At ei nod esgyna;
Ac yn llon, yn hinon ha,
Bryn Euclid dabernacla.

Wedi ymgais diamgen,—ac esgyn
O'r cysgod i'r heulwen,
Trwyadl y tŷr ei awen
Wybodau'r byd ar ei ben.

Y dyfal wŷr a ddaliant—i hau gras
Yn y grwn fraenarant,
O had y nef medi wnant
Gaeau gwenith gogoniant.

# Y TEGAN LLONYDD.

Mor anwyl yw y tegan
  Crogedig ar y mur;
Cadd ddeigryn wrth ei hongian,
  O gwmwl cariad pur;
Ei gynwrf a dawelwyd,
  A phoenus yw ei hedd;
Mae'r llaw fu yn ei ysgwyd
  Yn llonydd yn y bedd.

Bu'r tegan yn llawenydd
  I'r bychan yn ei gryd;
Deallai'r ddau eu gilydd,
  Cyn deall iaith y byd;
Ddifyred yr ymddiddan,
  Breuddwydion cariad iach;
Yr un oedd iaith y tegan
  A iaith y plentyn bach.

Pan fethai melus hwian
  Dawelu'r eilun glân;
'Roedd golwg ar ei degan
  Yn troi ei wylo'n gân;
Ond cefnodd ar ei loches,
  Yn mud y siom a'r cur;
Ac nid oes dim o'i hanes,
  Ond tegan ar y mur.

Mae bywyd yn aflonydd,
  Ar ol pleserau gau;
A rhaid cael rhywbeth newydd
  O hyd i'w lawenhau;
Ond er ei wanc aniwall,
  Am gael y byd i'w gôl,
Ni wêl cenhedlaeth arall
  Ond tegan ar ei ol.

# AWDWR BYW DAN FLODEU'R BEDD.

"*I feel the daises growing over me.*"—KEATS.

DIANGODD dros y culfor,
A'i fywyd yn ei law;
Gan deimlo ar ei ysbryd gwyn
Gysgodau'r byd a ddaw;
Rhosynau wedi gwywo
Oedd ar ei ddwyrudd glaf;
Tra blodeu'r Eidal yn eu gwrid,
Ar desog lawnt yr haf.

Eisteddai dan y gwinwydd,
Aroglai falmau'r ddol;
Ond gwelai fedd o'i flaen o hyd,
Ac angeu ar ei ol;
Fe deimlai y dywarchen
Yn cau am dano'n dŷn;
A llygaid dydd a'u llond o haul
Yn cadw'i fedd yn wyn.

O! brofiad calon rwygol,
O! ymwybyddiaeth flin;
O dan lywodraeth angeu'n byw,
Cyn iddo groesi'r ffin;
Fe welodd ei gynhebrwng,
Ac arch ei fywyd drud;
Gan sylweddoli cwsg y bedd,
A'i awen bêr yn fud.

Ar làn y Diber lonydd,
Felused yw ei hedd;
A'i broffwydoliaeth yn parhau
Yn flodeu ar ei fedd;
Er cael ei sathru'n greulon,
I'w fedd yn nghynt na phryd,
Mae cnwd ei awen ar ei ol
Yn perarogli'r byd.

# MAE GWEDDI'N HOLLALLUOG.

MAE Brenin nef a daear lawr
  Yn gwrando dy ymbiliau;
Yn enw dy Waredwr mawr,
  Dos ato ar dy liniau;
Yn nghanol gofid, poen a braw,
  Ni raid i'th galon dori;
Mae agoriadau'r byd a ddaw,
  O hyd yn llaw dy weddi.

Os nad yw'r byd yn gwrando'th lef,
  Yn eiddil, ac yn euog,
Anadla'th angen tua'r nef,
  Mae gweddi'n hollalluog.

Mae deddfau'r byd i weddi'r ffydd
  Yn plygu mewn ufudd-dod;
A rhaid i'r haul ar haner dydd
  Arafu yn ei gwyddfod;
Yn swn ei dofn ochenaid hi,
  Anghofia'r claf ei ingoedd;
Ac angeu pan y clyw ei chri,
  A gilia'n ol flynyddoedd.

Ehed i'r nef o galon friw,
  Am ddwyfol ysbrydoliaeth;
A daw yn ol yn enw Duw,
  I enill buddugoliaeth;
Mae nerth y Groes a'r angeu drud
  Yn fywyd ar ei haden;
A'i gelyn sydd yn gwyro'n fud
  O flaen ei theyrnwialen.

Os nad yw'r byd yn gwrando'th lef,
  Yn eiddil, ac yn euog,
Anadla'th angen tua'r nef,
  Mae gweddi'n hollalluog.

# PA DDRWG A WNAETH EFE?

O FEWN y llys llygredig,
  Yn ngolwg pen y bryn,
Yr Iesu bendigedig
  A safai'n ddwyfol wyn;
Dibrisiodd ei ogoniant,
  I gael y byd i'w le;
Ac yn y ddalfa, wybu neb
  Pa ddrwg a wnaeth Efe.

Trodd lengoedd o ysbrydion
  O lawer calon friw;
A dysgodd i ynfydion
  Feddyliau goreu Duw;
Bu'n hau daioni'r nefoedd,
  Ar aswy ac ar dde;
A holai llawer beddrod gwag,
  Pa ddrwg a wnaeth Efe?

"Croeshoelier," medd y dyrfa,
  Yn wallgof a chytun;
Er fod ei sanctaidd yrfa
  Mor lân a'r nef ei hun;
Mewn cariad a thosturi,
  Bu'n wylo dros y dre';
A gofyn mae ei ddagrau pur,
  "Pa ddrwg a wnaeth Efe?"

Bu farw dros ei elyn,
  Yn swn cableddau lu;
A phrynodd newydd delyn
  I lofrudd calon ddu;
Mae adsain yr ymholiad
  Yn llanw'r byd a'r ne';
Ond erys heb ei ateb byth,
  "Pa ddrwg a wnaeth Efe?"

# CARDOD Y PLWY.

Yn unig yn myd y cystuddiau,
Siomedig a thlawd yw y gwr;
Mae llwydni y bedd ar ei ruddiau,
A difrod y bedd ar ei dŵr;
Llafuriodd ei orau
Am hirion dymhorau,
Ond adfyd a'i daliodd, a theimlodd ei glwy,
A'i gynil ymgeledd yw cardod y plwy.

Mae'n cofio amgenach blynyddoedd,
A llewyrch yr haul ar ei frig;
Pan lamai ar hyd y mynyddoedd,
Mor iach ag awelon y grug;
Ond heddyw'n lluddedig,
A'i wàr yn grymedig,
Mae tlodi'n aredig ei galon yn ddwy;
A'i law yn agored am gardod y plwy.

Yn ngolwg terfynau'r addewid,
Mae'i ysbryd yn araf ymdroi;
A phobpeth o'i gylch yn cyfnewid,
A'i haul yn y gorwel yn ffoi;
Yn ngwlad y cysgodau,
Ac angen di flodau,
Diflanodd cyfeillion, mor brin ydynt mwy;
Eu cariad a drodd yn elusen y plwy.

Tydi, sydd ar aur yn gwirioni,
Paid codi yn uchel dy lef;
Elusen yw swm dy ddaioni,
O gyfoeth trugaredd y nef;
Mewn dyrys dreialon,
Mor llwm fyddai'th galon,
Heb nefol fendithion, yn fil ac yn fwy;
Cardotyn wyt tithau, yn byw ar y plwy.

# YR AELWYD.

O! F'ANWYLAF hen aelwyd,
Mwynhad oes i'm henaid wyd
Bore lonydd bur lanerch,
Ac yn dy swyn cnydia serch;
Ei brïod ros sy'n bur drwch,
Yn hud-ddenu diddanwch
I deyrnasu'n deyrn oesol,
A'i fwyndeg hedd fewn dy gol;
Dengar Eden gwr ydwyt,
A'i ddaear nef di ddrain wyt.

Wyt air teg yn taro tant,
O delynol adloniant;
Rhyw dant euraid naturiol,
A'i dirion hedd heb droi'n ol;
Harddaf rin greddf rhieni
Yw trin y tant arnat ti.

Natur helynt yr Aelwyd,
Heb len gudd o'n blaen a gwyd;
Amhuredd gau, mawredd gwir,
Lawr i hon a olrheinir;
Maidd lywio meddwl ieuanc,
A rhoi llwydd ar lwybrau llanc;
Mae bai dwys "mebyd" isod,
Yn "oedran dyn" adre'n dod;
I bawb yn ol ar bob nwyd
Ceir olion pwnc yr Aelwyd.

Drud randir di erwindeb,
Na chwenych nych, na chwyn neb;
Ond arno'n der, ini'n dod
Y mae bendith mabandod;
Uwchben yn ei nen o hyd,
Saif enfys o fyw wynfyd;
Arno myn rhieni mad
Liwiau cwrel eu cariad.

Dor gwyn i droiog einioes
Ydyw, a chryd dechreu oes;
Rhyw sanctaidd ris ieuenctid,
I wybod taith drwy bob tid
O ddinodedd anwadal,
I glod teg a'i olud tâl;
I lygad haul 'e gwyd hon
Gudd, heriol, egwyddorion.

Fwyn Aelwyd! ŷf anwylion
Buredig ras ei "bord gron;"
Ni etyl dim i natur
Fwynhau y cwpanau pur;
Tyner iawn yn tanio'r hwyl,
Y mae mynwes mam anwyl;
A thad eilwaith a'i delyn,
Yn troi gwae o'i gartre gwyn;
Chwareugar y plyga'r plant,
Gan dumewnol gnwd mwyniant;
Eiliant fel brwd angylion
Gampau serch o gwmpas hon.

Yn hon cawn orseddfainc gu
At alwad y pen teulu;
Gorsedd gras o hawddgar rin
I dylwyth ar eu deulin;
Swn cariad sy'n y cerydd,
A chwynion serch yn iawn sydd;
Gallu deddf er gwella dyn,
A chreu heddwch i'w wreiddyn;
Ufudd fawl y nefoedd wen
Anela'r deyrnwialen.

Yno *gwr* yn *blentyn* gaf,
Ac antur ei gam cyntaf;
Diniwed fod, ond i fyw
Tra byddo Duwdod ydyw;
Ffon gyntaf ei ddoethaf ddysg,
Ac allweddau cell addysg
Geir yma byth, a grym bair
Gydio'n y bellaf gadair.

Gras ar ol gwersi'r aelwyd,
I "lwybr cul" bri a'i cwyd;
A'i fawrion ragorion gant
Yn gwŷnu gan ogoniant;
Yn fab heinyf heb anair,
Ysgydwa'i oes gyda'i air;
Llosg ewyllys, a gallu,
Ac arf dawn yn gryf o'i du;
Ar ddewis ffyrdd ei awen,
Ceir ol dysg yr Aelwyd hen.

Beth yw rhwymau bryniau brad,
I linell ei ddylanwad?
Gwagedd noeth, gogwyddo wnant,
Ac o'i olwg y ciliant;
Rhwyga'i fore gyfeiriad
Eu mynwes rydd mewn sarhad;
Di ail chwareua'i delyn,
Ar ael pell yr Alpau hyn.

Rhosynau ar draws henoed,
Yn hael drwch yn ol ei droed
A dyfant, a'u gwrid dwyfol
A dŷn fyd yn hyf o'i ol.

Ar ol oes o wrol hau
Y grawn a dry'n goronau,
Wedi fy nghyfnewidiad,
Af yn ol i dŷ fy Nhad;
Os "etifedd," ystafell,
Ac Aelwyd uwch mewn gwlad well;
Moli Duw am aelwyd wen
Heb ddiwedd y bydd awen.

# Emynau.

---

## Ar Ei Ben bo'r Goron.

MAE carcharorion angau
Yn dianc o'u cadwynau,
A'r ffordd yn olau dros y bryn
O ddyfnder glyn gofidiau ;
Cyhoedder y newyddion
A gorfoledded Seion,
Mae'r Iesu ar ei orsedd wen,
Ac ar Ei ben bo'r goron.

Cynefin iawn a dolur
Fu'r Iesu yn fy natur,
Gogoniant byth i'w enw Ef,
Am ddioddef dros bechadur ;
Yn addfwyn dan yr hoelion,
A dwyfol waed ei galon,
Fy mhrynu wnaeth Tywysog nen,
Ac ar Ei ben bo'r goron.

Dilynaf yn Ei lwybrau,
A chanaf yn fy nagrau,
Mae mwy na digon yn yr Iawn
I faddeu'n llawn fy meiau ;
Er dued yw fy nghalon,
Mae'r Iesu'n dal yn ffyddlon,
Eiriolwr yw tu hwnt i'r llen,
Ac ar Ei ben bo'r goron.

## Pa Dduw sydd fel Tydi.

I DDYFNDER fy nhrueni,
  Yn mro'r tywyllwch mawr,
Mae cariad a thosturi
  Yn tywallt dydd i lawr;
Pan oedd fy nerth yn pallu,
  Heb neb i wrando 'nghri,
Disgynaist i'm gwaredu,
  Pa Dduw sydd fel Tydi?

I'th gafell gâd i'm ddyfod,
  Yn grwydryn euog, ffol,
Siomedig yw'r eilunod
  A'm denodd ar eu hol;
Afradlon yw fy enw,
  Heb feddu parch, na bri;
I wella calon hwnw,
  Pa Dduw sydd fel Tydi?

Bu'r Iesu mewn caethiwed,
  I minau fyn'd yn rhydd;
Am hyn, nid ofnaf niwed
  O fewn y farn a fydd;
Cyfiawnder sydd yn foddlon,
  Ar aberth Calfari;
Caf finau wisgo'r goron,
  Pa Dduw sydd fel Tydi?

Mi ganaf yn fy nagrau
  Am rad faddeuol drefn,
I daflu fy mhechodau
  Am byth tu ol i'th gefn;
Mae yn dy gysgod loches
  I druan fel myfi;
Caf bwyso ar dy fynwes,
  Pa Dduw sydd fel Tydi?

## "Neb ond Iesu."

BENDIGEDIG fyddo Duw
Am fy nghofio;
Trefnodd imi Brynwr byw,
Diolch iddo;
Ganwyd imi ddwyfol Frawd
I'm gwaredu;
Pwy arddelai'm natur dlawd?
Neb ond Iesu.

Denwyd fi i anial wlad
Colledigaeth;
Gwerthais hawl i dy fy Nhad,
Am farwolaeth;
Pan oedd llid y byd a ddaw
Yn taranu,
Yn y storm ni welais law
Neb ond Iesu.

Llawenychaf yn ei râs,
A'i drugaredd;
Rhoddodd imi brofi blâs
Ei dangnefedd;
Pan fo daear, wedi hyn
Arna'i'n cefnu,
Ni ddysgwyliaf yn y glyn,
Neb ond Iesu.

Blinais ar bleserau'r byd,
Yn ddi gysur;
Gwagedd yw eu swyn i gyd
I bechadur;
Pwy a rydd i'm henaid ffol
Destyn canu,
Ac a'm dwg i'r nef yn ol?
Neb ond Iesu.

## "Plyg Fi."

Plyg fi, Arglwydd, er fy nghadw,
  Lladd fy nwydau bob yr un;
Cyndyn wyf, ac eto'n marw,
  Wedi byw i mi fy hun;
    Colyn angeu,
  Ydyw bywyd hebot Ti.

Plyg fi, Arglwydd, a'th ddaioni,
  Ar dy fwrdd y cedwir fi;
Gwna fi'n ufudd i gyflawni
  Dy ewyllys ddwyfol di;
    Dyma wynfyd
Holl angylion nef y nef.

Plyg fi, Arglwydd, â dy gariad,
  Dyro imi newydd gân;
Gad im' brofi yr eneiniad
  Oddi wrth yr Ysbryd Glân;
    Grâs yn unig
  Dodda'r galon graig yn llyn.

Plyg fi, Arglwydd, doed a ddelo,
  Yn dy gysgod gâd i'm fod;
Wyf am loches i ymguddio,
  Cyn i ddydd digofaint ddod;
    Ofer plygu
  Dan wialen drom dy lid.

Plyg fi, Arglwydd, plyg fi'n fuan,
  Ymgaledu'r wyf o hyd;
Twyll sy'n gwneud i'm calon aflan
  Gredu 'mod yn wŷn fy myd;
    Ar fy neulin,
  Wrth dy orsedd mae fy lle.

## Y Graig sydd Uwch.

WYF yma mewn anghenion,
  Yn mro y cystudd mawr;
A suddo mae fy nghalon
  Yn is o hyd i lawr;
Er mwyn y groes fendigaid,
  Ac angeu Calfari,
O! Arglwydd, arwain f'enaid
  I'r Graig sydd uwch na mi.

Addewaist o'th ddaioni
  Ddyrchafu'r eiddil gwan;
A threfnaist ffordd i'w godi,
  O'r pydew dwfn i'r lan;
Trugarog wyt wrth elyn,
  Er cefnu arnat Ti;
O! Arglwydd, gad i'm esgyn
  I'r Graig sydd uwch na mi.

Mae yn dy gariad olau,
  I'r truan yn y ffos;
Ac yn dy ras destynau
  I ganu yn y nos;
Dy fraich sydd estynedig,
  A chadarn fraich yw hi;
O! Arglwydd, dwg fi'n ddiddig,
  I'r Graig sydd uwch na mi.

Rho brofiad o rinweddol
  Haeddianau pur y gwaed;
A chanaf yn ddiangol,
  A'r Graig o dan fy nhraed;
Pan droir yr haul yn dywyll,
  Pan gyll y sêr eu bri,
O! Arglwydd, gad i'm sefyll,
  Ar Graig sydd uwch na mi.

## Mawl i'r Iesu

Molianaf enw'r Iesu,
  Wrth deithio tua'r nef;
O! pwy all beidio canu—
  Gogoniant iddo Ef;
Mae i bechadur ynddo
  Oludoedd grâs yn llawn;
O! deuwch, deuwch ato,
  Mae'i gwmni'n felus iawn.

Fe brofodd Ef ei hunan
  Yn gyfaill gwell na brawd;
Bu'n gysgod ac yn darian,
  I lawer gweddw dlawd;
Ni allodd beidio caru,
  A chodi euog fyd;
O! fendigedig Iesu,
  Yr un yw Ef o hyd.

Bu'r Iesu dan fy mhechod,
  Yn wylo lawer awr;
Heb loches ac heb gysgod
  I roi Ei ben i lawr;
Goddefodd Ei gystuddio,
  A'm camwedd oedd Ei glwy;
Mi ganaf, diolch iddo
  Am ben Calfaria mwy.

Addawodd y Diddanydd
  I wlad y cystudd mawr;
A Seion dan Ei fedydd
  Sy'n gorfoleddu'n awr;
O! cydiwch, golledigion
  Yn llaw yr Ysbryd Glân;
Mae'n achub pentewynion
  O'r gyneuedig dân.

## "Byddant fel Esgyll Colomen."

Mi glywaf y llwythau yn canu,
  Am drefn i'w cyfnewid yn wyn;
Mae ffynon dragwyddol yn tarddu,
  Yn holltau y Graig ar y bryn;
Ar wyneb yr anial di-galon,
  Mae'r ffrydiau yn glir ac yn llawn;
Tu cefn i gyflawnder y ffynon,
  Mae moroedd anfeidrol yr Iawn.

O! gariad, O! ddwyfol dosturi
  At euog, llygredig, a ffol;
Mae gobaith o ddyfnder trueni,
  I uchder y nefoedd yn ol;
Adferir y saint i ogoniant,
  A'u bywyd yn oleu a chlir;
Fel esgyll colomen y byddant,
  Yn wynion eu gynau cyn hir.

Er gorwedd yn mysg y crochanau,
  Yn nghanol gwaradwydd a gwawd;
Er griddfan yn myd y cystuddiau,
  A'u cyflwr yn ddu ac yn dlawd;
Mae Ysbryd y Bywyd ei hunan
  Yn aros o hyd yn y wlad;
A gras yn sancteiddio yr aflan
  I ddwyfol a nefol fwynhad.

Gogoniant i Dduw am fy nghadw,
  Bendigaid fo'i enw o hyd;
Caf weled fy hun ar ei ddelw,
  O gyrhaedd halogrwydd y byd;
Fy enaid a gwyd ar ei aden,
  A chefnu ar lygredd a wnaf;
Yn ddysglaer fel esgyll colomen
  I gwmni angylion yr af.

## Clyw fy llefain.

PECHADUR wyf, y duaf gaed,
Ac yn ei waed yn gwaeddi;
Yn nghanol beiau o bob rhyw,
O! Arglwydd, clyw fy ngweddi.

Fy llef o'r dyfnder atat ddaw,
O! moes dy law yn fuan;
Nid oes a wrendy lais fy nghri,
Os na wnei Di dy hunan.

Mae'r byd yn greulon fel y bedd,
A'i farwol gledd a deimlaf;
Er mwyn dy Fab ar Galfari,
O! meddwl Di am danaf.

Amheuon yn fy mlino sydd,
A ffydd fel am fy ngadael;
A rhag fy nghario gyda'r lli,
Dal Di, fy Nuw, dy afael.

Yr wyt yn codi'r tlawd o'r llwch,
I heddwch a gogoniant;
O! cyfod finau, eiddil gwan,
I ddadgan byth dy foliant.

Tỳn fi, a rhedaf ar dy ol
Drwy ganol dy elynion;
A chadw fi'n dy babell wen,
Am byth uwchben fy nigon.

Gad i mi brofi'r dwyfol dân,
A'th Ysbryd Glân i'm harwain;
Nis gallaf heb dy wyneb fyw,
O! Arglwydd, clyw fy llefain.

## Meddyliau o Hedd.

MEDDYLIAU tragwyddol o hedd,
  Gyrhaeddodd fy ngofid a'm cwyn ;
Meddyliau yn son am y wledd
  Ddarparodd fy Nuw er fy mwyn;
Fe'm gwelodd mewn cadwyn yn gaeth,
  Yn druan ac aflan fy llun;
Ond cofio am danaf a wnaeth,
  Er mwyn ei ogoniant ei hun.

Er gorwedd yn hir yn fy ngwaed,
  A'm natur yn gyndyn a ffol,
Cyfamod tragwyddol a wnaed,
  I brynu fy mywyd yn ol;
Mae cariad yn codi ei lef,
  Am faddeu anwiredd fy oes;
A gwelaf fwriadau y nef
  Yn oleu yn ymyl y groes.

Ni chyfyd cyfiawnder ei gledd
  I daro fy enaid i lawr;
Mae dwyfol feddyliau o hedd
  Yn hawlio fy mywyd yn awr;
Er gwario yn ofer fy nawn,
  Mae digon i gwrdd â fy rhaid;
Caf dynu o gyfoeth yr Iawn,
  A'r Iesu ei hun o fy mhlaid.

Mi ganaf yn nhrallod y byd,
  Yn wyneb addewid fy Iôr;
Mae heddyw i loni fy mryd
  Drugaredd a gras fel y môr;
Clodforaf ei enw am hyn,
  Wrth ddisgyn i lawr tua'r bedd;
Mae'r storm yn dystewi'n y glyn,
  Yn swn y meddyliau o hedd.

## Yr Un o Hyd yw'r Iesu.

MOR felus i bererin blin,
  Cynefin â galaru,
Yw cofio yn nghaledi'r byd,
  Mai'r un o hyd yw'r Iesu.

Lluddedig yw fy natur wan,
  A Satan yn fy maglu;
Ond dros y llesg a'r isel fryd,
  Yr un o hyd yw'r Iesu.

Gelynion fyrdd a drodd yn ol
  A'i anherfynol allu;
Caf finau nerth i'w curo 'nghyd,
  Yr un o hyd yw'r Iesu.

Diddymodd angeu er fy mwyn,
  I'm dwyn i'r nefol deulu;
Mae'r glyn o'i ol yn oleu i gyd,
  Yr un o hyd yw'r Iesu.

Os trallod a gofidiau gaf,
  Mi ddaliaf i'w folianu;
Ei nawdd a gaf yn hedd i gyd,
  Yr un o hyd yw'r Iesu.

Pan fyddo'r storm yn duo'r nef,
  A'i dolef yn fy nrysu,
Mi lechaf yn ei gysgod clyd,
  Yr un o hyd yw'r Iesu.

Pwy ond efe ar orsedd Duw
  Sydd heddyw yn teyrnasu?
Ac yn ei gariad at y byd,
  Yr un o hyd yw'r Iesu.

## Tyr'd yn Nes.

MAE Seion yn dy garu
    Iesu mawr;
Am danat mae'n hiraethu;
    Iesu mawr;
Tyr'd ati yn dy wenau;
Mae'n galw ar ei gliniau,
A'i chalon yn ei dagrau,
    Iesu mawr;
Dy gwmni, dyro dithau,
    Iesu mawr.

O! Geidwad bendigedig,
    Tyr'd yn nes,
At ysbryd cystuddiedig,
    Tyr'd yn nes;
Mae ynot Ti drugaredd
I'r truan di-ymgeledd,
A chysgod rhag dialedd,
    Tyr'd yn nes;
Er mwyn yr Iawn a'i rinwedd,
    Tyr'd yn nes.

Na thro dy wyneb ymaith
    Geidwad dyn;
Tydi yw'n hunig obaith,
    Geidwad dyn;
Er dyfned yw yr hirnos,
Mae goleu yn ymddangos
Pan fyddi di yn agos,
    Geidwad dyn;
O! tyr'd yn nes, ac aros,
    Geidwad dyn.

## Molianaf Di.

Molianaf di, fy Nuw,
Mewn gorfoleddus ddawn,
Am fod i'r euog dua'i liw
Ddiangfa yn yr Iawn ;
Daw grâs y nefoedd wen
I lòni f'enaid trist,
Os caf ond rhoddi pwys fy mhen
Ar fynwes Iesu Grist.

Yn ngwlad y cystudd mawr,
Gorchfygodd wrtho'i hun ;
A ffordd y bywyd sydd yn awr
Yn rhydd i euog ddyn ;
Fe sathrodd dan ei draed
Elynion fwy na rhi ;
A phrynodd drwy ei briod waed
Y nef yn ol i mi.

Gorffenwyd ar y bryn
Achubol drefn y nef ;
A thorodd dydd tragwyddol wyn
Ar nos ei angeu Ef ;
Arfaethau dwyfol ras
Eglurwyd ynddo'n llawn ;
A'r euog sydd yn profi blas
Maddeuant yn yr Iawn.

Er garwed yw fy myd,
Er dyfned yw fy loes,
Mae'r holl ofidiau'n troi o hyd
Yn wynfyd wrth y groes ;
Mi gerddaf tua'r nef,
Ar ol fy Iesu glân ;
A chanaf glod ei enw Ef
Yn nghanol dŵr a thân.

## Tad yr Amddifad.

Ti, Arglwydd, yw fy mhlaid,
  A'th enw'n gadarn Iôr;
Tosturi at fy rhaid
  Sydd ynot fel y môr;
Mewn cyfyngderau fwy na rhi,
Tad yr amddifad ydwyt Ti.

Mor anhawdd dwyn y groes,
  Yn wyneb llawer cledd;
A chalon dan ei gloes
  Yn griddfan ar y bedd;
Ond llawenyched teulu'r ffydd,
Fod nerth i'w gael yn ol y dydd.

Er fod y nos yn ddu,
  A natur yn llesghau,
A châr a chyfaill cu
  Yn dystaw ymbellhau;
Yn nuaf nos yr anial fyd,
Mae'n oleu tua'r nef o hyd.

Cysuron sydd yn ffoi
  I chwilio am y wawr;
Ac ofnau'n ymgrynhoi,
  Yn swn y storom fawr;
Ac nid oes neb yn dal yr un
Ar lwybrau'r bedd ond Ti dy hun.

Ar ffordd y byd a ddaw,
  Yn nghanol niwl y glyn,
Gad imi wel'd dy law,
  A chydio ynddi'n dŷn;
Er wylo'n llesg ar lan y lli,
Tad yr amddifad ydwyt Ti.

## Yr Addewidion.

O! DDWYFOL ras yr Iesu,
At wael golledig deulu,
Anfeidrol foroedd o fwynhad
Yn gariad heb ei haeddu;
Mae cyfoeth mawr ei galon
O fewn ei addewidion,
A throdd hyfrydwch nef i gyd
Yn fywyd i farwolion.

Addawodd drwy ei haeddiant
Gysuron a gogoniant,
Ac o'i fwriadau ef ei hun,
Ni throdd yr un yn fethiant;
Cyflawnder ei fendithion,
Yw manna'r pererinion,
Ac mae'r Diddanydd yn parhau
Ar lwybrau'r addewidion.

Pan fydd fy nef yn duo,
A'r stormydd yn fy nghuro,
Af i Galfaria ar ei ol,
Mae hedd tragwyddol yno;
Mae barnau y dialydd
Yn ddystaw ac yn llonydd,
A'r addewidion ar y bryn
Yn disgyn yn gawodydd.

Mi garaf fy Anwylyd,
Efe yw nerth fy mywyd,
A diogel yn ei gysgod mwy,
Nid ofnaf glwy nac adfyd;
O gyrhaedd fy ngelynion
Yn swn ei addewidion,
Ar Bren y Bywyd gwnaf fy nyth,
Am byth uwchben fy nigon.

## Dirion Iesu.

YN mhell, yn mhell, o dŷ fy Nhad,
Yn alltud wyf mewn arall wlad;
A chalon euog yn fy ngri,
O! dirion Iesu, cofia fi.

Er fod y byd yn cilio draw,
A'i holl gysuron yn ei law,
Gan edliw beiau fwy na rhi,
O! dirion Iesu, aros di.

Mae'r ffordd yn arw ac yn hir,
A lladdedigion dros y tir;
A'r gelyn ddyn o hyd gerllaw,
O! dirion Iesu, moes dy law.

Pryderus wyf o awr i awr,
Yn nyfnder nos y cystudd mawr;
Ond mae fy ngobaith ynot Ti,
O! dirion Iesu, arwain fi.

Er dal yn gyndyn ac yn ffol,
A phleser gau yn tynu'n ol,
O wagedd byd a'i holl ystaen,
O! dirion Iesu, dwg fi 'mlaen.

Mae hiraeth ar fy nghalon friw,
Am hyfryd wleddoedd cariad Duw,
Yn ngwlad y newyn, dan fy mhla,
O! dirion Iesu, trugarha.

O! plyg fi'n isel wrth dy draed,
Nes profi rhin haeddianau'th waed;
I dŷ fy Nhad, trwy dân a lli,
O! dirion Iesu, arwain fi.

## "O! Deuwch i'r Dyfroedd."

O! DEUWCH i'r dyfroedd, O! deuwch yn awr,
Paham y dibrisiwch drugaredd mor fawr?
Fe ylch y pechadur yn wyn ac yn lân,
A'i adfyd a dry yn orfoledd a chân.

Mae'r ffrydiau yn tarddu yn ymyl y Groes,
A phrinder i'w gloewon fendithion nid oes;
O'r bryn lle sychedodd Gwaredwr y byd,
Daw allan gyflawnder y nefoedd i gyd.

I enaid sychedig deifiedig ei fin,
Oferedd yw cloddio pydewau di rin;
Ni wêl o'u dyfnderoedd un dafn i'w leshau,
Ac ingoedd ei newyn o hyd yn dyfnhau.

Byth, byth ni ddigonir anghenion mor fawr,
Gan ffrydiau llygredig cysuron y llawr;
Siomedig y tröant, ni phery yr un,
Ac angeu a'u dilyn â'i wagder ei hun.

Wrth deithio anialwch gwywedig y byd,
Mae'r graig yn y golwg yn Horeb o hyd;
Adnebydd gyfyngder, a'i dyfroedd yn rhad
Ddilynant y llwythau nes cyrhaedd eu gwlad.

Er gwrthod y dyfroedd yn gyndyn cyhyd,
Mae Ysbryd y Bywyd yn galw o hyd;
Mae'n un a'i addewid, pwy bynag a ddaw,
Fe'i dwg at y ffynon yn ol yn ei law.

O! deuwch i'r dyfroedd, nac oedwch yn hwy,
Er dyfned yr angen, mae'r croesaw yn fwy;
Diodi'r sychedig yn rhad yw y drefn,
A bywyd o'i ol ni sycheda drachefn.

## Crist a'i Groes.

CARAF groes yr addfwyn Iesu,
Lle bu'n dioddef er fy mwyn;
Baich y farn oedd yn fy llethu,
Mynodd Ef ei hun ei ddwyn;
Hawdd i minau
Godi'r groes a'i ddilyn mwy.

Er y dirmyg a'r gwaradwydd,
Er y gwawd a'r hoelion dur,
Gogoneddus yw fy Arglwydd,
Yn ei wynder dwyfol bur;
Gwridodd heulwen
Yn ei lewyrch sanctaidd Ef.

Ni omeddodd ei ddyrchafu
Ar y groes i olwg byd;
A'i haeddianau yn eangu
Pyrth y nef fu 'nghau cyhyd;
Dal i esgyn
Mae dynoliaeth ar ei ol.

Gwelaf yno ddwyfol haeddiant,
Yn dystewi hawliau'r nef;
Clywaf yno swn maddeuant,
Yn yr Iawn a dalodd Ef;
Rhaid i gariad
Gael ymglymu wrth y groes.

Mae fy mywyd yn ei farw,
Mae fy ngwynfyd yn ei loes;
A diolchaf am fy nghadw
Ar fy neulin wrth y groes;
Tŷn yn fuan
Gyrau'r ddaear ato'i hun.

## Y Bugail Da.

IESU anwyl, yn dy gorlan,
  Mi ddyrchafaf byth dy glod;
Yn dy gwmni Di dy hunan
  Y dymunaf bellach fod;
    Mewn peryglon
  Bugail mawr y defaid wyt.

Dan dy ofal, Fugail tirion,
  Pan fo newyn yn y tir;
Dygi'th ddiadellau gwynion
  I'r porfeydd a'r dyfroedd clir;
    Ni ddaw angen
  Byth i braidd dy fynydd Di.

Crwydrais i'r anialwch garwaf,
  Yn llygredig ac yn dlawd;
Chwiliaist tithau'n hir am danaf
  Yn mhellderoedd ing a gwawd;
    Yn dy fynwes
  Y dychwelaist fi yn ol.

Agos wyt yn mhob caledi,
  Parod iawn i wrando cri;
A bugeilio'n mysg y lili
  Yw'th hyfrydwch penaf Di;
    Mae dy ddefaid
  Yn adnabod swn dy lais.

Llawenychaf yn dy gariad,
  Gorfoleddaf yn dy ras;
Ger dy fron, addfwynaf Geidwad,
  Y mae hedd o ddwyfol flas;
    Yn dy gorlan,
  Gwynfydedig fyddaf byth.

## Daeth y Dydd.

HOSANA, daeth y dydd,
A chof am dano fydd
Ar fynydd Duw;
Mae'r Ysbryd oddi fry
Yn codi'r meirw'n llu,
O feddau camwedd du,
I fyny'n fyw.

Cyflawna Duw yn awr
Ei hen addewid fawr,
I euog fyd;
A'i waredigion Ef,
Yn swn y dystaw lef
A deithiant tua'r nef,
Dan ganu nghyd.

I bererinion gras,
Mor felus ydyw blas
Cymdeithas Duw;
Mae daearoldeb gau
O'i wydd yn ymbellhau,
A'r dwyfol yn neshau
A digon yw.

Drugarog Ysbryd Glân,
Mae profi'th gynes dân,
Yn wir fwynhad;
O! aros gyda ni,
Yn nghysgod Calfari,
Mae'n gobaith ynot Ti
Am nefol wlad.

## Arwain Fi.

IESU, arwain fi a'th Ysbryd,
  Rho i mi dy ddwyfol law;
Er im wrthryfela'n ynfyd,
  Tyred, paid a chadw draw:
Llawn gofidiau yw'r anialwch,
  Minau'n llesg a gwael fy llun;
Ac nid oes a rydd ddiddanwch,
  Ond dy Ysbryd di dy hun.

Iesu, arwain fi a'th Ysbryd,
  Fel y gallwyf rodio'n rhydd;
Mae'r gelynion am fy mywyd
  Yn fy erlid nos a dydd;
Ti addewaist y Diddanydd
  Yn arweinydd tua'r nef:
Ac mae cysgod, a llawenydd,
  Yn y stormydd gydag Ef.

Iesu, arwain fi a'th Ysbryd,
  Teimlo'r wyf gysgodau'r bedd;
Ar dy lwybrau di mae bywyd,
  Ar dy lwybrau di mae hedd;
Gyda thi mi allaf ganu
  Yn y niwl sy'n llanw'r glyn;
Ac mae'th gwmni, anwyl Iesu,
  Yn gwneud enaid du yn wyn.

Iesu, arwain fi a'th Ysbryd,
  Rhag i'm farw'n grwydryn ffol;
Gad im gyrhaedd bythol wynfyd,
  A'r gofidiau blin ar ol;
Canaf yno ar dy ddelw
  Am ddiangfa yn yr Iawn;
A chei dithau am fy ngadw
  Yn y nef ogoniant llawn.

## "Cofiwch y Gwaed."

CENADWRI E. ROBERTS I GENHADAU MON.

COFIWCH y gwaed a dywalltodd yr Iesu,
Cofiwch waradwydd a dirmyg ei oes;
Gras a maddeuant sy'n bythol dyneru
Calon pechadur yn ymyl y groes.

Cofiwch y gwaed, O! cofiwch y gwaed,
Dilynwch yr Iesu, a chofiwch y gwaed.

Cofiwch y gwaed yn ei ddwyfol rinweddau,
Bywyd y nefoedd a gobaith y byd;
Dringwch y bryn i gyweirio'ch telynau,
Dal mae y gwaed yn ei rinwedd o hyd.

Cofiwch y gwaed a foddlonodd gyfiawnder,
Dalodd ofynion y nefoedd yn llawn;
Ingol ddefnynau o galon mor dyner
Lanwodd eangder y nefoedd ag Iawn.

Cofiwch y gwaed sydd yn golchi'r annuwiol,
Ffynon i buro'i wahanglwyf a gaed;
Heibio y groes mae y dorf waredigol
Adre'n dychwelyd dan arwydd y gwaed.

Cofiwch y gwaed, a chyhoeddwch ei hanes,
Cenwch nes clywo y meirw eich llef;
Daliwch i foli, a chanmol yn gynes,
Anthem y gwaed ydyw bywyd y nef.

Cofiwch y gwaed, O! cofiwch y gwaed,
Dilynwch yr Iesu, a chofiwch y gwaed.

## Ni Gofiwn y Gwaed.

Ni gofiwn y gwaed,
A'r cymod a gaed
I godi pechadur
Am byth ar ei draed;
Er garwed y loes,
A dirmyg yr oes,
Mae'r nef yn y golwg
Yn ymyl y Groes.

Ni gofiwn y bryn
A ddringwyd yn wyn,
Gan ddwyfol Etifedd
Y nefoedd cyn hyn;
O'i ddilyn yn wir
Yr aflan yn glir
A olchir yn wynach
Na'r eira cyn hir.

Ni gofiwn yr Oen,
A drodd yn ei boen
Yr anial di-fywyd
Yn wynfyd a hoen;
Mae'r ffordd ar ei hyd
Yn gariad i gyd,
A bywyd yn oleu
Ar feddau y byd.

Ni gofiwn yr Iawn
A dalwyd yn llawn
A chanu yn wyneb,
Cyfiawnder a wnawn;
Ni dderfydd ein llef,
O fawl iddo Ef,
Yn wynion ein gynau
Yn nghanol y nef.

o6o76

0. 607